



HM Government

# Ymateb y Llywodraeth i Bapur Gwyrdd y Strategaeth Diogelwch ar y Rhynggrwyd

Mai 2018



# Cynnwys

<b>1. Rhagair</b>	<b>2</b>
<b>2. Crynodeb Gweithredol</b>	<b>4</b>
<b>Papur Gwyrdd Diogelwch ar y Rhyngrwyd</b>	<b>4</b>
<b>Yr ymateb i'r ymgynghoriad</b>	<b>5</b>
Arolwg yr Ymgynghoriad	5
Yr hyn a ddywedodd rhanddeiliaid wrthym	7
<b>Yr hyn y gwnaethom ei ddysgu</b>	<b>8</b>
Y dull rheoleiddio	9
Cod ymarfer ac adroddiadau tryloywder	9
Ardoll y cyfryngau cymdeithasol	10
Cefnogi defnyddwyr	10
<b>Gweithio gyda'r diwydiant</b>	<b>11</b>
Pryderon	12
Iechyd meddwl	13
<b>Ein hymateb</b>	<b>13</b>
<b>Arweinydd byd-eang</b>	<b>15</b>
<b>Wrth symud ymlaen</b>	<b>16</b>
<b>Camau Gweithredu i'r Diwydiant</b>	<b>18</b>
<b>Y Siarter Ddigidol</b>	<b>18</b>
<b>Cymryd cyfrifoldeb</b>	<b>19</b>
Atebolrwydd llwyfannau a niwed anghyfreithlon	19
Telerau ac Amodau	19
Safonau Clir	20
<b>Cwmpas</b>	<b>21</b>
<b>Gwerthuso</b>	<b>23</b>
<b>Cod ymarfer ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol</b>	<b>24</b>
Egwyddorion	24
Bwlio ar-lein	25
<b>Adroddiad tryloywder blynyddol</b>	<b>26</b>
Preifatrwydd data	28
<b>Ardoll y cyfryngau cymdeithasol</b>	<b>28</b>
<b>'Meddwl am ddiogelwch yn gyntaf' a chysylltiadau â 'diogelu drwy ddylunio'</b>	<b>30</b>
<b>Y wybodaeth ddiweddaraf am raglen ailfodelu UKCCIS</b>	<b>31</b>
Ymestyn y cylch gwaith	32

<b>4. Cefnogi plant a rhieni</b>	<b>33</b>
<b>Addysg</b>	<b>33</b>
Ymateb ysgolion i seiberfwlio	38
<b>Plant mewn angen, plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal</b>	<b>39</b>
<b>Cymorth i rieni</b>	<b>40</b>
<b>Iechyd meddwl</b>	<b>42</b>
<b>5. Gwaith ehangach</b>	<b>45</b>
<b>Gwybodaeth gamarweiniol</b>	<b>45</b>
<b>Y Ganolfan Moeseg Data ac Arloesi</b>	<b>46</b>
Marchnadoedd digidol	47
Hysbysebu ar-lein	47
<b>Adolygiad Comisiwn y Gyfraith</b>	<b>49</b>
<b>Adroddiad y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus ar ymddygiad bygythiol mewn bywyd cyhoeddus</b>	<b>50</b>
<b>Bil Diogelu Data</b>	<b>51</b>
<b>Gemau fideo ar-lein</b>	<b>52</b>
<b>Gamblo ar-lein</b>	<b>55</b>
<b>Llyfrgelloedd</b>	<b>57</b>
<b>Strategaeth Unigrwydd</b>	<b>58</b>
<b>Gwasanaeth Dinasyddion Cenedlaethol</b>	<b>59</b>
<b>6. Ymateb y Llywodraeth i niwed ar-lein</b>	<b>60</b>
<b>Swyddfa Cydraddoldebau'r Llywodraeth</b>	<b>60</b>
<b>Y Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol</b>	<b>60</b>
Troseddau casineb ac iaith casineb ar-lein	60
<b>Y Swyddfa Gartref</b>	<b>61</b>
Defnydd plant o wefannau caru i oedolion	61
Twyll	62
Cam-drin domestig	62
Strategaeth Trais Difrifol	63
Y Comisiwn ar gyfer Gwrthsefyll Eithafiaeth	63
<b>Swyddfa'r Twrnai Cyffredinol</b>	<b>64</b>
<b>Ymchwil bellach</b>	<b>64</b>
<b>Atodiad A – Gweithgareddau Ymgynghori</b>	<b>66</b>
<b>Ymatebion i arolwg yr ymgynghoriad</b>	<b>66</b>
<b>Atodiad B – Cod ymarfer drafft i ddarparwyr llwyfannau cyfryngau cymdeithasol ar-lein.</b>	<b>67</b>



# 1. Rhagair

---



Mae'r Rhyngryd yn rym sylweddol er daioni. Mae'n gwasanaethu dynolryw, yn lledaenu syniadau, yn hyrwyddo rhyddid ac yn creu mwy o gyfleoedd ledled y byd. Ynghyd â thechnolegau newydd, megis deallusrwydd artiffisial (AI), disgwylir iddo newid cymdeithas yn fwy, efallai, nag unrhyw chwyldro technolegol blaenorol – gan gysylltu pobl, ein gwneud yn fwy cynhyrchiol a chodi safonau byw. Fodd bynnag, ochr yn ochr â'r cyfleoedd newydd hyn ceir heriau a risgiau newydd.

Rydym yn gryf o blaid rhyddid i lefaru ond nid yw hynny'n golygu y dylem gau ein llygaid ar achosion o gam-drin neu fwlio. Mae gwaith ymchwil yn awgrymu bod hyd at 25% o blant a phobl ifanc yn y DU yn profi seiberfwlio.<sup>1</sup> Pan gaiff y rhyngryd ei gamddefnyddio gan unigolion, a bod y camddefnydd hwnnw'n cael ei fwyhau gan y cysylltedd a ddarperir gan lwyfannau cyfryngau cymdeithasol, gall achosi niwed gwirioneddol a pharhaol, yn enwedig i bobl ifanc a'r rhai sy'n agored i niwed.

Gall camddefnyddio cyfryngau cymdeithasol hefyd leihau hyder pobl yn y Rhyngryd ac mewn technolegau newydd yn fwy cyffredinol, gan danseilio'r manteision sylweddol a all ddeillio o'r chwyldro digidol. Felly, mae'n hollbwysig ein bod yn mynd i'r afael â'r heriau hyn mewn ffordd effeithiol a chyfrifol er mwyn i dechnoleg ddigidol a'r economi ddigidol ffynnu.

Mae mwy a mwy o bobl yn pryderu ynghylch diogelwch ar-lein. Maent yn teimlo nad oes unrhyw safonau clir ar gyfer ymddygiad ac nad yw cwmnïau cyfryngau cymdeithasol yn cymryd cyfrifoldeb am yr hyn sy'n digwydd ar eu llwyfannau.

Drwy ein Siarter Ddigidol, mae'r Llywodraeth yn gweithio i sicrhau mai'r DU yw'r lle mwyaf diogel i fod ar-lein a'r lle gorau i ddechrau busnes digidol. Rydym eisoes yn gweithio gyda chwmnïau cyfryngau cymdeithasol er mwyn inni allu diogelu defnyddwyr a newid ymddygiad defnyddwyr ar-lein. Bydd y Bil Diogelu Data yn rhoi mwy o bŵer i unigolion reoli'r ffordd y caiff eu data eu defnyddio a'u profiad ar-lein. Ac rydym hefyd wedi gofyn i Gomisiwn y Gyfraith gynnal adolygiad o negeseuon difriol ar-lein er mwyn inni wneud yn siŵr bod y gyfraith droseddol yn addas at y diben wrth fynd i'r afael ag ymddygiad camdriniol ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol.<sup>2</sup>

Heddiw, rydym yn cyflwyno cynlluniau ar gyfer cod ymarfer i gyfryngau cymdeithasol ac adroddiadau tryloywder fel rhan o'n Siarter Ddigidol. Mae'r cod ymarfer statudol yn rhoi canllawiau i ddarparwyr cyfryngau cymdeithasol ar systemau cofnodi a phrosesau cymedroli

---

1

[https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/650933/Literature\\_Review\\_Final\\_October\\_2017.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/650933/Literature_Review_Final_October_2017.pdf)

<sup>2</sup> <https://www.lawcom.gov.uk/government-asks-law-commission-to-look-at-trolling-laws/>

prïodol i fynd i'r afael â chynnwys camdriniol. Drwy nodi safonau clir i ddiwydiant, byddwn yn gwneud yn siŵr bod gwell cymorth i ddefnyddwyr ar-lein a bod mwy o gwmnïau yn cymryd camau cyson i fynd i'r afael ag achosion o gam-drin.

Bydd adroddiadau tryloywder yn darparu data ar faint o gynnwys niweidiol y mae llwyfannau yn y DU yn cael eu hysbysu amdano a gwybodaeth am y ffordd yr ymdrinnir â'r adroddiadau hyn, gan gynnwys pa systemau y maent wedi'u rhoi ar waith i ddiogelu defnyddwyr, er enghraifft, mewn perthynas â'u hiechyd meddwl a'u lles. Bydd yr adroddiadau hyn yn ein helpu i ddeall faint o niwed sy'n cael ei achosi i bobl ar-lein a pha mor effeithiol y mae cwmnïau yn mynd i'r afael ag achosion o dorri eu telerau ac amodau.

Wrth inni wneud y gwelliannau pwysig hyn, byddwn hefyd yn cyhoeddi Papur Gwyn llawn yn ddiweddarach eleni cyn mynd ati i gyflwyno deddfwriaeth ynglŷn â diogelwch ar-lein a fydd yn cwmpasu pob math o niwed ar-lein. Mae meysydd posibl ar gyfer deddfwriaeth yn cynnwys y cod ymarfer, adroddiadau tryloywder a hysbysebu ar-lein. Bydd hyn yn sicrhau chwarae teg i gwmnïau drwy nodi disgwyliadau cyffredinol o ran diogelwch ar-lein.

Hoffwn ddiolch i bawb a gymerodd ran yn ein hymgyngoriad ar y Strategaeth Diogelwch Ar y Rhyngwrwd. Cawsom ymateb ardderchog i'n harolwg ar-lein ac rydym wedi ymgysylltu ag amrywiaeth eang o ddefnyddwyr, gan gynnwys pobl ifanc, elusennau a chwmnïau technoleg.

Mae'n amlwg bod hwn yn fater sy'n agos at galon llawer o bobl yn y DU a ledled y byd. Yn y misoedd a'r blynnyddoedd i ddod, byddwn yn arwain y gwaith er mwyn sicrhau, yn ogystal â chael yr economi ddigidol orau yn y byd, mai'r DU yw'r lle mwyaf diogel i fod ar-lein.

**Y Gwir Anrh. Matt Hancock AS**

**Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon**

## 2. Crynodeb Gweithredol

---

Pennodd y Siarter Ddigidol ddau nod - sef sicrhau mai'r DU yw'r lle mwyaf diogel yn y byd i fod ar-lein a sicrhau mai'r DU sydd â'r economi ddigidol orau yn y byd. Nod y Siarter yw cytuno ar normau a rheolau ar gyfer y byd ar-lein, fel rhan o'n gwaith i greu ecosystem ffyniannus lle y gall cwmnïau technoleg ddechrau a thyfu a lle y gall dinasyddion fod yn hyderus bod y Rhyngwrwd yn lle a reolir yn dda.

Mae llwyfannau cyfryngau cymdeithasol wedi dod â manteision a datblygiadau anhygoel i fywyd bob dydd. Maent yn hwyluso'r gwaith o gyfnewid gwybodaeth, nwyddau a gwasanaethau ledled y byd ac maent yn bwysig i alluogi twf economaidd yn y DU.

Mae sicrhau bod pobl yn ddiogel ar-lein yn elfen sylfaenol o'r ecosystem ffyniannus hon. Mae angen inni ategu'r rhyddid a'r datblygiadau arloesol sy'n gysylltiedig â'r rhyngwrwd â diogelwch er mwyn meithrin ymddiriedaeth mewn technolegau newydd. Mae seiberfwlio ac ymddygiad bygythiol ar-lein, a all gael effeithiau negyddol ar iechyd meddwl a lles, yn arbennig ymhlith plant, bellach yn gyffredin iawn. Er gwaethaf nifer o fentrau gwirfoddol, gwaith da gan amrywiaeth o elusennau a datblygiadau technolegol arloesol, mae cam-drin ar-lein yn dal i fod yn broblem i filiynau o ddinasyddion. Felly, rydym yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r ymddygiad hwn a sicrhau bod rheolau all-lein yn gymwys ar-lein hefyd.

Nododd Papur Gwyrdd y Strategaeth Diogelwch Ar y Rhyngwrwd, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2017, ein cynigion mewn perthynas â mynd i'r afael ag ymddygiad a chynnwys annerbyniol ar-lein. Ers hynny, mae'r defnydd o'r Rhyngwrwd i ledaenu gwybodaeth gamarweiniol neu 'newyddion ffug', y peryglon sy'n gysylltiedig â defnyddio deallusrwydd artiffisial i lywio barn y cyhoedd ar raddfa fawr, y camddefnydd helaeth o ddata personol a'r potensial i ddata gael eu defnyddio at ddibenion anfoesegol neu niweidiol, oll wedi dod i amlygrwydd fel problemau difrifol a gwirioneddol - gan ddangos pwysigrwydd dull strategol cynhwysfawr o wella diogelwch ar-lein ac adfer hyder dinasyddion mewn technoleg

### *Papur Gwyrdd Diogelwch ar y Rhyngwrwd*

Cyhoeddodd y Llywodraeth ei Phapur Gwyrdd ar y Strategaeth ar gyfer Diogelwch Ar y Rhyngwrwd y llynedd fel ein cyhoeddiad cyntaf o dan y Siarter Ddigidol. Yn y Papur Gwyrdd disgrifiwyd amrywiaeth eang o fathau o niwed ar-lein y mae'r Llywodraeth yn pryderu yn eu cylch, yn enwedig y rhai sy'n effeithio ar blant. Roedd y mathau hyn o niwed yn cynnwys seiberfwlio, cam-drin ar-lein, aflonyddu, trolio ac anfon negeseuon rhywiol eu natur. Gall y mathau hyn o ymddygiad gael effeithiau dinistriol ar ddiodefwr, gan gynnwys ar eu hiechyd meddwl a'u lles ac, yn dibynnu ar yr amgylchiadau lle y cânt eu cyflawni, gallant fod yn torri'r gyfraith.

Cadarnhawyd pa mor gyffredin yw niwed ar-lein gan bron 600 o ymatebwyr i arolwg ymgynghori'r Strategaeth Diogelwch ar y Rhyngwrwd, yr oedd llawer ohonynt wedi gweld cynnwys niweidiol ar-lein, yn enwedig bwlio ar-lein, cam-drin rhywiol a chasineb at wragedd ar-lein.



Yn y Papur Gwyrdd cynigiwyd set o egwyddorion i fod yn sail i'n dull gweithredu:

1. Dylai'r hyn sy'n annerbyniol all-lein fod yn annerbyniol ar-lein;
2. Dylai pob defnyddiwr gael ei rymuso i reoli risgiau ar-lein a chadw'n ddiogel;
3. Mae gan gwmnïau technoleg gyfrifoldeb i ddiogelu eu defnyddwyr ac am y cynnwys a gyhoeddir ganddynt.

Yn yr ymgynghoriad cysylltiedig, gwnaethom ofyn i bobl am eu barn am ein mentrau arfaethedig a sut y gall y Llywodraeth gydweithio ag amrywiaeth eang o randdeiliaid er mwyn mynd i'r afael â niwed ar-lein a hyrwyddo cymunedau ar-lein diogelach. Yn benodol ceisiwyd barn pobl ar y canlynol:

1. Cefnogi rhieni a gofalwyr
2. Cod ymarfer ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol
3. Adroddiadau tryloywder ar gyfer cwmnïau cyfryngau cymdeithasol
4. Ardoll y cyfryngau cymdeithasol
5. Atebion technolegol posibl
6. Datblygu llythrennedd plant
7. Profiad oedolion o gam-drin ar-lein
8. Pryderon ynghylch caru ar-lein.

## *Yr ymateb i'r ymgynghoriad*

Cawsom ymateb ardderchog i'n hymgyngoriad a gynhaliwyd rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2017. Rydym hefyd wedi cynnal trafodaethau bord gron a grwpiau ffoecs ag amrywiaeth eang o randdeiliaid. Mae'n amlwg bod nifer gynyddol o bobl, gan gynnwys rhieni a gweithwyr addysg ac iechyd proffesiynol, yn pryderu ynghylch diogelwch ar-lein. Tynnodd yr ymgynghoriad sylw at dri phrif fater, sef:

1. Mae ymddygiad ar-lein yn aml yn methu â chyrraedd safonau derbyniol;
2. Gall defnyddwyr deimlo nad ydynt yn gallu mynd i'r afael â'r materion hyn;
3. Gall cwmnïau technoleg weithredu heb oruchwyliaeth, tryloywder nac atebolrwydd priodol ac mae buddiannau masnachol yn golygu nad ydynt, o bosibl, yn gweithredu er lles defnyddwyr.

## **Arolwg yr Ymgynghoriad**

Darparodd canlyniadau arolwg ar-lein ein hymgyngoriad wybodaeth am brofiadau cyfredol defnyddwyr ar-lein.<sup>3</sup> O'r ymatebwyr a ddewisodd ateb cwestiynau perthnasol yr ymgynghoriad:

- Cadarnhaodd 60% o'r ymatebwyr (296 o unigolion) eu bod wedi gweld cynnwys amhriodol neu niweidiol ar-lein;

---

<sup>3</sup> Gweler Atodiad A am ragor o fanylion am y ffordd y mae ffigurau'r ymatebion i'n harolwg ymgynghori wedi'u cyfrifo.

- Dywedodd 41% o'r ymatebwyr (149 o unigolion) eu bod wedi cael eu cam-drin ar-lein. O'r rhain, roedd 130 o unigolion wedi cael eu sarhau, roedd 70 wedi wynebu aflonyddu, roedd 57 wedi cael eu bygwth ac roedd 51 wedi cael eu bwlio. Dywedodd 15 o unigolion eu bod wedi cael eu cam-drin bod dydd a dywedodd 27 eu bod wedi cael eu cam-drin yn wythnosol. Dywedodd 78 o unigolion fod y gamdriniaeth yn ymwneud â barn wleidyddol neu gymdeithasol. Dywedodd 84% o'r ymatebwyr (82 o unigolion) nad oeddent yn adnabod yr unigolyn/unigolion a oedd yn gyfrifol am eu cam-drin ar-lein;
- Cadarnhaodd 77% o'r ymatebwyr (330 o unigolion) eu bod yn gwybod sut i roi gwybod am gynnwys a oedd, o bosibl, yn anghyfreithlon neu'n annifyr ar gyfryngau cymdeithasol, ond dim ond 36% (158 o unigolion) a oedd wedi rhoi gwybod am y cynnwys hwn o'r blaen;
- Dim ond 41% o'r ymatebwyr (66 o unigolion) a oedd o'r farn bod cwmnïau cyfryngau cymdeithasol wedi cymryd y pryderon yr oeddent wedi rhoi gwybod iddynt amdanynt o ddifrif.

Mae'r graddau y mae defnyddwyr yn gweld cynnwys niweidiol neu'n cael eu cam-drin ar-lein yn destun pryder mawr. Mae'r ffaith bod y gamdriniaeth a brofwyd gan unigolion yn aml yn ymwneud â barn wleidyddol neu gymdeithasol yn peri pryder penodol ynghylch ein trafodaeth ddemocrataidd.

Hefyd, gofynnodd yr arolwg i ymatebwyr am eu barn ar ein polisïau arfaethedig. Nododd y canlyniadau y canlynol:

- Pan ofynnwyd iddynt nodi pa lwyfannau a ddylai gael cod ymarfer, roedd ychydig dros hanner yr ymatebwyr (197 o unigolion) yn cytuno y dylai llwyfannau sy'n galluogi unigolion i gyhoeddi negeseuon cyhoeddus y gall pobl eraill eu gweld gael cod. Awgrymodd sawl ymatebydd hefyd y dylai llwyfannau sy'n galluogi ffrydio'n fyw gynnwys fideo (182 o unigolion), llunio proffil caru (172 o unigolion), anfon negeseuon preifat at eraill (160 o unigolion), rhannu lluniau/fideos (158 o unigolion), llunio profi y gellir ei rannu er mwyn galluogi cysylltiadau â defnyddwyr eraill (145 o unigolion) a rhannu cynnwys megis gwe-ddolenni ag eraill (142 o unigolion) gael cod ymarfer;
- Cadarnhaodd ymatebwyr eu bod yn arbennig o awyddus i weld adroddiadau tryloywder yn ymdrin â'r canlynol: pa bolisïau cymedroli roedd pob gwefan wedi'u rhoi ar waith a'r ffordd y cânt eu hadolygu (191 o unigolion); faint o gwynion a gafwyd, sut yr ymdrinnir â nhw a faint o gynnwys sydd wedi'i ddileu (137 o unigolion); a gwybodaeth am sut y gallwch gael cymorth a chyrchu canolfannau diogelwch ar eu llwyfannau (107 o unigolion);
- Ymatebodd 222 o rieni i'n harolwg ar-lein a nododd rhai eu bod yn awyddus i gael rhagor o wybodaeth am bynciau a oedd yn cynnwys diogelu data personol (72 o rieni), yr effeithiau y mae bod ar-lein yn eu cael ar iechyd meddwl (69 o rieni), seiberfwlio (62 o rieni), dichell/twyll ar-lein (61 o rieni), meddwl yn feirniadol (61 o rieni), effeithiau corfforol bod ar-lein (52 o rieni) a chadernid digidol (51 o rieni);
- Roedd 49% o'r ymatebwyr (189 o unigolion) yn cytuno y dylai mwy o wybodaeth am ddiogelwch cynhyrchion a llwyfannau digidol fod ar gael i ddefnyddwyr;
- Roedd 71% o'r ymatebwyr (260 o unigolion) o'r farn y dylid pennu statws oedran gofynnol ar gyfer defnyddio cyfryngau cymdeithasol a gwasanaethau cymwysiadau

- sy'n galluogi cyswllt rhywiol/rhamantaidd rhwng defnyddwyr. Roedd 51% (133 o unigolion) o'r farn y dylid pennu'r statws oedran gofynnol yn 18 oed a throsodd;
- Roedd 27% o'r ymatebwyr (100 o unigolion) yn cytuno bod cyfryngau cymdeithasol a gwasanaethau cymwysiadau sy'n galluogi cyswllt rhywiol/rhamantaidd rhwng defnyddwyr, yn gwneud popeth o fewn eu gallu i atal pobl ifanc rhag cael eu cam-drin;
  - Roedd 60% o'r ymatebwyr (219 o unigolion) o'r farn bod gan y diwydiant technoleg rôl i'w chwarae o ran helpu plant i ddatblygu eu sgiliau llythrennedd digidol. Roedd ymatebwyr o'r farn y gellid gwneud hyn drwy ddatblygu deunyddiau a gemau sy'n hyrwyddo llythrennedd digidol, gwella swyddogaethau cymedroli a chofnodi ar eu gwefannau, datblygu deunyddiau am ddim ar gyfer ysgolion a rhieni.
  - Roedd 34% o'r ymatebwyr (127 o unigolion) o'r farn y byddai cynlluniau diogelwch ar-lein cyfoedion sy'n canolbwyntio ar ddiogelwch ar-lein yn ffordd effeithiol o helpu plant i gadw'n ddiogel ar-lein.

Nododd yr ymatebion i'r arolwg a gafwyd gan sefydliadau y canlynol:

- Roedd 95% (53 o sefydliadau) yn cytuno bod gan llwyfannau cyfryngau cymdeithasol ddyletswydd gofal i ddileu a lleihau ymddygiad neu gynnwys amhriodol ar eu llwyfannau;
- Roedd 58% (33 o sefydliadau) yn cytuno y dylai cwmnïau annog pobl i beidio â defnyddio hunaniaeth ffug wrth ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol ac roedd 97% (55 o sefydliadau) yn cytuno y dylai'r cod ymarfer gynnwys camau i fynd i'r afael â'r rhai sy'n defnyddio cyfrifon cyfryngau cymdeithasol dienw i gam-drin eraill;
- Roedd 81% (46 o sefydliadau) yn cytuno y dylai fod gan bob cwmni cyfryngau cymdeithasol yr un safonau ymddygiad;
- Roedd 83% (49 o sefydliadau) yn cytuno y dylai mwy o wybodaeth am ddiogelwch cynhyrchion a llwyfannau digidol fod ar gael i ddefnyddwyr;
- Roedd 95% (57 o sefydliadau) yn cytuno bod gan y diwydiant technoleg rôl i'w chwarae o ran helpu plant i ddatblygu eu sgiliau llythrennedd digidol.

Rydym wedi ystyried y safbwyntiau hyn wrth inni ddatblygu'r polisiau a nodir yn nes ymlaen yn y papur hwn.

## Yr hyn a ddywedodd rhanddeiliaid wrthym

Siaradwyd ag athrawon o ysgolion cynradd ac uwchradd, plant sy'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn rheolaidd a nifer o wahanol elusennau sy'n cynrychioli barn rhieni, plant a defnyddwyr sy'n agored i niwed. At hynny, cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd bord gron â chwmmnïau technoleg mawr er mwyn inni allu dysgu am y gwaith y maent wedi'i wneud ym maes diogelwch hyd yma a'r cyfleoedd i ddefnyddio technoleg i atal niwed ar-lein.

Ymdriniodd y trafodaethau hyn ag amrywiaeth eang o bynciau gan gynnwys amser wrth y sgrin, gorfodi cyfyngiadau oedran ar gyfryngau cymdeithasol a ffyrdd o fynd i'r afael â bwlio ar-lein yn effeithiol.

Hefyd, cynhaliwyd trafodaethau cysylltiedig â chyfryngau cymdeithasol a chwmmnïau technoleg fel rhan o gyd-weithgor gyda'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a

ganolbwyntiodd ar yr effeithiau y mae cyfryngau cymdeithasol yn eu cael ar iechyd meddwl. Drwy'r grŵp cawsom adborth ar yr heriau sy'n gysylltiedig â chadarnhau oedran a phlant sy'n treulio oriau ar-lein a gwnaethom ddysgu am y gwaith y maent yn ei wneud ar hyn o bryd. Mae'r Llywodraeth yn croesawu'r cyfraniad y mae'r cwmnïau wedi'i wneud at y fforwm hwn, gan gynnwys y llythyron a ysgrifennodd y cwmnïau at yr Ysgrifennydd Gwladol dros lechyd a Gofal Cymdeithasol yn dilyn cyfarfodydd y gweithgor, gan amlinellu'r camau cadarnhaol y mae llawer ohonynt yn eu cymryd er mwyn mynd i'r afael â'r materion pwysig hyn. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod llawer o waith i'w wneud ac y gellid gwneud mwy i ddiogelu plant a phobl ifanc rhag y niwed y gallai cyfryngau cymdeithasol ei achosi i'w hiechyd meddwl.

Ochr yn ochr â'r prif ymgynghoriad, buom yn gweithio gyda Chymdeithas Gyfrifiadura Prydain a Sefydliad Siartredig TG a gynhaliodd arolwg o fwy na 6,500 o blant a phobl ifanc ynglŷn â diogelwch ar-lein.<sup>4</sup> Mae'r ymatebion hyn yn dangos yn glir bod plant yn teimlo bod bwlch yn eu haddysg ar gadernid digidol. Mae ganddynt ddisgwyliadau isel o ran llwyfannau cyfryngau cymdeithasol mewn perthynas â'u preifatrwydd a'u diogelwch ar-lein a hoffai plant iau yn benodol gael eu diogelu'n well rhag cynnwys camdriniol. Wrth inni ddatblygu ein gwaith, byddwn yn sicrhau ein bod yn parhau i ystyried barn plant a mynnu bod cwmnïau yn gwneud mwy i ddiwallu anghenion pob defnyddiwr.

Cawsom hefyd ymatebion gan reoleiddwyr, cyrff masnach, llyfrgelloedd, aelodau o'r Grŵp Hawliau Agored, addysgwyr, yr heddlu, pleidiau gwleidyddol, cwmnïau technoleg ac elusennau sy'n cefnogi gwahanol fathau o ddefnyddwyr sy'n agored i niwed gan gynnwys plant a phobl ifanc, yn ogystal â dioddefwyr cam-drin domestig, troseddau casineb a bwlio.

Defnyddiwyd arbenigedd eraill sydd eisoes yn gwneud cynnydd yn y maes hwn ac rydym yn parhau i'w ddefnyddio. Cyhoeddodd Tasglu'r Sefydliad Brenhinol ar Atal Seiberfwlio ei gynllun gweithredu ym mis Tachwedd 2017 ac edrychwn ymlaen at ddysgu o gynlluniau peilot arloesol y mae'n eu cynnal ar hyn o bryd. Mae Cynghrair TGCh yr UE ar gyfer Plant Ar-lein yn god gwirfoddol sy'n seiliedig ar egwyddorion hunanreoleiddio ar gyfer diogelwch plant ar y rhyngryd a sefydlwyd yn 2012 ac mae'r cod wedi'i lofnodi gan nifer o ddarparwyr cyfryngau cymdeithasol, Darparwyr Gwasanaethau Rhyngryd a darparwyr darlledu. Yn fwy cyffredinol, byddwn yn parhau i sicrhau ein bod yn ceisio dysgu o'r gronfa gynyddol o ymchwil i'r pwnc hwn.

## *Yr hyn y gwnaethom ei ddysgu*

Roedd cefnogaeth gref gan bob sector, gan gynnwys cwmnïau technoleg ac elusennau, i'r tair egwyddor allweddol sy'n sail i'n gwaith, sef:

- Dylai'r hyn sy'n annerbyniol all-lein fod yn annerbyniol ar-lein;
- Dylai pob defnyddiwr gael ei rymuso i reoli risgiau ar-lein a chadw'n ddiogel;
- Mae gan gwmnïau technoleg gyfrifoldeb i ddiogelu eu defnyddwyr ac am y cynnwys a gyhoeddir ganddynt.

---

<sup>4</sup> <https://www.bcs.org/category/19271>

Croesawyd hefyd y dull cydweithredol a awgrymwyd gennym a'n hymrwymiad i weithio gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid.

Pwysleisiodd y rhan fwyaf o'r ymatebion bwysigrwydd cymryd y camau cywir er mwyn sicrhau bod creadigrwydd, arloesedd a'r rhyddid i lefaru yn cael eu diogelu, wrth ddiogelu defnyddwyr rhag niwed ar-lein. Mae'n rhaid inni ddiogelu hawliau tra'n sicrhau eu bod yn ddiogel ar yr un pryd. Pwysleisiodd ymatebion i'r ymgynghoriad hefyd fod angen sicrhau bod ein gwaith yn cael ei brawfesur at y dyfodol fel bod modd addasu unrhyw reolau y byddwn yn eu llunio neu unrhyw fentrau y byddwn yn eu dechrau ar gyfer technolegau newydd.

Mae ein gwaith ymchwil wedi dangos bylchau sylweddol yn y dystiolaeth sy'n bodoli eisoes, yn rhannol am fod niwed ar-lein yn gallu newid yn gyflym, ac mae llawer o dueddiadau allweddol yn rhy newydd i fod wedi bod yn destun astudiaethau hydredol. Fel rhan o'n rhaglen waith arfaethedig ar ddiogelwch ar y rhyngwrwd byddwn yn gweithio'n agos gydag Ymchwil ac Arloesi yn y DU i wneud gwaith ymchwil newydd.

## **Y dull rheoleiddio**

Awgrymodd nifer o ymatebion, yn enwedig y rhai gan elusennau, y dylai'r Llywodraeth sicrhau bod y cod ymarfer arfaethedig yn gyfreithiol gyfrwymol, wedi'i ategu gan reoleiddiwr annibynnol a chyfundrefn sancsiynau. Dywedodd ymateb yr NSPCC nad yw codau ymarfer gwirfoddol na chanllawiau olynol a fabwysiadwyd gan y diwydiant yn y gorffennol wedi cael effaith sylweddol barhaol. Dywedodd Cynghrair yr Elusennau Plant ar Ddiogelwch ar y Rhyngwrwd (CHIS) fod yn rhaid cysylltu mesurau megis y cod ymarfer â rheoleiddiwr â phwerau cyfreithiol penodol i ddisgrifio safonau gofynnol a gorfodi'r safonau hynny gan ddefnyddio nifer o ddulliau gan gynnwys y gallu i osod dirwyon sylweddol.

Mynegodd elusennau eraill, gan gynnwys 5Rights, bryder ynghych y dull hunanreoleiddio presennol. Dywedodd Cymdeithas Gyfrifiadura Prydain, yn ei hymateb i'r ymgynghoriad, fod y potensial i gyflwyno deddfwriaeth ffurfiol bellach yn ffordd resymol o sicrhau cefnogaeth y diwydiant a bod y diwydiant a'r Llywodraeth yn cydweithio â'i gilydd. Nododd Sefydliad Cyfryngau'r Plant fod y nifer fawr o blant dan oed sydd ar lwyfannau yn profi nad yw'r dull hunanreoleiddio yn gweithio.

Yn y cyfamser, dywedodd Sefydliad Gwyllo'r Rhyngwrwd, sy'n dileu lluniau sy'n dangos plant yn cael eu cam-drin o'r Rhyngwrwd, fod ei ddull hunanreoleiddio, mewn partneriaeth â diwydiant y Rhyngwrwd, wedi bod yn hynod effeithiol. Roedd y cwmnïau technoleg a ymatebodd i'n hymgyngoriad hefyd yn gefnogol iawn i barhau â'r dull hunanreoleiddio a gwnaethant gyfeirio at gamau gweithredu gwirfoddol llwyddiannus mewn perthynas ag amrywiaeth o fathau o niwed ar-lein fel tystiolaeth y gall y dull hwn o weithredu sicrhau gwelliannau.

## **Cod ymarfer ac adroddiadau tryloywder**

Nododd Google, Twitter a Facebook y byddent yn gweithio gyda'r Llywodraeth i sefydlu cod ymarfer y cyfryngau cymdeithasol ac adroddiadau tryloywder. Awgrymodd Google na ddylai'r cod leihau'r cymhelliant i lwyfannau wneud eu gwefannau eu hunain mor ddiogel â phosibl yn y ffyrdd mwyaf effeithiol posibl a all fod yn berthnasol ac yn benodol iawn i'w gwefannau. Cyfeiriodd Facebook at y flaenoriaeth y mae'n ei rhoi i sawl menter hunanreoleiddio sy'n bodoli eisoes, gan gynnwys Cynghrair y Comisiwn Ewropeaidd i Ddiogelu Plant yn Well Ar-lein. Ym mis Awst 2018, cynhelir gwerthusiad annibynnol er mwyn adolygu allbwn pob un o'r llofnodwyr yn y Cynghrair. Awgrymodd Twitter y dylai'r cod ymdrin â'r ystod lawn o ddulliau cyfathrebu, cynnwys a gwasanaethau cymdeithas wybodaeth a ddefnyddir gan bobl yn y DU.

Roedd darparwyr gwasanaethau rhyngryd gan gynnwys BT, TalkTalk a Sky oll yn gefnogol i adroddiadau tryloywder ar yr amod bod gan adroddiadau fetrigau clir a dealladwy ar waith er mwyn hwyluso gwneud cymariaethau. Roedd Sky o'r farn, er mwyn i hyn weithio, y byddai angen rhai pwerau casglu gwybodaeth sylfaenol yn debyg iawn i'r pwerau sydd gan Ofgem i ofyn i ddarparwyr gwasanaethau cyfathrebu eraill am wybodaeth, wedi'u hategu gan gyfundrefn sancsiynau am fethu â chydymffurfio.

## **Ardoll y cyfryngau cymdeithasol**

Cymysg fu'r ymatebion i gwestiynau'r ymgynghoriad am yr ardoll. Roedd rhai ymatebwyr megis Sky o'r farn y byddai'n werth sefydlu dull mwy strategol o ariannu diogelwch ar-lein. Roedd sawl elusen yn gadarnhaol ynghylch manteision defnyddio ardoll er mwyn helpu i ariannu cynlluniau diogelwch ar-lein cyfoedion ar gyfer plant a darparu adnoddau diogelwch ar-lein ar gyfer rhieni, gweithwyr proffesiynol a defnyddwyr eraill sy'n agored i niwed ar-lein.

Fodd bynnag, roedd llawer o gwmnïau, gan gynnwys Facebook, Google a Twitter a rhai elusennau, gan gynnwys Canolfan Rhyngryd Diogelach y DU, yn awyddus i osgoi newid sylfaenol i'r ffordd y mae cyllid diogelwch ar y rhyngryd ar gyfer gweithgareddau presennol yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd. Mae llawer o gwmnïau ac elusennau eisoes wedi sefydlu rhaglenni cyllido ac roeddent yn awyddus i osgoi unrhyw darfu ar y rhain. Cododd yr NSPCC bryderon hefyd ynghylch effaith unrhyw ardoll, o ystyried y potensial ar gyfer ail-lansio rhaglenni sy'n bodoli eisoes o dan enw newydd. Awgrymodd TalkTalk fod angen cynnal adolygiad er mwyn annog cwmnïau i gyfrannu at yr ardoll o ystyried y model cyllido anghyson ar gyfer mentrau i'r diwydiant cyfan. Awgrymodd hefyd y gallai cyfarfod Cyngor y DU ar Ddiogelwch ar y Rhyngryd (UKCIS), sydd ar fin cael ei gynnal, fod yn gyfrifol am ddsbarthu'r ardoll.

Cafwyd adborth cryf bod angen i'r Llywodraeth ddatblygu sail dystiolaeth gadarn er mwyn llywio ein dull gweithredu yn y maes hwn.

## **Cefnogi defnyddwyr**

Nododd yr ymatebion i'r ymgynghoriad fod cefnogaeth gref i ddatblygu atebion technegol i fynd i'r afael â niwed ar-lein ymhellach. Fodd bynnag, pwysleisiodd ymatebwyr, ochr yn ochr

â'r gwaith hwn, fod angen datblygu deunyddiau ac addysg diogelwch ar-lein ar gyfer plant, rhieni a defnyddwyr sy'n oedolion ymhellach, am na all technoleg ddileu niwed ar-lein ar ei phen ei hun.

Ers cyhoeddi'r Papur Gwyrdd, mae ein gwaith 'diogelu drwy ddylunio' wedi datblygu ac fel rhan o'n rhaglen i ailfodelu UKCCIS, rydym yn dal i fod yn ymrwymedig i greu Rhwydwaith Technegol - gan ddod â pheirianwyr a busnesau technoleg arloesol ynghyd i drafod arfer gorau a datblygu syniadau newydd. Bydd hyn yn cefnogi ein gwaith 'meddwl am ddiogelwch yn gyntaf' y byddwn yn manylu arno yn ein Papur Gwyn sydd ar fin cael ei gyhoeddi.

Ers ein hymgyngoriad, mae Gweithgor Addysg UKCCIS wedi cyhoeddi deunyddiau newydd er mwyn helpu ysgolion i addysgu diogelwch ar-lein ac mae'r Adran Addysg wedi cyhoeddi cais cyhoeddus am dystiolaeth a chynnal ymarfer ymgysylltu â rhanddeiliaid ehangach ynglŷn â chwmpas a chynnwys Addysg Perthnasoedd, Addysg Perthnasoedd a Rhyw ac addysg Bersonol, Cymdeithasol ac Iechyd, gan gynnwys yr agweddau diogelwch ar-lein ar bob un o'r pynciau hyn. Rydym yn dal i fod yn ymrwymedig i weithio gydag amrywiaeth eang o bartneriaid er mwyn sicrhau y caiff negeseuon am ddiogelwch ar-lein eu cyfleu i bob defnyddiwr a rhiant drwy amrywiaeth o sianeli cyfathrebu. Bydd hyn yn cynnwys gweithio'n agos â llwyfannau technoleg, grwpiau cymdeithas sifil, llyfrgelloedd ac ysgolion.

## *Gweithio gyda'r diwydiant*

Mae'n bwysig cydnabod bod y prif gwmnïau cyfryngau cymdeithasol eisoes yn cymryd camau i wella eu llwyfannau. Maent wedi datblygu adnoddau technegol pwysig a phartneriaethau llwyddiannus ag elusennau er mwyn cyflawni mentrau diogelwch ar-lein - ac mae ganddynt gynlluniau i wneud mwy yn y maes hwn. Mae twf deallusrwydd artifisial a dysgu peiriant yn golygu bod algorithmau yn cael eu defnyddio i ddileu cynnwys niweidiol yn gyflymach. Mae'r mesurau hyn yn cael effaith gadarnhaol. Er enghraifft, yn ei ymateb i'r ymgynghoriad nododd Google fod 98% o'r fideos a ddilëir ganddo am eu bod yn ymwneud ag eithafiaeth dreisgar wedi'u nodi gan algorithmau dysgu peiriant ac maent wedi dechrau defnyddio'r dechnoleg hon mewn meysydd eraill megis diogelwch plant a llefaru casineb.

Drwy gydol cyfnod yr ymgynghoriad, buom yn gweithio'n agos gyda chwmnïau technoleg ac rydym wedi gweld cynnydd o ran diogelwch ar-lein yn y flwyddyn ddiwethaf. Yn benodol, nododd ymatebion gan y diwydiant technoleg, gan gynnwys grwpiau masnach, y gwaith y maent yn ei wneud ar hyn o bryd mewn perthynas â'r canlynol:

- Partneriaethau ag elusennau yn y DU i gyflwyno addysg diogelwch ar-lein;
- Gwaith gyda Thasglu'r Sefydliad Brenhinol ar Atal Seiberfwlio;
- Cymryd rhan mewn mentrau hunanreoleiddio sy'n bodoli eisoes megis y Cynghrair TGCh ar gyfer Plant Ar-lein a Chynghrair y Comisiwn Ewropeaidd i Ddiogelu Plant yn Well Ar-lein;
- Telerau ac amodau a rheolau cymuned yn erbyn bwlio a mathau eraill o ymddygiad annerbyniol;
- Gall defnyddwyr i roi gwybod am ymddygiad annerbyniol a'r canlyniadau i'r rhai sy'n ymddwyn yn annerbyniol;

- Adnoddau a nodweddion sy'n ymwneud â phreifatrwydd, diogelwch ac atal sy'n galluogi defnyddwyr i reoli eu profiad;
- Canolfannau diogelwch ar-lein sy'n rhoi cyngor i ddefnyddwyr.

Nododd yr ymatebion i'r ymgynghoriad bocedi o arfer gorau gan gynnwys y canlynol:

- Dywedodd Facebook wrthym fod unrhyw un sy'n rhoi gwybod iddo am gynnwys yn cael ei hysbysu am y camau sydd wedi'u cymryd ac y gall gael adnoddau ychwanegol i'w helpu i ddatrys y mater sy'n peri pryder iddo. Gall pobl hefyd roi eu barn ar berfformiad Facebook neu gallant apelio yn erbyn penderfyniadau.
- Dywedodd Google ei fod wedi bod yn gweithio ar atebion technegol y gellir eu rhannu ar draws y diwydiant. Er enghraifft, ym mis Mawrth 2017, cyhoeddodd Alphabet adnodd newydd a elwir yn Perspective, sy'n rhyngwyneb rhaglennu cymwysiaid (API) sy'n rhoi adnoddau cymedroli aflonyddu a sylwadau i unrhyw ddatblygwr. Diben yr adnoddau hyn yw mynd i'r afael â negeseuon difriol o gyfrifon ag enw a chyfrifon dienw.
- Disgrifiodd Twitter yr adnoddau y mae wedi'u cynllunio'n benodol i ganfod a gwahardd ad-droseddwyr ar ei lwyfan a'r rhai sy'n ceisio dychwelyd yn dilyn gwaharddiad parhaol.

Dylid gwerthuso mentrau megis y rhain a rhannu arfer gorau effeithiol er mwyn i llwyfannau eraill allu penderfynu p'un a ddylent gyflwyno technoleg debyg. Ar hyn o bryd rydym yn ystyried sut y gall y Llywodraeth hwyluso hyn drwy ein gwaith 'meddwl am ddiogelwch yn gyntaf' ac UKCIS. Ochr yn ochr â hyn, hoffem hefyd weld y llwyfannau mwyaf yn datblygu'r gwaith a llwyfannau llai o faint yn mynd ati i geisio cyngor ar arfer gorau.

## Pryderon

Rydym yn croesawu'r ymdrech y mae'r cwmnïau wedi'i gwneud i ddiogelu defnyddwyr a'r ffaith eu bod wedi dysgu o adborth ynghylch niwed ar-lein sy'n digwydd ar eu llwyfannau.

Fodd bynnag, o'r amrywiaeth o ymatebion a gafwyd gan y diwydiant nodwyd tri phrif bryder, sef:

1. Dim ond grŵp bach o'r cwmnïau mwyaf sy'n ymgysylltu â'n gwaith ar ddiogelwch ar-lein;
2. Mae cwmnïau yn dweud bod ganddynt hanes da o ran sicrhau diogelwch ar-lein ond ymddengys fod hyn yn mynd yn groes i adborth defnyddwyr ar eu profiadau;
3. Mae angen i'r Llywodraeth sicrhau chwarae teg fel bod pob cwmni yn cyrraedd safonau cyson.

Mae rhaglen NetAware yr NSPCC yn nodi'r prif wefannau, apiau a gemau y mae plant yn eu defnyddio amlaf.<sup>5</sup> O'r 39 o llwyfannau a nodwyd gan yr elusen yn 2017, dim ond pum cwmni a ymatebodd i'n hymgyngoriad (sef Facebook, Google, Oath, Microsoft a Twitter), a oedd yn cynrychioli 12 o'r llwyfannau. Mae hyn achos pryder mawr - rydym am weld pob llwyfan, yn enwedig y rhai sy'n boblogaidd gyda phlant, yn ymgysylltu a'n gwaith ar ddiogelwch.

<sup>5</sup> <https://www.net-aware.org.uk/>



## Iechyd meddwl

Mae'n amlwg, er nad yw'r dystiolaeth ynglŷn ag effaith cyfryngau cymdeithasol a'r defnydd o'r rhyngwrwyd yn bendant eto, fod effeithiau negyddol posibl. Mae'r rhain yn cynnwys, ond nid ydynt yn gyfyngedig i, ynysu cymdeithasol, pwysau cystadleuol, bod yn fwy agored i niwed, amlygiad cynyddol i gynnwys camdriniol, mwy o debygolrwydd o seiberfwlio a'r risg y bydd rhywrai yn meithrin perthynas â phlant a phobl ifanc ar-lein er mwyn camfanteisio arnynt.<sup>6</sup>

Er mwyn trafod y materion sy'n ymwneud â'r cyfryngau cymdeithasol ac iechyd meddwl a mynd i'r afael â nhw, trefnodd yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) a'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC) gyfres o gyfarfodydd bord gron â gweithgor o gwmnïau cyfryngau cymdeithasol a thechnoleg (gan gynnwys Google, Facebook, Twitter, Oath, Microsoft, Apple a Snap Inc). Trafododd y cyfarfodydd hyn ddiogelwch plant a phobl ifanc ar-lein, gan ganolbwyntio'n benodol ar yr effaith y mae cynnyrch cyfryngau cymdeithasol yn ei chael ar iechyd meddwl plant. Canolbwyntiodd y gwaith ar themâu cadarnhau oedran, amser wrth y sgrin a seiberfwlio/cynnwys niweidiol. Mae'r Llywodraeth yn croesawu'r cyfraniad y mae'r cwmnïau wedi'i wneud at y fforwm hwn, gan gynnwys y llythyron a ysgrifennodd y cwmnïau at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn dilyn cyfarfodydd y gweithgor. Fodd bynnag, er bod rhai cwmnïau yn cymryd camau i fynd i'r afael â rhai o'r materion pwysig hyn, rydym yn glir bod camau pellach y gallent eu cymryd yn y maes hwn.

Felly, bydd DCMS yn parhau i weithio gyda'r DHSC er mwyn datblygu hyn, fel rhan o'n Strategaeth Diogelwch Ar y Rhyngwrwyd.

Yn gysylltiedig â mater treulio cyfnodau hir o amser ar-lein ac er mwyn meithrin gwell dealltwriaeth o'r gydberthynas rhwng cyfryngau cymdeithasol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc hyd at 25 oed, bydd y Prif Swyddog Meddygol yn arwain adolygiad systematig o'r holl ymchwil ryngwladol berthnasol yn y maes hwn. Bydd yr adolygiad yn llywio adroddiad yn y maes hwn, y disgwylir iddo gael ei gyhoeddi y flwyddyn nesaf.

## *Ein hymateb*

Dengys yr ymatebion i'r ymgynghoriad fod bron pawb yn gytŷn ynglŷn â'r problemau y mae angen inni fynd i'r afael â nhw. Mae ymatebion gan ddefnyddwyr ac elusennau sy'n cynrychioli plant a defnyddwyr eraill sy'n agored i niwed yn nodi nad yw safonau ar-lein, yn rhy aml o lawer, yn cyrraedd y safonau ymddygiad disgwyliedig a nodir yn nhelerau ac amodau llwyfannau.

---

<sup>6</sup> Best. P, Manktelow. R, Taylor. B 'Online Communication, Social Media and Adolescent Wellbeing: A Systematic Narrative Review', Children and Young Services Review (2014)

Mae'r Llywodraeth wedi nodi'n glir bod angen i bob llwyfan cyfryngau cymdeithasol gael y canlynol:

- Telerau ac amodau sy'n rhoi lefel ofynnol o ddiogelwch i ddefnyddwyr;
- Rheolau clir o ran cynnwys ac ymddygiad annerbyniol;
- Trefniadau cadarn ar gyfer gorfodi eu safonau.

Mae ymatebion y cwmnïau yn awgrymu eu bod yn bodloni'r disgwyliadau hyn eisoes. Fodd bynnag, mae'r datgysylltiad rhwng ymatebion defnyddwyr a'r diwydiant yn awgrymu'n gryf bod angen i gwmnïau wneud mwy i reoli'r cynnwys a'r ymddygiadau ar eu llwyfannau.

Mae'r ymgynghoriad hwn wedi atgyfnerthu barn y Llywodraeth ei bod yn briodol inni gyflwyno'r cod ymarfer a'r adroddiadau tryloywder ar gyfer cyfryngau cymdeithasol a gyhoeddwyd gan Brif Weinidog y DU ym mis Chwefror 2018.<sup>7</sup> Bydd y cod yn gosod safonau uwch o ran y darpariaethau diogelwch a'r termau ac amodau y disgwyliwn i lwyfannau eu cynnig i ddefnyddwyr a bydd adroddiadau tryloywder yn ein galluogi i nodi pa gwmnïau sy'n cyrraedd y safonau.

Credwn fod yn rhaid i gwmnïau fabwysiadu dull gweithredu mwy rhagweithiol, gan ragweld unrhyw broblemau posibl ar eu llwyfan cyn iddynt godi. Felly, bydd ein dull 'meddwl am ddiogelwch yn gyntaf' yn canolbwyntio ar gwmnïau yn ymgorffori ystyriaethau diogelwch yn ein prosesau datblygu cynnyrch. Wrth i dechnolegau megis dysgu peiriant ddod yn fwy soffistigedig, disgwyliwn i gwmnïau ddefnyddio'r rhain i nodi a dileu cynnwys niweidiol yn gyflymach.

Mae'r Llywodraeth hefyd yn glir bod angen inni fabwysiadu dull newydd, mwy strategol a chydgysylltiedig, o gyllido diogelwch ar-lein: mae'r dulliau cyllido presennol yn arwain at ddyblygu ymdrech a bylchau mewn darpariaeth. Serch hynny, o ystyried yr ymatebion cymysg i fater ardoll y cyfryngau cymdeithasol, credwn ei bod yn werth cymryd mwy o amser i gasglu tystiolaeth a gwaith dadansoddi gan ddefnyddwyr, cwmnïau ac elusennau.

Byddwn yn parhau i sicrhau bod addysg diogelwch ar-lein gynhwysfawr ar gael i bob plentyn, yn ogystal ag ystyried y ffordd orau o helpu rhieni i fynd i'r afael â newid ar y rhyngryd. Mae'r gwaith hwn yn cyd-fynd â'n gweithgareddau ehangach lle rydym yn ystyried gemau a gamblo ar-lein a gwaith cymdeithas sifil er mwyn helpu pawb i gael manteision y Rhyngryd tra'n aros yn ddiogel hefyd. Rydym yn diwygio UKCCIS a byddwn yn parhau i hyrwyddo dull 'meddwl am ddiogelwch yn gyntaf' ar gyfer pob cwmni. Nodir manylion pellach am y gweithgareddau hyn yn ein Papur Gwyn sydd ar fin cael ei gyhoeddi.

Dim ond rhan o'r gwaith rydym yn ei ddatblygu o dan ein Siarter Ddigidol yw diogelwch ar-lein. Bydd ein Siarter yn mynd i'r afael â materion ehangach megis mynd i'r afael â gwybodaeth gamarweiniol ac ystyried datblygiadau arloesol ym maes hysbysebu digidol.

Un o'r materion eraill a godwyd gan yr NSPCC yn yr ymgynghoriad oedd y ffin rhwng ymddygiad cyfreithlon ac anghyfreithlon ar-lein. Canolbwyntiodd y Papur Gwyrdd ar

---

<sup>7</sup> <https://www.gov.uk/government/speeches/pm-speech-on-standards-in-public-life-6-february-2018>

gynnwys ac ymddygiad sy'n niweidiol ond a allai fod yn gyfreithlon, ond bydd y mentrau rydym yn eu datblygu hefyd yn cefnogi'r gwaith sy'n cael ei ddatblygu i fynd i'r afael â niwed anghyfreithlon. At hynny, bydd DCMS a'r Swyddfa Gartref yn parhau i gydweithio'n agos er mwyn sicrhau ein bod yn mynd i'r afael ar y cyd â gweithgareddau a allai ddatblygu'n rhai anghyfreithlon.

Rydym yn pryderu y gall amlygiad i gynnwys niweidiol gael effeithiau negyddol ar iechyd meddwl a lles pobl, yn enwedig plant a phobl ifanc. Felly, mae'n amlwg bod angen canolbwyntio'n fwy ar atal y fath gynnwys ar-lein rhag cael ei gyhoeddi yn y lle cyntaf. Er mwyn gwneud hyn mae angen i gwmnïau wrthod mynediad i'r rhai sy'n camddefnyddio eu gwasanaethau a datblygu systemau ymateb a defnyddio datblygiadau technolegol i awtomeiddio'r dulliau gweithredu hyn; ac mae angen i'r cwmnïau mwy o faint rannu'r adnoddau a'r technegau hyn â chwmnïau eraill.

Rydym wedi gweld rhywfaint o lwyddiant drwy'r dull diogelwch ar-lein gwirfoddol. Er enghraifft, rydym wedi gweld gwerth gwirioneddol yn deillio o'n partneriaethau â sefydliadau yn y sector gwirfoddol megis Sefydliad Gwyllo'r Rhyngwrwd, arweiniad byd-eang y DU yng Nghynghair Fyd-eang WeProtect a'n trefniadau cydweithio cadarn â'r sector technoleg drwy Fforwm Gwrthderfysgaeth y Rhyngwrwd Byd-eang a arweinir gan y diwydiant. Ond rydym hefyd wedi nodi'n glir ein bod yn barod i ddeddfu lle y bo angen. Fel y datganodd Prif Weinidog y DU ym mis Ionawr 2018, rydym yn edrych ar yr atebolrwydd cyfreithiol sydd gan gwmnïau cyfryngau cymdeithasol am y cynnwys anghyfreithlon a rennir ar eu gwefannau. Mae'r sefyllfa bresennol yn gynyddol anghynaliadwy wrth iddi ddod yn glir nad gwesteiywr goddefol yw llawer o'r llwyfannau mwyach.

Er bod yr achos dros newid yn glir, rydym hefyd yn cydnabod bod risg y gallai cymhwysio safonau atebolrwydd cyhoeddwr at bob llwyfan ar-lein amharu ar yr economi ddigidol, a allai fod o anfantais i'r cyhoedd sy'n cael budd ohonynt. Dyna pam rydym yn gweithio gyda'n partneriaid Ewropeaidd a rhyngwladol, yn ogystal â'r busnesau eu hunain, er mwyn deall sut y gallwn wneud i'r fframweithiau a'r diffiniadau presennol weithio'n well a sut y dylai cyfundrefn atebolrwydd yn y dyfodol edrych. Bydd hyn yn chwarae rôl bwysig wrth helpu i ddiogelu defnyddwyr rhag cynnwys anghyfreithlon ar-lein a bydd yn ategu ein Strategaeth.

### *Arweinydd byd-eang*

Nid y DU yw'r unig wlad y mae'r materion hyn yn effeithio arni. Gwyddom fod amrywiaeth eang o wledydd, gan gynnwys Iwerddon, Awstralia, Ffrainc a'r Almaen, yn mynd i'r afael â'r un heriau ar rai o'r un llwyfannau. Ein nod yw datblygu set benodol o gyfrifoldebau ar gyfer cwmnïau cyfryngau cymdeithasol er mwyn nodi'r glir y mesurau diogelwch rydym yn eu disgwyl mewn economi ddigidol sy'n gweithio'n dda. Wrth wneud hynny, bydd yn parhau i weithio'n agos gyda'n partneriaid, gan gynnwys yn yr OECD, yr UE a gwledydd G7, ar y gwaith pwysig hwn. Drwy chwarae rôl arwain yn fyd-eang, byddwn yn annog eraill i fabwysiadau ein dull o weithredu - byddwn yn dangos manteision hyrwyddo diogelwch ar-lein o fewn fframwaith sydd hefyd yn diogelu hawliau dynol, yn enwedig rhyddid i lefaru.

## *Wrth symud ymlaen*

Wrth inni barhau i ddatblygu'r Siarter Ddigidol, rydym yn dal i fod yn gadarnhaol am y manteision sylweddol i'n cymdeithas a'n heconomi sy'n deillio o'r Rhyngryd. Ond mae gan y Llywodraeth rôl bwysig i'w chwarae wrth helpu i lywio byd ar-lein sy'n gweithio i bawb ac un sy'n adlewyrchu'r gwerthoedd rydym yn byw yn unol â nhw a'r ymddygiad rydym yn ei ddisgwyl yn y byd all-lein. Wrth i broblemau megis seiberfwlio, cam-drin, trolio ac anfon negeseuon rhywiol eu natur barhau i achosi niwed i iechyd meddwl a lles dinasyddion a materion megis gwybodaeth gamarweiniol, camddefnyddio data personol ar raddfa eang, amser wrth y sgrin a diffyg mesurau cadarnhau oedran ar gyfer llwyfannau cyfryngau cymdeithasol ddod yn fwyfwy cyffredin, mae'n amlwg bod angen inni barhau i fynd i'r afael â'r problemau hyn yn uniongyrchol a datblygu ein gwaith ar ddiogelwch ar-lein.

Dyna pam rydym yn datgan ein bwriad i gyhoeddi Papur Gwyn cyn diwedd y flwyddyn hon er mwyn nodi camau mwy pendant ar gyfer ymdrin â niwed a diogelwch ar-lein. Bydd DCMS a'r Swyddfa Gartref yn cydweithio ar Bapur Gwyn a fydd yn nodi ein cynigion ar gyfer deddfwriaeth yn y dyfodol. Bydd yn gyfle inni ddwyn sawl agwedd wahanol ar waith y Llywodraeth ynghyd, gan gynnwys: adrodd ar hynt ein hadolygiad o atebolrwydd llwyfannau am gynnwys anghyfreithlon; ymateb i gam cyntaf Adolygiad Comisiwn y Gyfraith o negeseuon difriol ar-lein; a gweithio gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar y cod dylunio sy'n addas i'r oedran sy'n rhan o'r Bil Diogelu Data. Bydd hefyd yn ein galluogi i ddwyn ynghyd waith sydd eisoes wedi'i wneud ar ddiogelwch a gwaith ar y problemau newydd sy'n dod i'r amlwg, gan gynnwys gwybodaeth gamarweiniol a chamddefnyddio data personol ar raddfa eang a gweithio i fynd i'r afael â niwed ar-lein.

**Bydd y Papur Gwyn hefyd yn nodi cynlluniau ar gyfer deddfwriaeth sydd ar fin dod i rym a fydd yn cwmpasu'r ystod lawn o fathau o niwed ar-lein, gan gynnwys cynnwys niweidiol ac anghyfreithlon. Ymhlith y meysydd posibl lle y bydd y Llywodraeth yn deddfu mae cod ymarfer y cyfryngau cymdeithasol, adroddiadau tryloywder a hysbysebu ar-lein.** Credwn y bydd y mesurau hyn yn dod â manteision sylweddol i bob defnyddiwr drwy nodi rheolau clir ynglŷn â sut y dylid ymdrin ag ymddygiad a chynnwys niweidiol ac anghyfreithlon. Bydd y cod a'r adroddiadau tryloywder hefyd yn cefnogi llwyfannau drwy sicrhau chwarae teg a bod pob cwmni yn cyfrannu at wella diogelwch, nid dim ond y darparwyr mwyaf.

Byddwn yn ystyried meysydd polisi newydd ar ddiogelwch a nodwyd yn ystod y broses ymgynghori sy'n galw am waith pellach, gan gynnwys:

- cadarnhau oedran er mwyn helpu cwmnïau i orfodi telerau ac amodau;
- polisiâu y bwriedir iddynt wella iechyd meddwl plant a phobl ifanc, gan gynnwys effaith amser wrth y sgrin;
- mynd i'r afael â phroblemau sy'n gysylltiedig â ffrydio'n fyw; a,
- gwaith pellach i ddiffinio cynnwys niweidiol.

Drwy'r broses hon, mae'r Llywodraeth yn dal i fod yn llwyr ymrwymedig i gydweithio â'r diwydiant i wella diogelwch ar-lein, yn bennaf drwy ddibynnu arno i ddod o hyd i atebion i heriau technolegol yn hytrach na bod y Llywodraeth yn rhagnodi atebion penodol. Rydym yn

ddiolchgar iawn i bob cwmni sydd wedi siarad â ni hyd yma mewn perthynas â materion diogelwch ar-lein. Byddwn yn parhau i geisio eu barn ar ein polisiâu drwy gyfres o weithdai, grwpiau ffocws a digwyddiadau ymgynghori cyn i'r Papur Gwyn gael ei gyhoeddi. Gwyddom fod llawer o gwmnïau eisoes yn treulio amser yn meddwl am y ffordd orau o fynd i'r afael â niwed ar-lein ac rydym wedi ffurfio partneriaeth ag arbenigwyr er mwyn deall y problemau yn fanylach. Rydym am barhau i ddysgu am waith sy'n mynd rhagddo a byddwn yn defnyddio pŵer cynnull y Llywodraeth er mwyn sicrhau y caiff arfer gorau ei rannu'n eang.

Bwriadwn weithio'n agos gyda'r diwydiant, y byd academiaidd, cymdeithas sifil, elusennau a rhanddeiliaid eraill â diddordeb cyn i'r Papur Gwyn gael ei gyhoeddi. Byddwn yn parhau i weithio gyda phartion â diddordeb i fireinio ein polisiâu lle mae gennym gyfeiriad teithio pendant eisoes, gan gynnwys y cod ymarfer a'r adroddiadau tryloywder, a bwrw ymlaen â meysydd gwaith sydd angen eu datblygu ymhellach. Byddwn yn sicrhau bod defnyddwyr sy'n agored i niwed, yn enwedig plant, yn parhau i fod yn ystyriaeth ganolog yn ein polisiâu.

Wrth inni ddatblygu'r gwaith hwn, rydym am greu tirwedd bolisi lle mae ein cynigion yn mynd i'r afael â niwed ar-lein yn effeithiol mewn tirwedd ddigidol sy'n newid, gan sicrhau bod y Rhyngwrwyd yn rhad ac am ddim, yn agored ac yn hygyrch. Rydym yn benderfynol y dylai'r DU arwain y byd ym maes rheoleiddio sy'n croesawu arloesi sy'n diogelu defnyddwyr ac yn galluogi'r economi ddigidol a thechnolegau newydd i ffynnu.

# Camau Gweithredu i'r Diwydiant

---

Fel y nodir ym Mhapur Gwyrdd y Strategaeth Diogelwch ar y Rhynggrwyd, mae gweithio'n agos â'r diwydiant yn hanfodol i wella profiad defnyddwyr ar-lein. Ein nod yw sicrhau bod defnyddwyr yn teimlo'n fwy diogel ar-lein gyda'r rhyddid i archwilio cyfleoedd, heb ofni ymddygiad camdriniol nac aflonyddol na chynnwys niweidiol nac anghyfreithlon.

## *Y Siarter Ddigidol*

Nododd araith Prif Weinidog y DU ym mis Ionawr 2018 pa mor bwysig ydyw bod y Rhynggrwyd yn gweithio i bawb.<sup>8</sup> Mae'r Siarter Ddigidol yn rhaglen waith dreigl i gytuno ar normau a rheolau ar gyfer y byd ar-lein a'u rhoi ar waith. Mewn rhai achosion gwneir hyn drwy newid disgwyliaidau o ran ymddygiad; mewn rhai bydd angen inni gytuno ar safonau newydd; ac mewn eraill efallai y bydd angen inni ddiweddarau ein cyfreithiau a'n rheoliadau. Ein man cychwyn yw y bydd gennym yr un hawliau ac y byddwn yn disgwyl yr un ymddygiad ar-lein ag a ddisgwylir gennym all-lein.

Mae'r Strategaeth Diogelwch ar y Rhynggrwyd yn rhan o'r gwaith ar niwed ar-lein rydym yn ei wneud o dan y Siarter i ddiogelu pobl rhag cynnwys ac ymddygiad niweidiol, drwy feithrin dealltwriaeth a gwydnwch a gweithio gyda'r diwydiant i annog datblygu atebion technolegol.

Mae'r Siarter hefyd yn dwyn rhaglen eang, barhaus a fydd yn datblygu wrth i dechnoleg newid ynghyd. Yn ogystal â niwed ar-lein, mae ein blaenoriaethau cyfredol yn cynnwys:

- Economi ddigidol – creu ecosystem ffyniannus lle y gall cwmnïau technoleg ddechrau a thyfu;
- Atebolrwydd – edrych ar yr atebolrwydd cyfreithiol sydd gan lwyfannau ar-lein am y cynnwys anghyfreithlon a rennir ar eu gwefannau, gan gynnwys ystyried sut y gallem sicrhau bod camau mwy effeithiol yn cael eu cymryd drwy wneud defnydd gwell o'r fframweithiau a'r diffiniadau cyfreithiol presennol;
- Moeseg a datblygiadau arloesol sy'n ymwneud â data a deallusrwydd artiffisial – sicrhau y caiff data eu defnyddio mewn ffordd ddiogel a moesegol a, phan wneir penderfyniadau yn seiliedig ar ddata, fod y rhain yn deg ac yn dryloyw, fel y bo'n briodol;
- Marchnadoedd digidol – sicrhau bod marchnadoedd digidol yn gweithio'n dda, gan gynnwys drwy helpu i sicrhau bod data yn gludadwy a bod data yn cael eu defnyddio, eu rheoli a'n rhannu'n well;
- Gwybodaeth gamarweiniol – atal gwybodaeth y bwriedir iddi gamarwain pobl er mwyn sicrhau mantais wleidyddol, bersonol a/neu ariannol rhag ymledu cymaint â phosibl a chyfyngu ar effaith gwybodaeth o'r fath;
- Seiberddiogelwch - helpu busnesau a sefydliadau eraill i gymryd y camau angenrheidiol i gadw eu hunain ac unigolion yn ddiogel rhag seiberweithgarwch maleisus, gan gynnwys drwy leihau baich cyfrifoldeb ar ddefnyddwyr terfynol.

---

<sup>8</sup> <https://www.gov.uk/government/speeches/pms-speech-at-davos-2018-25-january>

Ni chaiff y Siarter ei datblygu gan y Llywodraeth ar ei phen ei hun. Byddwn yn disgwyl i'r sector technoleg, busnesau a chymdeithas sifil fynd i'r afael â'r heriau hyn gyda ni, gan ddefnyddio ein pŵer cynnull i'w dwyn ynghyd gyda phartion eraill â diddordeb er mwyn dod o hyd i atebion. Bydd y dull cydweithredol hwn yn sicrhau mai'r DU yw'r lle mwyaf diogel i fod ar-lein a'r lle gorau i ddechrau a thyfu busnes digidol.

## *Cymryd cyfrifoldeb*

### **Atebolrwydd llwyfannau a niwed anghyfreithlon**

Mae angen i lwyfannau ar-lein gymryd cyfrifoldeb am y cynnwys a gyhoeddir ganddynt. Mae angen iddynt fynd i'r afael ag ymddygiad a chynnwys niweidiol yn rhagweithiol. Mae cynnydd wedi'i wneud o ran dileu cynnwys anghyfreithlon, yn enwedig deunydd terfysgol, ond mae angen gwneud mwy i leihau faint o gynnwys niweidiol cyfreithlon ac anghyfreithlon sydd ar-lein.

Roedd 32% (156 o sefydliadau) o'r rhai a atebodd y cwestiwn yn ein harolwg ar-lein yn cytuno bod gan lwyfannau cyfryngau cymdeithasol ddyletswydd gofal i ddileu a lleihau ymddygiad neu gynnwys amhriodol ar eu llwyfannau.

Rydym yn datblygu opsiynau ar gyfer cynyddu atebolrwydd llwyfannau ar-lein am gynnwys anghyfreithlon ar eu gwasanaethau. Mae hyn yn cynnwys ystyried sut y gallwn sicrhau bod fframweithiau a diffiniadau sy'n bodoli eisoes yn gweithio'n well, yn ogystal â nodweddion y gyfundrefn atebolrwydd yn yr hirdymor.

Mae hwn yn fater cymhleth sy'n cwmpasu pob math o ddeunydd anghyfreithlon a byddwn yn ystyried yr opsiynau a chanlyniadau newid yn ofalus. Mae angen inni fynd i'r afael â chynnwys anghyfreithlon a sicrhau y gall yr economi ddigidol barhau i ffynnu. Er mwyn gwneud hynny, byddwn yn gweithio'n agos gyda'r ystod lawn o randdeiliaid sydd â diddordeb yn y maes hwn, gan gynnwys cwmnïau technoleg a phartneriaid rhyngwladol. Byddwn yn manylu ar ein dull gweithredu yn ein Papur Gwyn.

Nododd **arolwg Cymdeithas Gyfrifiadura Prydain, y Sefydliad Siartredig TG** o 6,500 o blant fod plant, ar y cyfan, yn awyddus i weld cynnwys sarhaus neu camdriniol yn cael ei ddileu gan lwyfannau heb fod angen gwneud cwyn yn ei gylch.

At hynny, dangosodd yr arolwg fod consensws cryf ymhlith y rhan fwyaf o blant (hyd at 83% ymhlith plant 11-12 oed) y dylai llwyfannau cyfryngau cymdeithasol fod yn dileu eitemau camdriniol neu sarhaus a gyhoeddir arnynt yn awtomatig.

### **Telerau ac Amodau**

Mae llwyfannau yn defnyddio eu telerau ac amodau i nodi gwybodaeth allweddol am bwy a all ddefnyddio'r gwasanaeth, pa gynnwys sy'n dderbyniol a pha gamau y gellir eu cymryd os na fydd defnyddwyr yn cydymffurfio â'r telerau. Gwyddom fod defnyddwyr yn torri'n rheolau hyn yn aml. O dan amgylchiadau o'r fath, mae telerau'r llwyfannau yn nodi y gallant gymryd camau, er enghraifft gallant ddileu'r cynnwys tramgwyddus neu roi'r gorau i ddarparu gwasanaethau i'r defnyddiwr. Fodd bynnag, nid ydym yn gweld cwmnïau yn mynd ati'n rhagweithiol i wneud hyn yn rheolaidd. Yn rhy aml, nid yw cwmnïau yn gorfodi eu telerau ac amodau eu hunain.

Mae'r Llywodraeth am i gwmnïau nodi disgwyliadau clir o ran yr hyn sy'n dderbyniol ar eu llwyfannau yn eu telerau ac wedyn gorfodi'r rheolau hyn drwy ddefnyddio sancsiynau pan fo angen. Drwy wneud hynny, bydd cwmnïau yn helpu defnyddwyr i ddeall beth sy'n dderbyniol a beth sy'n annerbyniol.

Roedd yr ymatebion i'n hymgyngoriad yn glir iawn bod achosion o gam-drin yn ddiennw yn broblem benodol ar-lein. Roedd 22% (108 o ymatebwyr) o'r rhai a atebodd y cwestiwn yn ein harolwg ar-lein o'r farn y dylai cwmnïau annog pobl i beidio â defnyddio hunaniaeth ffug wrth ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol. Mae angen i gwmnïau roi sylw penodol i gymryd camau yn erbyn defnyddwyr sy'n cuddio y tu ôl i gyfrifon er mwyn cam-drin eraill.

## Safonau Clir

Credwn y dylai'r Llywodraeth nodi safonau clir ar gyfer llwyfannau cyfryngau cymdeithasol a'u dwyn i gyfrif os na fyddant yn cyrraedd y safonau hyn. Bydd DCMS a'r Swyddfa Gartref yn cydweithio ar y Papur Gwyn a fydd yn nodi ein cynigion ar gyfer deddfwriaeth DCMS yn y dyfodol. Byddwn yn canolbwyntio ar gynigion a fydd rhoi mesurau diogelwch pendant ar waith ar gyfer defnyddwyr a fydd yn cwmpasu cynnwys ac ymddygiad niweidiol ac anghyfreithlon. Ochr yn ochr â hyn, ar hyn o bryd rydym yn asesu opsiynau deddfwriaethol i addasu'r gyfundrefn atebolrwydd ar-lein yn y DU, gan gynnwys y newidiadau llai o faint sy'n gyson â chyfarwydddeb e-fasnach yr UE a'r newidiadau mwy o faint a all fod yn bosibl pan fyddwn yn gadael yr UE. Bydd y gwaith deddfwriaethol hwn yn helpu'r diwydiant i ddeall beth yn union y mae'r Llywodraeth a chyhoedd y DU yn ei ddisgwyl mewn perthynas â diogelwch a gwella cysondeb ar draws amrywiaeth eang o gwmnïau. Fel cam cyntaf, byddwn yn cyflwyno ein cod ymarfer statudol ac adroddiadau tryloywder ar gyfer cyfryngau cymdeithasol.

Bydd ein cod ymarfer yn mynd i'r afael ag ymddygiad a chynnwys camdriniol a niweidiol ar gyfryngau cymdeithasol, gan nodi dull cyffredin clir o ymdrin â diogelwch ar-lein. A bydd yr adroddiad tryloywder diogelwch ar y rhyngryd yn ein galluogi i olrhain perfformiad cwmnïau o ran diogelwch a meincnodi cwmnïau yn erbyn ei gilydd. Gyda'i gilydd, bydd y cod a'r adroddiadau yn galluogi'r Llywodraeth i fonitro ymdrechion cwmnïau cyfryngau cymdeithasol mewn perthynas â diogelwch ar-lein a gwerthuso eu llwyddiant.



Mae'r gwaith hwn yn cyd-fynd â'r argymhellion a nodir yn adroddiad y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus ar Ymddygiad Bygythiol mewn Bywyd Cyhoeddus.<sup>9</sup> Rydym eisoes wedi cael ymrwymadau gan y prif lwyfannau cyfryngau cymdeithasol y byddant yn cyhoeddi adroddiadau tryloywder yn yr wythnosau a'r misoedd i ddod.

## Cwmpas

Rydym am weld mwy o gysondeb ar draws llwyfannau fel y bydd defnyddwyr yn deall pa safonau ymddygiad sy'n dderbyniol ym mhob rhan o'r ecosystem ar-lein a'r hyn y gellir ei wneud i fynd i'r afael â chynnwys nad yw'n cyrraedd y safonau hyn. Dangosodd yr ymateb i'n hymgyngoriad fod cwmnïau unigol wedi gwneud cynnydd a bod gan y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o'r diwydiant delerau ac amodau sy'n ymwneud â diogelwch ar-lein ar waith eisoes. Hefyd, mae sawl menter wirfoddol a chanllaw sydd wedi helpu i bennu'r cyfeiriad ar gyfer diogelwch ar-lein. Ond dangosodd yr ymgynghoriad fod bwlch rhwng profiadau defnyddwyr ar-lein a'r ymateb gan y cwmnïau.

Dim ond 25% (121 o ymatebwyr) o'r rhai a atebodd y cwestiwn yn ein harolwg ar-lein a oedd yn cytuno bod polisïau diogelwch ar-lein yn gyson ar draws llwyfannau gwahanol.

Yn allweddol i'r anghysondeb hwn mae p'un a yw'r camau sydd wedi'u cymryd yn gyson ar draws cwmnïau technoleg o bob maint. Hyd yma, y llwyfannau mwyaf sydd wedi cymryd y camau mwyaf ymlaen mewn perthynas â diogelwch ar-lein. Mae hyn yn ddealladwy am mai nhw sydd â'r seiliau defnyddwyr mwyaf a'r adnoddau mwyaf i'w buddsoddi er mwyn diogelu eu defnyddwyr. At hynny, y cwmnïau technoleg mwy o faint a mwy sefydledig hyn a ymatebodd i'n hymgyngoriad ac a dynnodd sylw at yr hyn roeddent wedi'i gyflawni yn y maes hwn.

Gwyddom nad yw'r sector technoleg yn sefydlog a bod plant yn arbennig yn aml yn ceisio ymuno â'r llwyfannau arloesol mwyaf diweddar sy'n llai o faint. Mae'r rhain yn tueddu i fod yn llwyfannau nad ydynt wedi datblygu ystod lawn o fesurau diogelwch eto sy'n golygu bod defnyddwyr yn agored i niwed. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi gweld sawl llwyfan yn tyfu'n sylweddol mewn cyfnod byr iawn o amser ac yn aml mae nodweddion diogelwch ond yn cael eu hychwanegu yn llawer diweddarach.

Ym mis Tachwedd 2017, **cyhoeddodd Ofcom ei adroddiad, 'Children and parents: media use and attitudes report'**. Mae'r adroddiad yn edrych ar lythrennedd plant yn y cyfryngau ac yn cynnwys tystiolaeth fanwl ar y defnydd o'r cyfryngau, agweddau a dealltwriaeth ymhlith plant a phobl ifanc 5-15 oed, yn ogystal â mynediad i'r cyfryngau a'r defnydd ohono gan blant bach 3-4 oed. Dangosodd yr ymchwil fod gan bron chwarter o'r plant 8-11 oed a thri chwarter o'r bobl ifanc 12-15 oed broffil cyfryngau cymdeithasol ac, er nad yw'r ffigurau hyn wedi cynyddu ers 2016, mae'r apiau sy'n cael eu defnyddio yn newid.

<sup>9</sup> <https://www.gov.uk/government/publications/intimidation-in-public-life-a-review-by-the-committee-on-standards-in-public-life>

Dangosodd yr astudiaeth hefyd fod bron pob plentyn 8-11 oed a bron pob person ifanc 12-15 oed sy'n mynd ar-lein yn nodi bod rhywun wedi dweud wrthynt sut i ddefnyddio'r Rhyngwyd yn ddiogel. Fodd bynnag, dywed 45% o'r bobl ifanc 12-15 oed sy'n mynd ar-lein eu bod wedi gweld cynnwys ffaidd ar-lein yn ystod flwyddyn ddiwethaf.

Mae hyn yn her i'r Llywodraeth am yr hoffem weld pob agwedd ar y sector yn gweithio tuag at gyflawni ein hamcanion. Ni ddylid ei gadael i'r cwmnïau mwyaf yn unig i hyrwyddo gwelliannau. Ac er bod sylw diweddar yn y cyfryngau, a fu'n canolbwyntio ar y llwyfannau cyfryngau cymdeithasol mwyaf adnabyddadwy, yn dangos bod gan bob cwmni gryn dipyn i'w wneud o hyd, nid yw'n iawn mai dim ond ar y brandiau technoleg mwyaf y dylai mentrau ganolbwyntio. Er mwyn gwella profiad y defnyddiwr ym mhob rhan o'r ecosystem ddigidol yn sylweddol, mae angen inni weithio gydag amrywiaeth lawer ehangach o lwyfannau. Mae'n briodol bod y Llywodraeth yn nodi'n glir yr hyn y mae'n disgwyl i bob cwmni ei wneud er mwyn mynd i'r afael â niwed, yn enwedig niwed sy'n effeithio ar blant a defnyddwyr eraill sy'n agored i niwed. Felly, er mwyn diogelu defnyddwyr a gorfodi safonau cyson, byddwn yn annog pob llwyfan cyfryngau cymdeithasol i ymrwmo i'n cod ymarfer a'r adroddiadau tryloywder. Lle y bo'n berthnasol, byddwn yn annog llwyfannau chwarae gemau sy'n galluogi rhyngweithio cymdeithasol rhwng chwaraewyr a mathau eraill o lwyfannau sy'n hyrwyddo rhyngweithio cymdeithasol i ymrwmo i'r cod a'r adroddiadau tryloywder.

Cyn cyhoeddi ein Papur Gwyn, byddwn yn ystyried diffiniadau addas ac yn edrych ar sut y gallwn osgoi creu beichiau ar y busnesau newydd lleiaf. Yn y cyfamser, fodd bynnag, disgwyliwn mai i'r llwyfannau hynny sy'n bodloni'r meini prawf canlynol y bydd y canllawiau yn ein cod ymarfer a thempled yr adroddiadau tryloywder fwyaf perthnasol:

- Mwy na 250,000 o ddefnyddwyr yn y DU;
- Gweithredu fel darparwr masnachol;
- Darparu gwasanaethau i ddefnyddwyr ar-lein yn y DU drwy wefan, ap neu dechnoleg debyg;
- Y mae'r rhan fwyaf o'u cynnwys yn cael ei greu gan ddefnyddwyr; sy'n hwyluso swyddogaethau rhydwethio cymdeithasol, anfon negeseuon neu gyflwyno sylwadau; ac sy'n annog rhyngweithio rhwng defnyddwyr.

Rydym yn disgwyl yn arbennig i lwyfannau sydd â defnyddwyr dan 18 oed i ddangos eu hymrwymiad i ddiogelwch ar-lein drwy gydymffurfio â'r cod a'r adroddiadau tryloywder. Mae rhestr 'Netware' yr NSPCC o apiau yn nodi'r llwyfannau hynny sy'n boblogaidd gyda phlant.<sup>10</sup> Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Dubsmash
- Facebook
- Flipagram
- Instagram
- Kik
- Musical.ly
- Omegle

<sup>10</sup> <https://www.net-aware.org.uk/networks/?order=title>

- Pinterest
- Popjam
- Reddit
- Sarahah
- Snapchat
- Soundcloud
- Tumblr
- Twitch
- Twitter
- Wattpad
- YouTube
- Yubo

Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr ac edrychwn ymlaen at ymgysylltu ag amrywiaeth eang o gwmnïau cyn cyhoeddi ein Papur Gwyn. Disgwyliwn i gwmnïau sy'n tyfu ddod o fewn y cwrmpas wrth i'w sail defnyddwyr yn y DU gynyddu.<sup>11</sup>

Cyn cyhoeddi'r Papur Gwyn, byddwn yn comisiynu ymchwil i nodi nifer y defnyddwyr yn y DU yn fanylach er mwyn deall patrwm twf a dirywiad ymhlith llwyfannau poblogaidd. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon i lywio ein cynigion deddfwriaethol. Byddwn hefyd yn asesu pa mor llwyddiannus yw'r ymdrechion i annog llwyfannau i ymrwymo i'r cod a'r adroddiadau tryloywder yn wirfoddol dros y chwe mis nesaf er mwyn nodi'r mathau o gamau y bydd angen eu cymryd, o bosibl, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.

## Gwerthuso

Mae'r Llywodraeth yn gryf o'r farn bod y cod a'r adroddiadau tryloywder yn fodd i gyflawni'r nod ac nad ydynt yn nod ynddynt eu hunain. Ni ellir ystyried bod ein polisi yn llwyddiannus ar y sail bod nifer benodol o lwyfannau wedi ymrwymo i'r cod ymarfer. Yn lle hynny, mae angen i ni ganolbwyntio ar y ffordd y mae'r mentrau hyn a mentrau eraill yn creu profiad mwy cadarnhaol i ddefnyddwyr ar-lein. Felly, bwriedir i'r adroddiadau tryloywder fod yn adnodd gwerthuso, gan ddarparu data ar ba mor ymwybodol y mae defnyddwyr o adnoddau cofnodi a faint o ddefnydd y maent yn ei wneud ohonynt a lefelau mathau gwahanol o gwynion am ymddygiad a chynnwys ar-lein.

Yn y misoedd i ddod bwriadwn weithio'n agos gyda llwyfannau a 'hysbyswyr y gellir ymddiried ynddynt'<sup>12</sup> er mwyn mireinio'r adroddiadau tryloywder a gwerthuso pa mor llwyddiannus fu'r ymdrechion i annog llwyfannau i ymrwymo i'r cod a'i effaith ar y diwydiant ac ymddygiad defnyddwyr, cyn i'r Papur Gwyn gael ei gyhoeddi. Yn benodol, byddwn yn

<sup>11</sup> Os yw eich cwmni o fewn cwrmpas ein cynigion, anfonwch neges e-bost i [internetsafetystrategy@culture.gov.uk](mailto:internetsafetystrategy@culture.gov.uk) i gael rhagor o wybodaeth.

<sup>12</sup> Mae 'hysbyswyr y gellir ymddiried ynddynt' yn cynnwys sefydliadau annibynnol sydd â chydbertnydas y gellir ymddiried ynddi â'r llwyfannau sy'n nodi cynnwys sy'n torri telerau ac amodau, yn eu barn nhw.

ystyried unrhyw ychwanegiadau at y cod neu unrhyw newidiadau iddo er mwyn sicrhau ei fod yn cyflawni'r nod o godi safonau o ran diogelwch ar-lein.

## *Cod ymarfer ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol*

Mae'r cod ymarfer drafft yn nodi'r egwyddorion y dylai darparwyr cyfryngau cymdeithasol eu dilyn er mwyn mynd i'r afael â chynnwys ac ymddygiad niweidiol ar-lein. Drwy bennu safonau cyffredin, bydd cwmnïau yn deall sut y dylent hyrwyddo diogelwch ar eu llwyfannau a bydd defnyddwyr yn gwybod beth i'w ddisgwyl pan aiff pethau o chwith.

Er bod gan y rhan fwyaf o lwyfannau technoleg mawr delerau ac amodau eisoes sy'n nodi rheolau ynglŷn â'r mathau o ddeunydd ac ymddygiad a ganiateir ar eu llwyfan, nododd ein harolwg fod 60% (296 o unigolion) wedi gweld cynnwys amhriodol neu niweidiol ar-lein ac o'r unigolion hynny, gyda 67% ohonynt wedi bod yn dyst i fwlio ar-lein, 53% wedi bod yn dyst i gam-drin hiliol a 50% wedi bod yn dyst i gasineb at wragedd ar-lein. Mae'r ffigurau hyn yn awgrymu nad yw'r telerau ac amodau hyn yn cael eu gorfodi gan lwyfannau neu nad ydynt yn cyd-fynd â'r hyn y mae cyhoedd y DU yn ei ddisgwyl o ran darpariaethau diogelwch.

Casglodd **Arolwg 'Girlguiding' o Agweddau Geidiaid 2017** farn mwy na 1,700 o ferched a menywod ifanc yn y DU rhwng saith ac 21 oed a hwn yw'r arolwg mwyaf o ferched a menywod ifanc yn y DU. Roedd ei arolwg yn 2017 yn cynnwys cwestiynau am eu profiadau o fod ar-lein a dangosodd mai dim ond 47% o ferched rhwng 11 ac 21 oed sy'n meddwl bod eu rhieni yn deall y pwysau y maent yn eu hwynebu ar-lein. Yn ogystal â hyn, dywedodd 54% o ferched 11-21 oed eu bod wedi dod ar draws delweddau treisgar neu graffig nas dymunwyd a wnaeth iddynt deimlo'n ofidus neu'n anniddig.

Mae sawl cod ymarfer gwirfoddol gwahanol eisoes yn bodoli ac rydym wedi ystyried y mentrau hyn yn ofalus cyn drafftio dull gweithredu'r Llywodraeth. Rydym hefyd wedi ystyried effaith canllawiau a ddatblygwyd gan y diwydiant, gan gynnwys canllaw ymarferol UKCCIS i ddarparwyr gwasanaethau cyfryngau cymdeithasol a gwasanaethau rhyngweithiol.<sup>13</sup> O ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyrdd, credwn y byddai'n fuddiol i Lywodraeth y DU nodi'r hyn y mae'n ei ddisgwyl gan gwmnïau ac rydym yn cymryd camau er mwyn sicrhau bod pob darparwr yn cydymffurfio â'r mesurau hyn.

## **Egwyddorion**

O ystyried y gwahaniaethau rhwng llwyfannau, rydym wedi datblygu cod yn seiliedig ar egwyddorion sy'n canolbwyntio ar atal niwed. Ni fwiadwn fod yn or-ragnodol ynglŷn â sut yn union y dylai cwmnïau gyflawni eu rhwymedigaethau o dan y cod ond rydym yn disgwyl iddynt gymryd camau priodol i ddiogelu eu defnyddwyr.

<sup>13</sup> <https://www.gov.uk/government/publications/child-safety-online-a-practical-guide-for-providers-of-social-media-and-interactive-services/child-safety-online-a-practical-guide-for-providers-of-social-media-and-interactive-services>

Nododd **arolwg Cymdeithas Gyfrifiadura Prydain** o 6,500 o blant fod consensws cryf ymhlith y rhan fwyaf o blant (hyd at 83% ymhlith plant 11-12 oed) y dylai llwyfannau cyfryngau cymdeithasol fod yn dileu eitemau camdriniol neu sarhaus a gyhoeddir arnynt yn awtomatig. Drwy roi canllawiau ar breifatrwydd a rheolaethau drwy'r cod ymarfer, byddwn yn sicrhau bod defnyddwyr yn cael mwy o gyfle i reoli pwy sy'n gallu cysylltu â nhw.

Mae'r cod ymarfer drafft yn cwmpasu'r meysydd cyffredinol canlynol:

- Arferion cofnodi clir a thryloyw;
- Prosesau ar gyfer ymdrin â hysbysiadau gan ddefnyddwyr;
- Telerau ac amodau clir a dealladwy a'r disgyliad y caiff y rhain eu gorfodi, gan gynnwys y camau a gymerir i atal achosion o gam-drin yn ddiennw;
- Esboniadau clir i'r achwynydd ynglŷn â'r camau a gymerwyd mewn ymateb i'w gŵyn ('cydymffurfio neu esbonio');
- Gwybodaeth am sut i roi gwybod i'r awdurdodau perthnasol am gynnwys a chyswllt a allai fod yn anghyfreithlon;
- Ymrwymiad i gyfeirio defnyddwyr at wybodaeth ddefnyddiol pan fyddant yn profi cynnwys niweidiol, fel y bo'n briodol;
- Defnyddio technoleg i nodi cynnwys ac ymddygiad ar-lein a allai fod yn niweidiol.

Dangosodd yr ymatebion i'n harolwg ymgynghori ar-lein fod ymatebwyr o'r farn y dylai ein cod ymarfer gynnwys canllawiau sy'n ymwneud â phreifatrwydd a rheolaethau; systemau cofnodi â pholisïau a metrigau i ddileu cynnwys; a gwybodaeth am sut i nodi cynnwys anghyfreithlon a rhoi gwybod i'r awdurdodau perthnasol amdano.

## Bwlio ar-lein

Bwriedir i'r cod ei gwneud yn haws i bobl roi gwybod am gynnwys sy'n bwlio drwy roi canllawiau i ddarparwyr cyfryngau cymdeithasol ar y polisiau a ddylai fod ganddynt ar gyfer dileu'r cynnwys hwn. Mae adran 103 o Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017 yn nodi mai dim ond ymddygiad sydd wedi'i gyfeirio at unigolyn y dylai'r cod ymarfer ei gwmpasu. Fodd bynnag, rydym wedi nodi canllawiau ychwanegol, nad ydynt yn ofynnol o dan adran 103, sy'n nodi dylai'r cod ymarfer hefyd fod yn gymwys i ymddygiad sydd wedi'i gyfeirio at grwpiau a busnesau, am fod defnyddwyr yn gallu cael eu tramgwyddo gan gynnwys hyd yn oed os nad yw wedi'i gyfeirio atynt yn unigol.

Mae enghreifftiau o fwlio ar-lein y bydd y cod yn ymdrin â hwy yn cynnwys y canlynol ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt:

- Bygwth niweidio unigolyn (unigolion);
- Bygwth rhannu lluniau ('outing');
- Dynwared rhywun arall;
- Cyhoeddi gwybodaeth bersonol gan gynnwys gwybodaeth a all leoli unigolyn (unigolion);

- Cyhoeddi testun neu luniau er mwyn bwlio, sarhau, bygwth neu fychanu unigolyn (unigolion);
- Cyhoeddi llun o'r unigolyn (unigolion) heb ganiatâd;
- Cyhoeddi gwybodaeth anwir am rywun;
- Sylwadau cas neu sylwadau sy'n peri gofid;
- Anfon negeseuon nas dymunir dro ar ôl tro at unigolyn (unigolion);
- Trolïo - eitemau sy'n fwriadol sarhaus neu bryfoclyd a gyhoeddir ar-lein
- Fflamio - dadl fer, chwyrn rhwng dau unigolyn neu fwy;
- Ci-bentyrru ('dog-piling') - lle mae cymunedau mawr o bobl yn targedu camdriniaeth at un unigolyn.

Nid yw'r cod ymarfer yn effeithio ar y ffordd yr ymdrinnir ag ymddygiad anghyfreithlon. Fodd bynnag, mae'n nodi y dylai darparwyr roi canllawiau i ddefnyddwyr ar sut i roi gwybod i'r awdurdodau perthnasol am gynnwys neu ymddygiad a allai dorri cyfraith y DU.

Nodir y cod ymarfer drafft llawn yn **Atodiad B**.

Mae'r Llywodraeth hefyd yn cymryd camau i fynd i'r afael ag achosion o figwth a cham-drin ar-lein mewn perthynas ag etholiadau. Nododd ymateb y Llywodraeth i Adolygiad y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus o Ymddygiad Bygythiol mewn Bywyd Cyhoeddus fod gan bawb mewn bywyd cyhoeddus gyfrifoldeb i herio ymddygiad bygythiol a rhoi gwybod amdano ble bynnag y mae'n digwydd.

Bu **Ymddiriedolaeth Grid Dysgu De-orllewin Lloegr** (SWGfL) yn gweithio gyda chwmnïau rhyngwrwd er mwyn cadw pobl yn ddiogel ar-lein ers degawdau, yn ogystal â sefydliadau tebyg ledled y byd gan gynnwys Swyddfa Comisiynydd E-Ddiogelwch Awstralia, Netsafe yn Seland Newydd a Rhwydwaith 'Insafe' o Ganolfannau Rhyngwrwd Diogelwch Ewropeaidd.

Mae wedi datblygu menter newydd y bwriedir iddi helpu defnyddwyr y rhyngwrwd i ddileu mathau penodol o gynnwys niweidiol ar-lein. Mae'r prosiect newydd arloesol hwn yn adeiladu ar y cydberthnasau sefydledig sydd gan SWGfL â phartneriaid yn y diwydiant ac yn ategu gwaith ei phartneriaid, Sefydliad Gwylïo'r Rhyngwrwd sy'n dileu lluniau sy'n dangos plant yn cael eu cam-drin o'r Rhyngwrwd.

Bydd y ganolfan gofnodi genedlaethol yn rhoi cyngor a chanllawiau cam wrth gam ar sut i roi gwybod am fathau gwahanol o gynnwys a chyhoeddi adroddiadau tryloywder partneriaid yn y diwydiant a, lle y bo'n briodol, bydd yn cynnig gwasanaeth cyfryngu cyfyngedig â darparwyr cyfryngau cymdeithasol er mwyn sicrhau y caiff cynnwys sy'n torri telerau ac amodau gwefannau ei ddileu'n gyflym. Caiff y wefan newydd ei lansio yn ddiweddarach eleni a chynhelir ymgyrch codi ymwybyddiaeth i gyd-fynd â'r lansiad.

*Adroddiad tryloywder blynyddol*

Bydd yr adroddiad tryloywder blynyddol yn darparu gwybodaeth am faint o ddefnyddwyr sy'n defnyddio adnoddau cofnodi a'r cymorth a gânt gan y llwyfannau cyfryngau cymdeithasol mwyaf poblogaidd i ddiogelu eu hiechyd meddwl a'u lles. Drwy bennu metrigau cyffredin, byddwn yn gallu meincnodi cwmnïau yn erbyn ei gilydd ac adolygu cynnydd dros amser. Nododd ein harolwg ymgynghori ar-lein fod defnyddwyr yn arbennig o awyddus i ddeall pa bolisïau cymedroli y mae pob gwefan wedi'u rhoi ar waith a sut y caiff y polisïau hyn eu hadolygu, yn ogystal â nifer y cwynion, sut yr ymdriniwyd â nhw a faint o gynnwys a ddilëwyd. Byddwn yn gofyn am yr holl wybodaeth hon fel rhan o'n hadroddiad tryloywder.

Yn y pen draw, bydd yr adroddiadau tryloywder yn ffurfio rhan allweddol o'n dull o werthuso'r llwyddiant y mae pob llwyfan wedi'i gael o ran cyflawni ein nod cyffredinol i godi lefel diogelwch ar-lein. Bydd y lefel hon o ddata yn amhrisiadwy wrth i'r Llywodraeth ddatblygu polisi ac ymyriadau yn y dyfodol mewn perthynas â diogelwch ar-lein. Gobeithio y bydd yr adroddiadau hyn yn werthfawr i'r cwmnïau hefyd, gan eu galluogi i nodi a rhannu meysydd arfer gorau yn haws.

Nododd **arolwg Cymdeithas Gyfrifiadura Prydain** o 6,500 o blant fod cytundeb cyffredinol y byddai'n ddefnyddiol pe gellid gweld faint o fwlio sy'n digwydd ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol, ac mae'r consensws hwn ar ei gryfaf ymhlith plant 9-14 oed (ar gyfartaledd roedd 72% yn y grŵp oedran hwnnw yn cytuno).

Yn **Atodiad C** rydym wedi rhoi templed sy'n nodi'r metrigau rydym yn disgwyl i gwmnïau adrodd arnynt. Mae'r templed yn cynnwys gwybodaeth sylfaenol ond hanfodol nad oedd ar gael hyd yma am gyfanswm y defnyddwyr yn y DU, cyfanswm yr eitemau a gyhoeddir yn y DU a chyfanswm yr achosion y rhoddir gwybod amdanynt, yn ogystal â pha wybodaeth y mae cwmnïau yn cyfeirio defnyddwyr ati pan fyddant wedi rhoi gwybod am broblem. Bydd y ffigurau hyn yn ein helpu i ddeall y cyd-destun lle mae pob cwmni yn gweithio. Rydym hefyd yn ceisio gwybodaeth am brosesau'r cwmni ar gyfer ymdrin ag achosion y rhoddir gwybod amdanynt, yn ogystal â gwybodaeth benodol am y mathau o achosion y rhoddir gwybod amdanynt a pha mor gyflym yr ymdrinnir â nhw. Byddwn yn cynnwys metrigau ansoddol er mwyn galluogi cwmnïau i ddarparu gwybodaeth ychwanegol am dueddiadau a'r ffordd yr ymdrinnir ag achosion y rhoddir gwybod amdanynt.

Mae'r templed tryloywder yn gofyn am ddata ar lefel y DU gan lwyfannau cyfryngau cymdeithasol sy'n darparu gwasanaethau yma. Bwriadwn gasglu holl adroddiadau'r cwmnïau at ei gilydd er mwyn llunio'r adroddiad tryloywder blynyddol cyntaf, i'w gyhoeddi ochr yn ochr â'n Papur Gwyn. Bydd yr adroddiad hwn yn nodi, am y tro cyntaf, nid yn unig data gwerthfawr a fydd yn ein helpu i ddeall niwed a'r hyn y mae cwmnïau yn ei wneud i fynd i'r afael ag ef, ond pa gwmnïau sydd wedi cydymffurfio â'n cais.

Er mwyn hwyluso'r broses o gyhoeddi ein hadroddiad cyntaf, i ddechrau rydym yn disgwyl i gwmnïau ddarparu data, ar gyfer y cyfnod rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2018, erbyn diwedd mis Medi. Byddwn yn defnyddio'r adroddiadau cychwynnol hyn i fireinio ein templed tryloywder ymhellach. Cyhoeddir yr adroddiad tryloywder llawn cyntaf y flwyddyn nesaf.

Mae Google a Facebook wedi cyhoeddi adroddiadau tryloywder cychwynnol sy'n ymwneud â chynnwys a ddilëwyd o'u cyfrifon. Mae Twitter hefyd wedi ymrwymo i gyhoeddi adroddiad tryloywder maes o law. Fodd bynnag, credwn y byddai'n fuddiol iawn i'r Llywodraeth ofyn am wybodaeth gan bob cwmni mewn fformat cyson a'i chyhoeddi er mwyn i bob defnyddiwr a pharti arall â diddordeb allu ei gweld. Rydym yn deall, er mwyn casglu data o'r adroddiadau at ei gilydd, y bydd angen i rai cwmnïau fuddsoddi yn eu systemau cofnodi. Dyna pam rydym yn cyhoeddi templed drafft ar yr adeg hon - er mwyn i gwmnïau allu dechrau paratoi eu hadroddiad cyntaf a chyfarfod â ni i drafod unrhyw broblemau a all fod ganddynt.

Cadarnhaodd 37% (158 o unigolion) o'r rhai a atebodd y cwestiwn yn ein harolwg ar-lein eu bod wedi rhoi gwybod am gynnwys ar-lein a allai fod yn anghyfreithlon neu beri gofid ar gyfryngau cymdeithasol. Dim ond 41% a oedd o'r farn bod cwmnïau cyfryngau cymdeithasol wedi cymryd y pryderon yr oeddent wedi rhoi gwybod iddynt amdanynt o ddifrif.

## Preifatrwydd data

Rydym yn ymwybodol, mewn rhai achosion, y bydd angen i gwmnïau gasglu mwy o ddata am ddefnyddwyr ac achosion y rhoddir gwybod amdanynt, er mwyn cwblhau'r templed tryloywder. Cyn cyhoeddi ein Papur Gwyn, byddwn yn gweithio gyda chwmnïau, grwpiau defnyddwyr a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth er mwyn sicrhau y gellir gwneud hyn mewn ffordd nad yw'n tresmasu ar breifatrwydd unigolion nac yn gwneud y broses gofnodi yn fwy beichus. Pan gyhoeddir yr adroddiad tryloywder, cyflwynir ffigurau ar ffurf gyfunol yn unig ac ni fydd yn bosibl adnabod unrhyw ddefnyddiwr unigol. Er ein bod yn cydnabod y byddai rhai gofynion adrodd arbennig o sensitif, megis rhyw, cyfeiriadedd rhywiol neu oedran defnyddwyr, yn ddefnyddiol i ddeall bwlio wedi'i anelu at unigolion penodol â nodweddion gwarchoddedig, ar yr adeg hon nid ydym yn bwriadu gofyn am y wybodaeth. Yn lle hynny, rydym yn gofyn bod achosion o gam-drin y rhoddir gwybod amdanynt yn cael eu dosbarthu ar sail y nodwedd y maent yn ymwneud â hi fel rhan o'r broses gymedroli. Fodd bynnag, byddwn yn adolygu'r mater hwn yn rheolaidd cyn cyhoeddi'r Papur Gwyn.

## Ardoll y cyfryngau cymdeithasol

Ceisiodd y Papur Gwyrdd farn pobl ar ardoll ar gyfryngau cymdeithasol a fyddai'n helpu i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o ddiogelwch ar-lein a'i gwneud yn bosibl i fesurau ataliol gael eu cymryd er mwyn mynd i'r afael â niwed ar y rhyngryd, gan gynnwys mentrau newydd a rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

Dengys yr ymatebion i'r ymgynghoriad fod ecwitiâu sylweddol eisoes ar waith o ran ariannu diogelwch ar-lein. Nododd cwmnïau cyfryngau cymdeithasol y byddai'n fuddiol cyfuno'r cymorth ariannol y mae'r Llywodraeth yn ei roi i gwmnïau er mwyn rhannu adnoddau a mynd i'r afael â mathau penodol o niwed: roedd sefydliadau elusennol yn gefnogol ar y cyfan ond gwnaethant nodi cymhlethdod a gwerth partneriaethau presennol â'r diwydiant. Nid oes yr un cynnig y cytunwyd arno ar gyfer diogelu a gwella'r dirwedd hon ac rydym yn ymwybodol



bod cwmnïau ac elusennau yn gwneud amrywiaeth eang o waith i fynd i'r afael â niwed ar-lein.

Dim ond 15% o'r unigolion a ymatebodd i ymgynghoriad ein harolwg ar-lein a oedd yn cytuno y byddai ardoll ganolog a godir ar y cyfryngau cymdeithasol yn ffordd effeithiol i'r diwydiant gyfrannu at y gwaith o fynd i'r afael â niwed ar-lein. Felly, mae'n bwysig ein bod yn cynnal trafodaethau pellach er mwyn deall y pryderon hyn a chydweithio â'n rhanddeiliaid allweddol i gytuno ar ddull gweithredu effeithiol.

Bydd yn anodd ailddyrrannu adnoddau heb amharu ar y sefyllfa bresennol, ond o dan y system bresennol ceir dyblygu ymdrech, nid yw rhai defnyddwyr sy'n agored i niwed yn cael digon o gymorth a gall defnyddwyr gael negeseuon croes sy'n peri dryswch. Credwn yn gryf bod gwerth pendant i'w ychwanegu drwy gynnull pŵer y Llywodraeth er mwyn sicrhau bod pob rhan o'r ecosystem ddigidol yn cael y budd mwyaf posibl o adnoddau ac arian. Fodd bynnag, cyn inni darfu ar unrhyw fentrau sy'n bodoli eisoes, credwn ei bod yn iawn inni gymryd amser i gytuno ar y ffordd orau o sicrhau buddsoddiad sylweddol parhaus er mwyn mynd i'r afael â niwed ar-lein.

Drwy bennu cyfeiriad clir, bydd y Llywodraeth yn gallu cyfeirio buddsoddiad yn uniongyrchol er mwyn diwallu gwahanol anghenion defnyddwyr a sicrhau negeseuon cyson ynglŷn â diogelwch ar draws llwyfannau. Drwy gydweithio ag eraill byddwn yn sicrhau bod gwaith ym maes diogelwch yn cael mwy o effaith nag erioed o'r blaen a gallwn sicrhau y caiff mentrau eu gwerthuso'n briodol ac y caiff eu llwyddiant ei fesur. Bydd hyn yn ein helpu i gasglu tystiolaeth am y ffordd orau o gefnogi defnyddwyr a sut y gellir annog ymddygiad cadarnhaol ar-lein.

Rydym am weld y Llywodraeth yn chwarae rôl ganolog wrth ddatblygu dull strategol newydd o ariannu diogelwch ar-lein, wrth gadw manteision y ffrydiau ariannu presennol o'r cwmnïau technoleg mawr. Rydym wedi cynnull gweithgor o elusennau diogelwch ar-lein a phlant er mwyn rhoi mewnbwn ar y mater hwn ac rydym yn croesawu'r modd cadarnhaol y mae'r sefydliadau hyn wedi ymgysylltu â ni. Gan symud ymlaen, byddwn yn cynnal cyfres o gyfarfodydd bord gron â'r diwydiant ac elusennau er mwyn nodi'r ffordd orau ymlaen. Ochr yn ochr â hyn byddwn yn comisiynu ymchwil bellach er mwyn nodi costau gwahanol fathau o niwed ar-lein a pha fathau o niwed sy'n cael yr effaith negyddol fwyaf ar gymdeithas. Byddwn yn dwyn y darnau hyn o waith ynghyd mewn cyfarfod a gadeirir gan ein Hysgrifennydd Gwladol cyn yr haf er mwyn nodi sut i sicrhau dull ariannu mwy strategol. Byddwn yn defnyddio'r trafodaethau hyn i lywio ein dull gweithredu a gaiff ei nodi yn ein Papur Gwyn sydd ar fin cael ei gyhoeddi.

Wrth inni ystyried cynlluniau ar gyfer cyflwyno'r ardoll yn ofalus, byddwn yn sicrhau ei bod yn gymesur ac na fydd yn cyfyngu ar dwf, buddsoddiad nac arloesi yn y DU gyda chamau penodol yn cael eu cymryd i ddiogelu busnesau newydd a busnesau bach rhag beichiau gormodol. Byddwn yn ystyried unrhyw ardoll yng nghyd-destun gwaith sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd dan arweiniad Trysorlys EM mewn perthynas â threth gorfforaethol a'r economi ddigidol.

Awgrymodd ymatebwyr i'n harolwg diogelwch ar-lein y gellid defnyddio'r ardoll i ariannu rhaglenni addysg ac adnoddau i blant a rhieni, ochr yn ochr â rhwydweithiau cymorth gan gyfoedion er mwyn helpu plant a phobl ifanc. Fel y nodir yn y Papur Gwyn, rydym yn ymwybodol o rai cynlluniau ardderchog y mae defnyddwyr eisoes yn cael budd ohonynt a byddwn yn ystyried sut y gallwn gefnogi'r rhain ymhellach.

### *'Meddwl am ddiogelwch yn gyntaf' a chysylltiadau â 'diogelu drwy ddylunio'*

Er mwyn creu ecosystem ddigidol fwy diogel yn y dyfodol, mae angen inni ddylanwadu ar y gwaith o ddatblygu llwyfannau newydd a datblygol. Mae darbwyllo datblygwyr a dylunwyr i gynnwys nodweddion diogelwch mewn cymwysiadau a llwyfannau newydd o'r dechrau yn hollbwysig i lwyddiant y gwaith hwn.

Nododd **arolwg Cymdeithasu Gyfrifiadura Prydain o blant** mai dim ond 30% o'r bobl ifanc 12 oed a arolygwyd a oedd yn cytuno bod "y rhan fwyaf o gwmnïau yn meddwl am ddiogelwch pobl o'r un oedran â chi ar-lein pan fyddant yn llunio eu gwefannau neu eu hapiau".

Er mwyn cyflawni hyn, byddwn yn adeiladu ar y model *Diogelu drwy Ddylunio*<sup>14</sup> ac yn pennu llinellau sylfaen diogelwch newydd ar gyfer cynhyrchion a llwyfannau digidol. Byddwn yn ffurfio partneriaeth â grwpiau defnyddwyr a manwerthwyr er mwyn cytuno ar safonau a hyrwyddo arfer gorau a fydd yn helpu i sicrhau diogelwch a lles defnyddwyr.

Mae'r adroddiad ***Diogelu drwy Ddylunio*** yn dadlau o blaid newid sylfaenol yn y dull gweithredu: gan symud i ffwrdd oddi wrth y sefyllfa bresennol lle mae'n rhaid i ddefnyddwyr ddiogelu eu dyfeisiau ac, yn lle hynny, sicrhau bod mesurau diogelwch cadarn yn cael eu hymgorffori mewn cynhyrchion "rhyngwyd o bethau" (IoT) defnyddwyr drwy waith dylunio. Mae hefyd yn nodi bod angen i'r Llywodraeth a'r diwydiant wneud mwy ac yn cynnig nifer o fesurau i ddiogelu dinasyddion a'r economi ehangach yn well.

Prif gynnig yr adroddiad hwn yw y dylid drafftio Cod Ymarfer wedi'i anelu'n bennaf at weithgynhyrchwyr cynhyrchion IoT defnyddwyr a gwasanaethau cysylltiedig. Fe'i datblygwyd drwy ymgysylltu'n helaeth â'r diwydiant ac arbenigwyr pwnc ac mae'n nodi 13 o gamau ymarferol i wella diogelwch IoT defnyddwyr.

Bydd y gwaith hwn hefyd yn cyd-fynd yn agos â'r cod dylunio sy'n addas i'r oedran sydd wedi'i gynnwys yn y Bil Diogelu Data sydd gerbron y Senedd ar hyn o bryd.

<sup>14</sup> DCMS, 'Secure by Design: Improving the cyber security of consumer Internet of Things' (Mawrth 2018)

[https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/686089/Secure\\_by\\_Design\\_Report\\_.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/686089/Secure_by_Design_Report_.pdf)

Fel y nodir yn y Papur Gwyrdd, byddwn hefyd yn creu rhwydwaith technegol, gan ddwyn arbenigwyr o amrywiaeth eang o gwmnïau technoleg ynghyd i ragweld mathau newydd o niwed ar-lein yn y dyfodol a chymryd camau i'w hatal. Byddwn yn creu'r rhwydwaith gan ddefnyddio ein cysylltiadau a'n partneriaid ymhlith aelodau cyswllt UKCCIS.<sup>15</sup>

Roedd 48% (189 o unigolion) o'r rhai a atebodd y cwestiwn yn ein harolwg ar-lein yn cytuno y dylai mwy o wybodaeth am ddiogelwch cynhyrchion a llwyfannau digidol fod ar gael i ddefnyddwyr.

## *Y wybodaeth ddiweddaraf am raglen ailfodelu UKCCIS*

Nododd y Papur Gwyrdd amcanion ar gyfer ailfodelu UKCCIS. Er bod UKCCIS, ar y cyfan, yn cael ei ystyried yn batrwm o arfer da byd-eang, yn ddiweddar ni fu gan Fwrdd Gweithredol y Cyngor unrhyw gyfeiriad strategol, sydd wedi amharu ar ei allu i bennu a chyflawni amcanion allweddol. Roedd y cynigion a nodwyd yn y Papur Gwyrdd yn cynnwys ehangu cwmpas y Cyngor i gynnwys pob defnyddiwr, nid dim ond plant, a newid ei enw i Gyngor y DU ar Ddiogelwch ar y Rhyngrwyd (UKCCIS); sefydlu Bwrdd llai o faint â phroffil uwch ac ailystyried rôl gweithgorau'r Cyngor.

Roedd aelodau'r Cyngor megis Childnet International yn gefnogol i'n hawydd i wneud y Bwrdd yn fwy hyblyg a gwella ei allu i gyflawni blaenoriaethau strategol. Dywedodd TalkTalk hefyd ei fod o blaid diwygio prosesau sy'n bodoli eisoes er mwyn sicrhau mwy o gydgyssylltu ac atebolrwydd. Wrth inni ailfodelu'r Cyngor, byddwn yn cyflwyno Bwrdd Gweithredol llai o faint a fydd yn helpu i lywio agenda strategol y Cyngor, yn gweithio yn unol ag amcanion pendant o ran diogelwch ac yn cynnig cyswllt uniongyrchol rhwng Gweinidogion a'r gweithgorau. At hynny, rydym yn cydnabod bod gwahaniaethau yn y systemau addysg, y fframweithiau cyfreithiol a rhwydweithiau cymorth y trydydd sector rhwng y gwledydd datganoledig ac, felly, byddwn yn cymryd camau i sicrhau bod gwaith UKCCIS yn adlewyrchu hyn.

Wrth inni ailfodelu UKCCIS, byddwn hefyd yn gwneud y canlynol:

- gwella'r dull o gasglu barn ar faterion sy'n dod i'r amlwg,
- cynyddu atebolrwydd am brosiectau gweithgorau ac atgyfnerthu'r cysylltiadau rhwng y gweithgorau a'r Bwrdd
- pennu rôl gliriach i'r aelodau cyswllt.

Byddwn yn lansio UKCCIS wedi'i ailfodelu â blaenoriaethau wedi'u diweddarau, ochr yn ochr â'n Papur Gwyn. Bydd hyn yn sicrhau bod y Cyngor yn cyd-fynd yn llwyr â'n hamcanion strategol a'n gwaith ehangach mewn perthynas â diogelwch ar-lein.

<sup>15</sup> Dylai unigolion neu sefydliadau a hoffai gyfrannu at y gwaith hwn gysylltu â ni yn [internetsafetystategy@culture.gov.uk](mailto:internetsafetystategy@culture.gov.uk).

Yn y cyfamser, bydd y Cyngor a'i weithgorau yn parhau i chwarae rôl bwysig wrth gasglu tystiolaeth am niwed ar-lein, cefnogi newidiadau ym maes technoleg, meithrin cadernid digidol a chefnogi addysgwyr a rhieni.

## Ymestyn y cylch gwaith

Lleisiodd nifer o'r ymatebion i'r ymgynghoriad gan elusennau ac ymgyrchwyr plant bryderon ynghylch ymestyn cylch gwaith UKCCIS i gynnwys pob defnyddiwr. Fel y nodir ym Mhapur Gwyrdd y Strategaeth Diogelwch ar y Rhyngrwyd, credwn y bydd ymestyn cylch gwaith UKCCIS i gynnwys oedolion, yn ogystal â phlant, yn dod â manteision sylweddol a'i bod yn bwysig bod y Cyngor yn cyd-fynd â chwmpas y Strategaeth. Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar anghenion plant drwy wneud y canlynol:

- Sicrhau bod plant yn cael cyfle i rannu eu barn â'r Bwrdd Gweithredol;
- Cynnal o leiaf un gweithgor a fydd yn canolbwyntio ar ddiogelwch plant ar-lein;
- Sicrhau bod elusennau plant yn parhau i gael eu cynrychioli ar y Bwrdd Gweithredol;
- Pennu blaenoriaethau mewn perthynas â diogelwch plant ar-lein a monitro cynnydd y Cyngor o ran eu cyflawni.

Bydd yn cymryd amser i roi'r darpariaethau hyn ar waith am ein bod yn ymwybodol bod angen darparu'r adnoddau priodol a'r strwythur cywir er mwyn sefydlu fforwm ar gyfer casglu barn plant. Ar hyn o bryd rydym yn gweithio gydag elusennau plant y mae ganddynt fyrddau cynghori pobl ifanc eisoes er mwyn inni allu dysgu o'u profiadau a gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar arfer gorau sefydledig.

## 4. Cefnogi plant a rhieni

### Addysg

Trefnwyd **Diwrnod Rhyngwrwyd Diogelach 2018**, yn y DU gan Ganolfan Rhyngwrwyd Diogelach y DU - cynhaliodd mwy na 1700 o sefydliadau weithgareddau ledled y DU gan gynnwys ysgolion, busnesau, elusennau, y Llywodraeth a gwasanaethau'r Heddlu. Clywodd 45% o blant 8-17 oed yn y DU a 30% o rieni yn y DU am Ddiwrnod Rhyngwrwyd Diogelach.

I gyd-fynd â digwyddiadau Diwrnod Rhyngwrwyd Diogelwch, cyhoeddodd Canolfan Rhyngwrwyd Diogelach y DU ganfyddiadau gwaith ymchwil newydd a arolygodd 2,000 o blant a phobl ifanc 8-17 oed: 'Digital Friendships: the role of technology in young people's relationships'. Dangosodd yr adroddiad pa mor ganolog yw technoleg i berthnasoedd pobl ifanc, yn ogystal â thynnu sylw at y rôl gadarnhaol a negyddol y gall ei chwarae yn eu perthnasoedd â ffrindiau. Dangosodd y canfyddiadau sut mae pobl ifanc yn mynd ati'n rhagweithiol i helpu i greu Rhyngwrwyd gwell a bod arnynt eisiau cymorth gan oedolion i wneud hynny, gyda 77% o blant a phobl ifanc yn dweud eu bod am i'w rhieni neu eu gofalwyr fod yno iddynt os bydd rhywbeth yn peri gofid iddynt ar-lein.

Mewn ymateb i'r Papur Gwyrdd, cawsom nifer o ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad gan athrawon unigol yn ogystal â sefydliadau sy'n cynrychioli ysgolion. Tynnodd y rhain sylw at amrywiaeth o weithgareddau diogelwch ar-lein sy'n cael eu cynnal yn lleol ac yn genedlaethol. Er enghraifft, nododd Cyngor yr Ysgolion Annibynnol fod Cynhadledd y Prifathrawon a'r Prifathrawesau wedi bod yn cynnal ymgyrch "Tech Control" gan weithio gyda Digital Awareness UK. Mae'r adnoddau, a brofwyd gyda phenaethiaid, athrawon a disgyblion, wedi'u rhannu â mwy na 18,000 o ysgolion a gwylwyd un fideo ymgorfforedig fwy na miliwn o weithiau.

Nododd **arolwg Cymdeithas Gyfrifiadura Prydain** o 6,500 o blant y byddai plant 8-13 oed yn croesawu mwy o addysg mewn ysgolion am ddiogelwch ar-lein (gyda 72% yn credu hyn, ar gyfartaledd, gan gynnwys 87% o blant 9 oed).

Mae'r Llywodraeth am helpu pob ysgol i gyflwyno addysg o ansawdd uchel sy'n sicrhau y gall pob person ifanc gael perthnasoedd iach a pharchus ar-lein ac all-lein a gadael yr ysgol â'r wybodaeth i'w paratoi ar gyfer bywyd fel oedolyn. Dyma pam rydym wedi cyflwyno cwricwlwm cyfrifiadura cenedlaethol newydd ar gyfer cyfnod allweddol 1 i gyfnod allweddol 4, gyda chynnwys ar ddiogelwch ar-lein a sut i ddefnyddio technoleg yn ddiogel, yn gyfrifol ac â pharch. Mae'n orfodol ym mhob ysgol a gynhelir gan y wladwriaeth a gall ysgolion rhydd ac academiâu ei ddefnyddio fel meincnod.

Sefydlwyd **Llinell Cymorth Diogelwch Ar-lein i Weithwyr Proffesiynol** gan Ganolfan Rhyngwyd Diogelach y DU yn 2011 er mwyn helpu'r gweithlu plant gyda materion sy'n ymwneud â diogelwch ar-lein. Mae'r llinell gymorth ar gyfer pob gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc a gall helpu gydag unrhyw faterion sy'n ymwneud â diogelwch ar-lein, gan gynnwys preifatrwydd, seiberfwlio a chwarae gemau. Hefyd, mae gan y Llinell Gymorth Diogelwch Ar-lein i Weithwyr Proffesiynol sianeli uniongyrchol i uwchgyfeirio pryderon at gwmnïau cyfryngau cymdeithasol a llawer o wefannau. Ceir rhagor o wybodaeth yn:

<https://www.saferinternet.org.uk/professionals-online-safety-helpline>

Mae Deddf Plant a Gwaith Cymdeithasol 2017 yn gosod dyletswydd ar yr Ysgrifennydd Addysg i wneud Addysg Perthnasoedd mewn ysgolion cynradd ac Addysg Perthnasoedd a Rhyw mewn ysgolion uwchradd yn orfodol drwy ddefnyddio rheoliadau. Mae'r Ddeddf hefyd yn darparu pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud Addysg Bersonol, Cymdeithasol ac Iechyd, neu elfennau ohoni, yn orfodol ym mhob ysgol yn Lloegr, ar ôl rhoi ystyriaeth ofalus i'r mater.

Mae'r Adran Addysg wedi cynnal proses ymgysylltu drylwyr ynglŷn â chwmpas a chynnwys y pynciau, a oedd yn cynnwys amrywiaeth eang o randdeiliaid â diddordeb, ac wedi cyhoeddi cais cyhoeddus am dystiolaeth. Yn benodol, ceisiodd un o'r cwestiynau yn y cais am dystiolaeth farn pobl ar yr agweddau pwysig ar y gwaith o sicrhau perthnasoedd diogel ar-lein y dylai Addysg Perthnasoedd ac Addysg Perthnasoedd a Rhyw ymdrin â nhw. Ar hyn o bryd mae'r Adran Addysg wrthi'n asesu ymatebion i'r cais am dystiolaeth a chaiff y canfyddiadau eu cyfuno â thystiolaeth o'r broses ymgysylltu i ategu penderfyniadau ynghylch cynnwys y pynciau a statws Addysg Bersonol, Cymdeithasol ac Iechyd.

Mae canfyddiadau rhagarweiniol y broses ymgynghori wedi dangos bod rhai rhanddeiliaid wedi tynnu sylw at yr angen i bobl ifanc fod yn ymwybodol o rai o'r risgiau negyddol sy'n gysylltiedig â chyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys yr hyn sy'n gyfystyr â bwlio ar-lein a'i effeithiau negyddol. Mae'n hanfodol bod plant a phobl ifanc y genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol yn deall nad seiberfwlio na gweithgarwch negyddol cyfatebol all-lein yw'r norm ac na chaiff ei oddef. Cyfeiriodd rhai hefyd at bwysigrwydd dysgu am osodiadau preifatrwydd, gan gynnwys peryglon anfon negeseuon rhywiol eu natur a siarad â phobl ddieithr ar-lein.

Yn dilyn dadansoddiad llawn o'r ymatebion i'r cais am dystiolaeth, bydd yr Adran yn datblygu rheoliadau a chanllawiau statudol cysylltiedig ar gyfer y pynciau newydd a bydd y naill a'r llall yn destun ymgynghoriad cyhoeddus a ddilyniir gan drafodaeth ynghylch y rheoliadau yn y Senedd.

Fel rhan o Ddiwrnod Rhyngwyd Diogelach, cyhoeddodd Gweithgor Addysg UKCCIS ei fframwaith '**Education for a connected world**'.<sup>16</sup> Mae'r fframwaith yn disgrifio'r

16

[https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/683895/Education\\_for\\_a\\_connected\\_world\\_PDF.PDF](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/683895/Education_for_a_connected_world_PDF.PDF)

wybodaeth a'r sgiliau digidol y dylai plant a phobl ifanc gael cyfle i'w datblygu ar wahanol oedrannau a chyfnodau yn ystod eu bywydau. Mae'n nodi'r hyn y dylai plentyn ei wneud o ran technoleg ar-lein gyfredol, ei dylanwad ar ymddygiad a datblygiad a'r sgiliau sydd eu hangen arno er mwyn ei defnyddio. Bydd y fframwaith yn galluogi athrawon i ddatblygu strategaethau effeithiol ar gyfer deall risgiau ar-lein ac ymdrin â nhw.

Mae UKCCIS yn ceisio adborth ar y ddogfen hon gan weithwyr addysg proffesiynol a bydd yn defnyddio'r wybodaeth hon i lywio ein gwaith parhaus ym maes addysg diogelwch. Mae'r Gweithgor Addysg yn parhau i ddatblygu rhagor o adnoddau a fydd yn cefnogi'r gwaith o addysgu diogelwch ar-lein mewn ysgolion.

Yn ddiweddar ymgynghorodd yr Adran Addysg hefyd ynghylch y canllawiau diogelu statudol ar gyfer ysgolion yn Lloegr, *Keeping Children Safe in Education* (KCSIE). Roedd hyn yn cynnwys ystyried sut i atgyfnerthu canllawiau a chymorth i ysgolion a cholegau er mwyn cadw plant yn ddiogel ar-lein. Cyhoeddir canllawiau diwygiedig yn ddiweddarach eleni. Nodir/Cyfeirir at adnoddau UKCCIS yn y canllawiau diogelu statudol sydd ar fin cael eu cyhoeddi. Mae'r rhain yn cynnwys: canllawiau ar sut i ymateb i achos o anfon negeseuon rhywiol eu natur a chanllawiau i'r Bwrdd Llywodraeth ar archwilio dull ysgol o sicrhau diogelwch ar-lein. Mae KCSIE yn glir iawn y dylai ysgolion a cholegau sicrhau bod eu staff yn cael hyfforddiant diogelu, gan gynnwys diogelwch ar-lein.

Mewn partneriaeth â Chymdeithas Gyfrifiadura Prydain, y Sefydliad Siartredig TG, mae BT yn uwchsgilio athrawon ysgol gynradd i gyflwyno'r cwricwlwm cyfrifiadura drwy raglen Barefoot Computing gan ddarparu adnoddau am ddim a chynnal gweithdai a arweinir gan wirfoddolwyr er mwyn esbonio i athrawon pa ddeunyddiau sydd ar gael. Cyrhaeddwyd mwy nag 1.5 miliwn o blant drwy 50,000 o athrawon ledled y DU. Mae rhaglen Barefoot Computing bellach yn cael ei defnyddio mewn mwy na 50% o'r ysgolion cynradd yn Lloegr a'r Alban a 40% o'r ysgolion yng Nghymru a Gogledd Iwerddon. Bydd ymgyrch a ddechreuodd ym mis Ionawr 2018 yn annog mwy o ysgolion i ddefnyddio'r rhaglen drwy gyflwyno cynllun gwers newydd i blant 5-7 oed er mwyn eu hannog i drafod diogelwch ar-lein wrth chwarae gêm hwyliog, 'Safety Snakes', gyda 'Beebot' y gellir ei raglennu.

Mae'r Adran Addysg yn buddsoddi £84m o arian newydd dros y pedair blynedd nesaf er mwyn cyflawni rhaglen gynhwysfawr i wella'r broses o addysgu cyfrifiadura a chynyddu cyfranogiad mewn cyfrifiadureg, yn enwedig ymhlith merched. Bydd hyn yn cynnwys rhaglen hyfforddi genedlaethol i uwchsgilio hyd at 8,000 o athrawon presennol a Chanolfan Genedlaethol newydd ar gyfer Addysg Gyfrifiadura a fydd yn darparu adnoddau am ddim a fydd yn cwmpasu'r cwricwlwm cyfan, gan gynnwys diogelwch ar-lein.

Yn **yr Alban** mae ymrwymiad tebyg i ddarparu profiad addysgol sy'n sicrhau y bydd gan bob plentyn a pherson ifanc y wybodaeth a'r ddealltwriaeth, y sgiliau, y galluoedd a'r priodoleddau sydd eu hangen arnynt i sicrhau eu lles meddyliol, emosiynol, cymdeithasol a chorfforol.

Y Cwricwlwm Rhagoriaeth yw'r dull cenedlaethol o ddysgu ac addysgu ar gyfer pobl ifanc rhwng 3 a 18 oed yn yr Alban. Mae'n rhoi cryn dipyn o hyblygrwydd, o fewn canllawiau cenedlaethol cyffredinol, i athrawon ddatblygu gwersi sy'n diwallu anghenion dysgwyr unigol orau. Athrawon, penaethiaid ac ymarferwyr addysgol proffesiynol eraill sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu beth a gaiff ei addysgu mewn ysgolion yn yr Alban. Mae'r hyblygrwydd i ymarferwyr addysgol yn golygu nad oes gan yr Alban gwricwlwm statudol.

Yn 2017 cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban ganllawiau gwrthfwlio wedi'u diweddarau, sef 'Respect for All: The National Approach to Anti-Bullying for Scotland's Children and Young People'. Mae'r dull hwn o weithredu yn rhan o ymdrechion ehangach i wella iechyd a lles plant a phobl ifanc. Mae'n cyd-fynd â gwaith sy'n mynd rhagddo i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn teimlo'n ddiogel ac y gallant feithrin perthnasoedd cryf a chadarnhaol â'u cyfoedion ac oedolion yn ogystal â'n gwaith i hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol. Mae'r dull hwn o weithredu hefyd yn nodi gweledigaeth a nodau cyffredin i wneud yn siŵr bod gwaith ar draws pob asiantaeth a chymuned yn cyfrannu'n gyson ac yn gydlynol at ddull ysgol gyfan o atal bwlio yn yr Alban. Mae'n nodi'n glir na ddylid ymdrin â bwlio ar-lein yn wahanol i fwlio wyneb yn wyneb ac y dylai pob polisi ac arfer, felly, gynnwys cyngor ar fwlio ar-lein. Gall ysgolion yn yr Alban ddefnyddio'r Canllawiau ar Ddatblygu Polisiau i Hyrwyddo'r Defnydd Diogel a Chyfrifol o Dechnoleg Symudol mewn Ysgolion neu adnodd hunanadolygu e-ddiogelwch '360 Degree Safe'.

Er mwyn helpu i gyflwyno'r canllawiau gwrthfwlio, bydd gwasanaeth gwrthfwlio 'respectme', a ariennir gan Lywodraeth yr Alban, yn parhau â'i waith gydag awdurdodau lleol a sefydliadau eraill er mwyn meithrin hyder a gallu i fynd i'r afael â bwlio yn effeithiol.

At hynny, mae addysg perthnasoedd, iechyd rhywiol a magu plant (RSHP) yn rhan annatod o faes iechyd a llesiant o'r cwricwlwm ysgol yn yr Alban. Bwriedir i'r agwedd hon ar y cwricwlwm alluogi plant a phobl ifanc i feithrin perthnasoedd cadarnhaol wrth iddynt dyfu'n hŷn a dylai gyflwyno ffeithiau mewn modd gwrthrychol, cytbwys a sensitif o fewn fframwaith o werthoedd cadarn ac ymwybyddiaeth o'r gyfraith o ran ymddygiad rhywiol. Mae adnodd addysgu ar-lein newydd yn cael ei ddatblygu a fydd yn ceisio llenwi bylchau sy'n dod i'r amlwg megis rolau rhywedd yn y cyfnod pontio o'r blynyddoedd cynnar i'r ysgol gynradd a ffactorau sy'n effeithio ar fywydau pobl ifanc megis cyfryngau cymdeithasol; anfon negeseuon rhywiol eu natur; meithrin perthynas amhriodol ar-lein; mynediad haws at bornograffi; pwysau cyfoedion; Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant; cydsyniad; a pherthnasoedd iach. Disgwylir i'r adnodd newydd hwn gael ei gwblhau yn ystod 2019.

Mae'r adran Parth y Rhieni o wefan Education Scotland yn cynnwys gwybodaeth i rieni am ddiogelwch ar-lein, ymhlith pethau eraill.

Ar hyn o bryd mae addysg yng **Nghymru** yn destun rhaglen ddiwygio fawr. Nod y cwricwlwm newydd yw paratoi pob person ifanc ar gyfer bywyd. Mae iddo bedwar diben allweddol, sef helpu pob dysgwyr i fod yn unigolyn moesegol, hyddysg, iach a hyderus sy'n barod i ddysgu drwy gydol ei oes wrth iddo ddod yn un o ddinasyddion Cymru a'r byd.



Bydd gan y cwricwlwm newydd chwe Maes Dysgu a Phrofiad, sy'n cynnwys Iechyd a Lles. Bydd y maes hwn yn defnyddio pynciau a themâu o les meddyliol, corfforol ac emosiynol a bydd hefyd yn ystyried sut mae amgylchedd yr ysgol yn hyrwyddo iechyd a lles cymdeithasol, emosiynol, ysbrydol a chorfforol plant a phobl ifanc.

Bydd Cymhwysedd Digidol hefyd yn thema drawsgwricwlaidd, ynghyd â llythrennedd a rhifedd, o fewn y cwricwlwm newydd. Y Fframwaith Cymhwysedd Digidol yw elfen gyntaf y cwricwlwm newydd ac fe'i cyhoeddwyd ym mis Medi 2016. Mae gan y Fframwaith bedwar llinyn sydd cyn bwysiced â'i gilydd (Dinasyddiaeth, Rhyngweithio a chydweithio, Cynhyrchu, a Data a meddwl cyfrifiadurol).

Mae'r llinyn Dinasyddiaeth yn canolbwyntio ar ddysgwyr yn datblygu eu sgiliau a'u hymddygiad er mwyn cyfrannu'n gadarnhaol at y byd digidol o'u hamgylch sy'n cynnwys diogelu eu hunain ar-lein. Mae'r llinynnau yn cynnwys elfennau 'Hunaniaeth, delwedd ac enw da', 'Iechyd a lles', 'Hawliau digidol, trwyddedu a pherchenogaeth', ac 'Ymddygiad ar-lein a seiberfwlio'. Bydd y sgiliau hyn yn helpu dysgwyr i werthuso eu lle yn y byd digidol yn feirniadol, fel y byddant yn barod i wynebu'r agweddau cadarnhaol a negyddol ar fod yn ddinesydd digidol.

Mae'r llinyn rhyngweithio a chydweithio hefyd yn galluogi dysgwyr i ystyried dulliau cyfathrebu ffurfiol ac anffurfiol gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol a negeseuo sydyn. Yn ogystal ag edrych ar sut i storio data bydd dysgwyr hefyd yn ystyried goblygiadau cyfreithiau data ac yn dysgu sut i rannu gwybodaeth yn briodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i ddiogelu a hyrwyddo lles pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru. Rydym yn disgwyl i bob aelod a staff a gwirfoddolwr sy'n gweithio gyda phlant i rannu'r ymrwymiad hwn. Rydym wedi cyhoeddi canllawiau statudol, Cadw dysgwyr yn ddiogel, sy'n nodi rôl awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a pherchenogion ysgolion annibynnol er mwyn sicrhau bod ganddynt systemau effeithiol ar waith i ymateb i bryderon diogelu.

Mae rhaglen diogelwch ar-lein helaeth sy'n adeiladu ar arbenigedd a gweithgareddau presennol er mwyn datblygu gweithgareddau diogelwch ar-lein cynaliadwy ledled Cymru – yn ogystal â chynyddu'r adnoddau sydd ar gael yn Gymraeg. Mae'r prosiect yn cynnwys y gweithgareddau diogelwch ar-lein canlynol:

- datblygu a chyhoeddi amrywiaeth o adnoddau addysgu dwyieithog sy'n canolbwyntio ar faterion penodol sy'n ymwneud â diogelwch ar-lein;
- datblygu a chyhoeddi amrywiaeth o adnoddau i gefnogi dysgwyr a gofalwyr;
- darparu adnodd hunanwerthuso - 360 degree safe Cymru a chymorth penodol a hyrwyddo ei ddefnyddio;
- darparu rhaglen eang o hyfforddiant diogelwch ar-lein er mwyn uwchsgilio ymarferwyr addysg;
- datblygu cynnwys ac eitemau newyddion ar faterion sy'n ymwneud â diogelwch ar-lein;
- datblygu modiwl hyfforddiant diogelwch ar-lein i ymarferwyr addysgol a llywodraethwyr.

Mae'r Parth Diogelwch Ar-lein yn adran benodol o fewn Hwb sydd wedi cael ei chynllunio a'i datblygu er mwyn hyrwyddo diogelwch ar-lein ym maes addysg ledled Cymru. Yn ogystal ag erthyglau newyddion ac ysgrifau nodweddiadol, mae'r Parth Diogelwch Ar-lein yn cyhoeddi amrywiaeth o adnoddau addysgu ar wahanol faterion sy'n ymwneud â diogelwch ar-lein er mwyn cadw dysgwyr yn ddiogel ar-lein. Mae'n darparu mynediad i ffynonellau o arweiniad a chynngor i ddysgwyr, ymarferwyr addysg, gweithwyr addysg proffesiynol, llywodraethwyr, rhieni a gofalwyr a dolenni i hyfforddiant a chymorth pellach gan arbenigwyr.

## Ymateb ysgolion i seiberfwlio

Yn ôl y gyfraith mae'n ofynnol i bob ysgol yn Lloegr lunio polisi ymddygiad â mesurau i atal pob math o fwlio (gan gynnwys seiberfwlio) ymhlith disgyblion. Rydym yn cydnabod bod bwlio ar-lein yr un mor gyffredin â bwlio wyneb yn wyneb ac mae'n cael ei ddefnyddio fwyfwy fel ffordd o ymestyn bwlio wyneb yn wyneb y tu hwnt i'r diwrnod ysgol.

Sefydlodd **YoungMinds** a **Chymdeithas y Plant**, mewn partneriaeth ag Alex Chalk AS, ymchwiliad i'r effaith y mae seiberfwlio ar gyfryngau cymdeithasol yn ei chael ar iechyd meddwl plant a phobl ifanc. Er mwyn llywio'r ymchwiliad, cynhaliodd YoungMinds a Chymdeithas y Plant arolwg o 1,089 o blant a phobl ifanc 11-25 oed er mwyn ceisio eu barn a chlywed am eu profiadau o fwlio ar-lein. Dangosodd yr arolwg fod 61% o bobl ifanc wedi cael eu cyfrif cyfryngau cymdeithasol cyntaf yn 12 oed neu'n iau, er bod y canllawiau yn nodi bod yn rhaid i chi fod yn 13 oed i gael cyfrif. At hynny, nododd 60% o bobl ifanc eu bod wedi gweld rhywun yn dioddef achos o aflonyddu neu fwlio ar-lein a dywedodd 83% y dylai cwmnïau cyfryngau cymdeithasol wneud mwy i fynd i'r afael â seiberfwlio ar eu gwefannau.

Mae'r Llywodraeth eisoes wedi rhoi nifer o bwerau ac amrywiaeth o gymorth ar waith er mwyn galluogi ysgolion i atal seiberfwlio a mynd i'r afael ag ef, gan gynnwys rhoi pŵer i benaethiaid reoleiddio ymddygiad disgyblion pan na fyddant ar safle'r ysgol a phan na fyddant o dan reolaeth na gofal cyfreithiol aelod o staff yr ysgol. Os rhoddir gwybod i athrawon am achos o fwlio y tu allan i'r ysgol, dylid ymchwilio iddo a chymryd camau i fynd i'r afael ag ef.

Mae'r Adran Addysg hefyd yn rhoi £1.75 miliwn, dros ddwy flynedd, i bedwar sefydliad gwrthfwlio er mwyn helpu ysgolion i fynd i'r afael â bwlio. Mae'r arian hwn yn cynnwys prosiectau sy'n targedu achosion o fwlio grwpiau penodol, megis y rhai ag anghenion ac anabledau addysgol arbennig a'r rhai sy'n dioddef bwlio sy'n gysylltiedig â chasineb, ynghyd â phrosiect a arweinir gan Internet Matters i roi gwybod am achosion o fwlio ar-lein. Mae'r prosiect a arweinir gan y Cynghrair Gwrthfwlio yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â bwlio sy'n gysylltiedig ag anghenion ac anabledau addysgol arbennig. Mae'n cynnwys hyfforddiant wyneb yn wyneb i athrawon ynghyd â llinellau cymorth a gwybodaeth ar-lein i rieni.

Ym mis Rhagfyr 2017, cyhoeddodd **5Rights** ei adroddiad '**Digital Childhood**' sy'n ymdrin â cherrig milltir datblygiad plentyn yn yr amgylchedd digidol. Mae'r papur yn disgrifio naratif plant a'r amgylchedd digidol ac yn diffinio eu hanghenion fel cyfres o gyfleoedd a gofynion sy'n cyd-fynd â'u hoedran ac yn diwallu eu nodau datblygu.

Gall ysgolion helpu i atal seiberfwlio drwy addysgu eu disgyblion am ffyrdd derbynol o ymddwyn ar-lein. Mae'r Adran Addysg yn gweithio i gyflawni'r ymrwymiad yn y maniffesto i *“educate today’s young people in the harms of the Internet and how best to combat them, introducing comprehensive RSE in all primary and secondary schools to ensure that children learn about the risks of the Internet, including cyberbullying and online grooming”*, gan ystyried yr ymatebion o'r cais am dystiolaeth ynglŷn ag Addysg Perthnasoedd, Addysg Perthnasoedd a Rhyw ac Addysg Bersonol, Cymdeithasol ac Iechyd, a gyhoeddwyd yn ddiweddar.

Ym mis Rhagfyr 2017, cyhoeddodd **Brook** (elusen iechyd a lles rhywiol pobl ifanc) a'r Ganolfan Camfanteisio ar Blant a'u Hamddiffyn Ar-lein o fewn yr Asiantaeth Troseddau Cenedlaethol (CEOP), '**Digital Romance**' - sef adroddiad a edrychodd ar y ffordd y mae pobl yn defnyddio technolegau digidol yn eu perthnasoedd carwriaethol. Mae'r ymchwil yn darparu gwybodaeth am y ffordd y mae pobl ifanc yn defnyddio technoleg i gyfarfod â phartneriaid newydd, cyfathrebu o fewn perthnasoedd a dod â pherthnasoedd i ben, yn ogystal â'r manteision a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r dechnoleg, yn eu barn nhw - sy'n aml yn wahanol iawn i dybiaethau gweithwyr proffesiynol a rhieni/gofalwyr.

Rydym hefyd yn gweithio i nodi'r ffordd orau y gallwn helpu ysgolion i greu awyrgylch o barch, a fydd yn lleihau ymddygiad bwlio all-lein ac ar-lein. Bydd y gwaith hwn yn helpu ysgolion i gyflawni eu holl ddyletswyddau presennol o ran cydraddoldeb, ymddygiad, bwlio a diogelu mewn ffordd sy'n lleihau'r beichiau arnynt.

## *Plant mewn angen, plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal*

Tynnodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad a gafwyd gan y Comisiynydd Plant, Childnet International a Guardian Saints at anghenion penodol plant sy'n derbyn gofal a'r angen i gefnogi'r rhai sy'n gofalu amdanynt. Mae gwaith ymchwil Swyddfa'r Comisiynydd Plant yn pwysleisio pa mor bwysig ydyw bod pob person ifanc sy'n byw o dan ofal y wladwriaeth, yn ogystal â chael cyfle i fanteisio ar y Rhyngrwyd, yn cael ei gadw'n ddiogel rhag niwed ar-lein.

Mae'r Llywodraeth yn glir y dylai gofalwyr maeth gael yr hyfforddiant a'r cymorth sydd eu hangen arnynt i ddiwallu anghenion y plant y maent yn gofalu amdanynt ac adlewyrchir hyn yn y fframwaith statudol. Ar hyn o bryd, mae pob gofalwr maeth cyn cymeradwyo yn cwblhau hyfforddiant 'Sgiliau i Faethu' ac mae pob rhiant maeth yn cwblhau'r Safonau Hyfforddi, Cefnogi a Datblygu o fewn 12 mis o gael ei gymeradwyo fel rhiant maeth.

Yr asiantaeth faethu sy'n cefnogi'r gofalwr maeth sy'n gyfrifol am ddarparu hyfforddiant. Gwyddom fod nifer fawr o gyrsiau hyfforddi arbenigol ar ddiogelwch ar y rhyngrwyd ar gael i rieni maeth. Mae rhai asiantaethau wedi datblygu polisïau, sy'n sicrhau bod gan bob person ifanc fynediad i'r Rhyngrwyd, ac sy'n hyrwyddo'r defnydd cadarnhaol o gyfryngau cymdeithasol, er enghraifft, i gadw mewn cysylltiad â ffrindiau a theuluoedd biolegol a chadw'n ddiogel ar-lein.

Gwnaeth yr adolygiadau diweddar o ofal maeth (a gynhaliwyd gan Syr Martin Narey a Mark Owers, a'r Pwyllgor Dethol ar Addysg) nifer o argymhellion mewn perthynas â chefnogi rhieni maeth ac mae'r Adran Addysg yn ystyried hyfforddiant fel rhan o'r pecyn ehangach o gymorth i ofalwyr. Bydd yr Adran Addysg hefyd yn ystyried p'un a oes angen mwy o gysondeb o ran y ffordd y mae asiantaethau yn mynd ati i hyfforddi gofalwyr maeth er mwyn helpu i baratoi a diogelu'r bobl ifanc yn eu gofal pan fyddant ar-lein.

Cyhoeddodd yr Adran Addysg Safonau Ansawdd ar gyfer Cartrefi Plant yn 2015. Mae'r canllaw i'r safonau hyn yn nodi: "Children should have access to a computer and the Internet to support their education and learning, unless there are specific safeguarding reasons why this would be inappropriate. In such cases, the home should consider whether and how it can support the child to access a computer and the Internet safely."

Disgwyliwn i bob darparwr ystyried y Safonau Ansawdd wrth gynllunio a darparu gwasanaethau – maent yn gosod meincnod ar gyfer arolygiadau Ofsted. Mae'r Adran Addysg yn ystyried p'un a fyddai Safonau Ansawdd tebyg yn fuddiol mewn gwasanaethau maethu.

Er bod y rhan fwyaf o'r rhai sy'n gadael gofal dros 18 oed ac yn oedolion yn ôl y gyfraith, rydym yn cydnabod y byddant yn parhau i fod yn agored i amrywiaeth o risgiau diogelu, gan gynnwys risgiau sy'n gysylltiedig â'r cyfryngau cymdeithasol. Yn wahanol i blant sy'n derbyn gofal, nid oes gan y rhai sy'n gadael gofal weithiwr cymdeithasol na phrif ofalwr dynodedig, am fod y rhan fwyaf o'r rhai sy'n gadael gofal yn byw'n annibynnol neu mewn rhyw fath o lety lled-annibynnol. Fodd bynnag, mae'r rhai sy'n gadael gofal yn cael cymorth gan Gynghorydd Personol, sy'n gyfrifol am helpu'r person ifanc i drosglwyddo o ofal i fyw'n annibynnol.

Yn dilyn newidiadau a gyflwynwyd drwy Ddeddf Plant a Gwaith Cymdeithasol 2017, bydd cymorth Cynghorydd Personol bellach ar gael i bob unigolyn sy'n gadael gofal hyd at 25 oed. O ganlyniad i hyn, a newidiadau diweddar eraill, bydd yr Adran Addysg yn diweddarau'r canllawiau statudol sy'n nodi'r cymorth y mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ei roi i'r rhai sy'n gadael gofal a bydd yn manteisio ar y cyfle hwn i gynnwys canllawiau i Gynghorwyr Personol ar sut y gallant helpu'r rhai sy'n gadael gofal i gadw'n ddiogel ar-lein.

## *Cymorth i rieni*

Ym mis Ionawr 2018, cyhoeddodd **Internet Matters 'Parenting Digital Natives: Concerns and Solutions'**. Mae'r adroddiad yn rhoi syniad inni am ganfyddiadau rhieni plant 4-16 oed o fywydau digidol eu plant a'r pryderon sydd ganddynt ynghylch risgiau ar-

lein. Gofynnodd yr ymchwili i 2000 o rieni beth sy'n achosi'r pryder mwyaf iddynt a nododd fod dau fath o bryder. Roedd y pryderon sefydledig ynghylch cynnwys, ymddygiad a chyswllt ar-lein yn dal i fod ym mlaen meddyliau rhieni ac maent hefyd yn pryderu fwyfwy ynghylch dylanwad posibl flogwyr. Bydd Internet Matters yn cyhoeddi ymchwili newydd ar flogio a ffrydio'n fyw ym mis Mehefin.

Drwy ei wefan, [internetmatters.org](http://internetmatters.org), mae Internet Matters yn darparu gwybodaeth a chynghor i rieni er mwyn eu helpu i gadw eu plant yn ddiogel ar-lein. O'r rhieni a arolygwyd, dywedodd 88% y byddent yn argymhell yr adnodd i eraill ac roedd 84% yn fwy parod i drafod pryderon yn y dyfodol â'u plant.

Fel y nodir yn y Papur Gwyrdd, rydym yn dal i fod yn ymrwymedig i sicrhau bod gan rieni y wybodaeth sydd ei hangen arnynt er mwyn helpu i atal niwed ar-lein yn y dyfodol a byddwn yn ceisio darparu'r wybodaeth hon gan ddefnyddio amrywiaeth eang o ddulliau.

Nododd rhieni a gwblhaodd ein harolwg ar-lein yr hoffent gael rhagor o wybodaeth am ddiogelwch ar-lein ar gyfer meysydd datgelu data personol, effeithiau ar iechyd meddwl, seiberfwlio, meddwl yn feirniadol a dichell/twyll ar-lein. Byddwn yn gweithio gydag elusennau diogelwch ar-lein er mwyn sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael yn hawdd.

Mae gan adrannau ym mhob rhan o'r Llywodraeth gysylltiadau cryf ag elusennau a mentrau diogelwch ar-lein sy'n cefnogi pobl ifanc ar-lein a'u rhieni. Bydd yr Adran Addysg yn rhannu negeseuon sy'n ymwneud â diogelwch ar-lein drwy raglenni allgymorth rhieni a hyrwyddwyr cymunedol. Byddwn yn parhau i hyrwyddo'r deunyddiau sydd ar gael a chomisiynu UKCIS i nodi unrhyw fylchau mewn adnoddau er mwyn inni allu eu llenwi.

Mae **Parent Info** ([www.parentinfo.org](http://www.parentinfo.org)) yn wefan i rieni, sy'n ymdrin â phob un o'r problemau a waethygir gan y Rhyngwrwd. Mae ei swyddogaeth ffrwd newyddion yn galluogi ysgolion a sefydliadau sy'n canolbwyntio ar y teulu i gyhoeddi a rhannu cynghor a gwybodaeth drwy eu gwefannau eu hunain.

Y nod yw atal; drwy baratoi rhieni i ymdrin â materion sensitif yn effeithiol, gall Parent Info feithrin eu hyder yn eu sgiliau rianta digidol a gwneud penderfyniadau hyddysg ynghylch mynd i'r afael â'r risgiau y mae eu plant yn eu hwynebu. Hyd yma, mae Parent Info wedi comisiynu cynnwys gan fwy na 40 o sefydliadau sy'n arbenigo mewn pynciau megis rhyw, perthnasoedd, diogelwch ar-lein, delwedd y corff, pwysau gan gyfoedion, radicaleiddio, eithafiaeth ac iechyd meddwl.

Ers mis Gorffennaf 2015, mae mwy na 4,500 o ysgolion a sefydliadau wedi cofrestru â Parent Info, gan eu galluogi i integreiddio'r cynnwys hwn yn eu gwefannau a'u llwyfannau cyfathrebu presennol, a hyrwyddo erthyglau i'r rhieni a'r gofalwyr a gefnogir ganddynt mewn ffordd amserol a sensitif.

Mae Parent Info yn gydweithrediad rhwng Canolfan Camfanteisio ar Blant a'u Hamddiffyn

Ar-lein yr Asiantaeth Troseddau Cenedlaethol (CEOP) a Parent Zone, sef y prif ddarparwr gwybodaeth, hyfforddiant a chymorth, sy'n gwneud i'r Rhyngwyd weithio i deuluoedd.

Rhwng mis Ebrill 2017 a mis Ebrill 2018, cafodd y wefan 502,217 o ymwelwyr - sef cynnydd o 14% o gymharu â'r un cyfnod yn 2016/17.

Rydym hefyd yn sicrhau bod cwmnïau technoleg yn parhau i gefnogi rhieni drwy ddatblygu atebion technegol i niwed ar-lein. Yn ystod y misoedd diwethaf, mae sawl cwmni cydnabyddedig wedi lansio cynhyrchion newydd ar gyfer marchnad y DU. Er enghraifft, yn ddiweddar lansiodd Google ei ap 'Family Link'. Mae'r ap yn galluogi rhieni i greu a rheoli cyfrifon Google i blant dan 13 oed ac yn cynnig adnoddau a gwybodaeth, gan gynnwys manylion ynglŷn â pha apiau y mae eu plentyn yn eu defnyddio a'r gallu i gymeradwyo lawrlwythiadau.

Mae **Microsoft Family Account** yn wasanaeth am ddim sy'n cadw plant yn fwy diogel pan fyddant yn defnyddio cynhyrchion a gwasanaethau Microsoft. Mae'r gwasanaeth yn galluogi rhieni i drefnu amser wrth y sgrin ar gyfer eu plant, penderfynu pa ddeunyddiau y gallant eu gweld ar apiau, gemau a'r we ac yn darparu adroddiadau e-bost wythnosol ar weithgarwch eu plant ar-lein. Yn ogystal â hyn, mae peiriant chwilio Microsoft Bling yn cynnig gosodiad SafeSearch i rieni, sy'n cadw gwefannau sy'n cynnwys cynnwys rhywiol amlwg allan o'r peiriant chwilio drwy osod yr hidlydd ar 'strict', 'moderate' neu 'off'.

## *lechyd meddwl*

Roedd y Papur Gwyrdd ar iechyd meddwl plant a phobl ifanc,<sup>17</sup> a gyhoeddwyd ar y cyd gan DHSC a'r Adran Addysg ym mis Rhagfyr 2017, yn cynnwys tri chynig allweddol ar gyfer gwella cysylltiadau rhwng gwasanaethau iechyd meddwl ac ysgolion. Y cynigion yw:

- creu Timau Cymorth Iechyd Meddwl newydd, sy'n cefnogi plant a phobl ifanc mewn ysgolion a cholegau neu'n agos atynt;
- cynnig cymhellion i ysgolion nodi a hyfforddi Uwch Arweinydd Dynodedig ar gyfer iechyd meddwl; a
- treialu safon amser aros o bedair wythnos ar gyfer mynediad i wasanaethau iechyd meddwl y GIG ar gyfer pobl ifanc.

Daeth yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyrdd i ben ar 2 Mawrth 2018 a chafodd fwy na 2,500 o ymatebion. Mae'r ymatebion yn cael eu dadansoddi ar hyn o bryd a chyhoeddir ymateb i'r ymgynghoriad, a fydd yn rhoi manylion pellach am y ffordd y caiff y cynigion eu rhoi ar waith, maes o law.

<sup>17</sup> DHSC a DfE, 'Transforming children and young people's mental health provision: a green paper' (Rhagfyr 2017) <https://www.gov.uk/government/consultations/transforming-children-and-young-peoples-mental-health-provision-a-green-paper>

Er mwyn ategu'r tri phrif gynnig, roedd y Papur Gwyrdd hefyd yn cynnwys rhagor o weithgareddau i ddiwallu anghenion iechyd meddwl ehangach plant a phobl ifanc, gan gynnwys gweithgareddau a oedd yn ymwneud â'r cyfryngau cymdeithasol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc.

Yn 2017, cynhaliodd **Twitter** weithdy er mwyn nodi ymgyrchoedd arloesol a all fanteisio i'r eithaf ar y llwyfan er mwyn mynd i'r afael â phroblemau iechyd meddwl. Pan fo'r ymgyrchoedd hyn yn barod i'w lansio mae rhaglen AdsForGood Twitter yn rhoi credydau hysbysebu pro-bono i'r sefydliadau er mwyn iddynt brofi eu syniadau.

Er mwyn trafod y materion sy'n ymwneud â'r cyfryngau cymdeithasol ac iechyd meddwl a mynd i'r afael â nhw, trefnodd DCMS a DHSC gyfres o gyfarfodydd bord gron â gweithgor o'r prif gwmnïau cyfryngau cymdeithasol a thechnoleg (gan gynnwys Google, Facebook, Twitter, Oath, Microsoft, Apple a Snap Inc). Trafododd y cyfarfodydd hyn ddiogelwch plant a phobl ifanc ar-lein, gan ganolbwyntio'n benodol ar yr effaith y mae cynnyrch cyfryngau cymdeithasol yn ei chael ar iechyd meddwl plant. Canolbwyntiodd y gwaith ar themâu cadarnhau oedran, amser wrth y sgrin a seiberfwlio/cynnwys niweidiol.

Mae'r Llywodraeth yn croesawu'r cyfraniad y mae'r cwmnïau wedi'i wneud at y fforwm hwn, gan gynnwys y llythyron a ysgrifennodd y cwmnïau at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn dilyn cyfarfodydd y gweithgor. Fodd bynnag, er bod rhai cwmnïau yn cymryd camau i fynd i'r afael â rhai o'r materion pwysig hyn, rydym yn glir bod camau pellach y gallent eu cymryd yn y maes hwn.

Felly, bydd yr Adran Addysg yn parhau i weithio gyda DHSC er mwyn datblygu hyn, fel rhan o'n Strategaeth Diogelwch Ar y Rhyngwrwd.

Yn gysylltiedig â mater treulio cyfnodau hir o amser ar-lein ac er mwyn meithrin gwell dealltwriaeth o'r gydberthynas rhwng cyfryngau cymdeithasol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc hyd at 25 oed, bydd y Prif Swyddog Meddygol yn arwain adolygiad systematig o'r holl ymchwil ryngwladol berthnasol yn y maes hwn. Bydd yr adolygiad yn llywio adroddiad yn y maes hwn, y disgwylir iddo gael ei gyhoeddi y flwyddyn nesaf.

Mae **Bwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain (BBFC)** yn ystyried materion iechyd meddwl sy'n ymwneud â phobl ifanc a phobl sy'n agored i niwed yn ei benderfyniadau dosbarthu ar draws gwefannau a deunydd clyweledol arall. Mae BBFC yn defnyddio cyngor arbenigol er mwyn gwneud hyn, er enghraifft drwy gynnal cydberthynas agos â'r Samariaid ac arbenigwyr eraill ym maes atal hunanladdiad mewn perthynas â pholisi dosbarthu ar faterion sy'n ymwneud â hunanladdiad. Yn ogystal â hyn, mae BBFC wedi comisiynu gwaith ymchwil i lywio ei bolisi dosbarthu, gan gynnwys ymchwil i effeithiau posibl dangos trais rhywiol, rhywioliedig a sadistaidd mewn ffilmiau a fideos.

Mae BBFC a'r rheoleiddiwr Iseldiraidd, NICAM, wedi datblygu 'You Rate It' ('YouRi') er mwyn darparu dosbarthiadau oedran ar gyfer cynnwys a gynhyrchir (UGC) gan

ddefnyddwyr, er mwyn cydnabod y ffaith ei fod yn dod yn ffynhonnell fwyfwy pwysig o gynnwys ar-lein. Mae YouRi yn adnodd sy'n darparu dosbarthiadau oedran ar gyfer cynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr sydd ar gael ar wasanaethau llwyfannau rhannu fideos ar-lein ac mae ar ffurf holiadur syml, y bwriedir iddo gael ei gwblhau gan y rhai sy'n lanlwytho fideos ar lwyfan, gan y dorf, neu gan y ddau. Cafodd yr adnodd ei dreialu gan y wefan Eidalaid [16mm.it](http://16mm.it) gyda chanlyniadau calonogol: cafodd 81% o'r holl fideos a oedd ar gael ar y wefan ddosbarthiad yn ystod y cyfnod peilot. Mae YouRateIt ar gael i lwyfannau fideos a chyfryngau cymdeithasol fel rhan o'u cymysgedd o gydymffurfiaeth cynnwys a labeli oedran ac mae BBFC a NICAM yn gobeithio dod o hyd i bartner arall yn 2018, yn ddelfrydol yn y DU neu Ewrop gyfandirol, er mwyn cynnal treial ar raddfa fwy.



## 5. Gwaith ehangach

Mae gwaith y Llywodraeth ar ddiogelwch ar y rhyngryd yn cynnwys gweithgareddau gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid ac yn defnyddio arbenigedd o nifer o wahanol adrannau. Rydym yn parhau i hyrwyddo dull cydweithredol a chysylltiedig drwy ffurfio partneriaeth â chwmnïau technoleg, elusennau, cymdeithas sifil, academïau a grwpiau ymchwil eraill er mwyn nodi'r ffyrdd mwy effeithiol o fynd i'r afael â newid ar-lein. Daw'r gwaith hwn o fan fantell y Siarter Digidol sy'n ein galluogi i wneud y cysylltiadau strategol rhwng polisïau a sicrhau y cânt yr effaith fwyaf posibl.

### *Gwybodaeth gamarweiniol*

Mae Llywodraeth y DU yn cymryd mater gwybodaeth gamarweiniol, neu 'newyddion ffug', o ddifrif. Mae gwybodaeth gamarweiniol yn golygu creu a rhannu gwybodaeth y gwyddys ei bod yn anwir yn fwriadol. Gall y cymhellion dros greu neu rannu deunydd o'r fath fod yn rhai masnachol, ideolegol neu wleidyddol - gan gynnwys er mwyn helpu i gyflawni amcanion domestig neu geo-strategol.

Dangosodd arolwg o 1,684 o oedolion dros 18 oed ym Mhrydain, a gynhaliwyd gan YouGov ym mis Ionawr 2017 ar gyfer Channel 4, mai pobl ifanc sy'n pryderu fwyaf ynghylch newyddion ffug, gyda 57% o bobl 18-34 oed yn nodi eu bod yn pryderu ynghylch newyddion ffug - o gymharu â 49% o oedolion yn y DU. Nododd yr arolwg hefyd, yn ymarferol, fod pobl yn ei chael hi'n anodd gwahaniaethu rhwng newyddion ffug a straeon newyddion go iawn. Pan ddangoswyd chwe stori newyddion unigol, yr oedd tair ohonynt yn wir a thair ohonynt yn ffug, o'r rhai a arolygwyd, dim ond 4% a lwyddodd i adnabod pob un o'r straeon gwir a phob un o'r straeon ffug. At hynny, er bod hanner (49%) yr ymatebwyr i'r arolwg wedi nodi eu bod naill ai'n hyderus iawn neu'n eithaf hyderus y gallent wahaniaethu rhwng stori newyddion ffug a stori newyddion go iawn, roedd hanner y grŵp hwn yn credu o leiaf un o'r straeon newyddion ffug a ddangoswyd.

Mae ein democratiaeth yn seiliedig ar ymddiriedaeth mewn prosesau etholiadol; hyder mewn sefydliadau cyhoeddus; cyfryngau rhydd, agored a hygyrch; a fforymau rhydd ac agored y gellir ymddiried ynddynt sy'n ei gwneud yn bosibl i wahanol leisiau gyfrannu at y drafodaeth gyhoeddus. Mae'r gwerthoedd a'r egwyddorion hyn yn sail i enw da a dylanwad y DU yn fyd-eang. Ond efallai y bydd eraill yn ceisio camdefnyddio'r agweddau craidd hyn ar ein democratiaeth er mwyn defnyddio a drysu'r amgylchedd gwybodaeth i ddiwallu eu hanghenion eu hunain a thanseilio ymddiriedaeth.

Lansiwyd **gwefan 'Own It' y BBC** ar Ddiwrnod Rhyngryd Diogelach eleni a'i nod yw helpu pobl ifanc 9-12 oed i gael y budd mwyaf posibl o'u hamser ar-lein. Drwy ddarparu gwybodaeth am ddiogelwch ar-lein, mae'r wefan yn helpu plant i gymryd eu camau cyntaf ar-lein.

O fis Mawrth 2018, bydd y BBC yn cynnig adnoddau i bob ysgol uwchradd ledled y DU fynd i'r afael â'r cynnydd mewn 'newyddion ffug'. Bydd y cynllun yn adeiladu ar rwydweithiau sefydledig 'School Report' a chynigir gwasanaeth mentora yn y dosbarth ac ar-lein i fwy na 1,000 o ysgolion, er mwyn sicrhau bod gan blant y wybodaeth a'r adnoddau sydd eu hangen arnynt i wahaniaethu rhwng newyddiaduraeth gyfrifol a newyddion ffug.

Er bod systemau cadarn ar waith i fynd i'r afael â lledaenu gwybodaeth gamarweiniol yn y diwydiant darlledu a'r wasg, credwn fod angen gwneud mwy o waith - yn enwedig mewn perthynas â gwybodaeth sydd ar gael ar-lein. Rydym yn canolbwyntio ar bedwar maes allweddol, sef:

- Mwy o ymchwil er mwyn meithrin gwell dealltwriaeth o'r broblem;
- Addysg ac arweiniad er mwyn sicrhau bod gan bobl y sgiliau sydd eu hangen arnynt i wahaniaethu rhwng ffeithiau a newyddion ffug;
- Datblygu atebion technolegol gyda phartneriaid yn y diwydiant, gan gynnwys adolygu ymatebion algorithmig;
- Ystyried p'un a oes gennym y gyfundrefn reoleiddio gywir ar waith.

Mae'r gwaith hwn yn rhan o'r Siarter Ddigidol, sydd â'r nod o sicrhau mai'r DU yw'r lle mwyaf diogel yn y byd i fod ar-lein. Byddwn yn mabwysiadu dull cydweithredol i gyflawni'r nod hwn ac rydym wrthi'n ymgysylltu â phartneriaid yn y diwydiant er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn. Ym mis Mawrth 2018, cynhaliodd DCMS a Demos ar y cyd weithdy gydag academyddion, y cyfryngau a chynrychiolwyr o'r sector technoleg. Trafododd y gweithdy hwn ffyrdd posibl o ddefnyddio technoleg megis dadansoddi testun a dysgu peiriant i adnabod gwybodaeth gamarweiniol ar-lein. Yn y dyfodol, byddwn yn parhau i weithio gyda'r diwydiant, cymdeithas sifil a phartneriaid rhyngwladol er mwyn mynd i'r afael â'r broblem hon.

## *Y Ganolfan Moeseg Data ac Arloesi*

Mae datblygiadau o ran y ffordd rydym yn defnyddio data yn trawsnewid ein bywydau yn sylweddol ac mewn ffyrdd annisgwyl. Gallai'r datblygiadau hyn gael effeithiau cadarnhaol iawn, ond mae heriau moesegol newydd ac anghyfarwydd yn gysylltiedig â nhw hefyd. Gall algorithmau fwyfwy soffistigedig gasglu gwybodaeth bwerus, y gellir ei defnyddio, yn ei thro, mewn ffyrdd sy'n dylanwadu ar y penderfyniadau a wnawn neu'n eu llywio hyd yn oed, neu sy'n targedu'r gwasanaethau neu'r adnoddau a gawn mewn ffyrdd a all fod yn annheg neu'n wahaniaethol. Mae defnyddio data yn y cyd-destunau hyn yn codi cwestiynau sylfaenol i gymdeithas am atebolrwydd, tryloywder ac, yn y pen draw, faint o reolaeth sydd gennym dros y penderfyniadau sy'n llywio ein bywydau.

Er mwyn sicrhau y gallwn gael y budd mwyaf posibl o'r defnyddiau newydd hyn o ddata a lleihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â nhw, mae angen cyfundrefn lywodraethu arnom a all roi eglurder a hyder i ddinasyddion a busnesau fel ei gilydd. I'r perwyl hwn, mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i sefydlu Canolfan Moeseg Data ac Arloesi. Gan weithio mewn deialog â'r diwydiant, y byd academiaidd, cymdeithas sifil a'r cyhoedd, bydd y Ganolfan yn rhoi cyngor i'r

Llywodraeth a rheoleiddwyr ar y mesurau sydd eu hangen er mwyn sicrhau y caiff data eu defnyddio mewn ffordd ddiogel, foesegol ac arloesol a'i gwneud yn bosibl i hynny ddigwydd.

## Marchnadoedd digidol

Mae'r oes ddigidol wedi trawsnewid y ffordd y mae defnyddwyr yn rhyngweithio â busnesau. Mae hwn yn chwyldro o ran dewis, cyfleustra a fforddiadwyedd – erbyn hyn mae gan bobl fynediad i farchnad nwyddau a gwasanaethau fyd-eang drwy glicio botwm. Mae hyn wedi cynyddu cystadleuaeth mewn llawer o farchnadoedd, yn ogystal â chynnig gwobrwyon sylweddol am arloesi ac entrepreneuriaeth.

Mae natur marchnadoedd digidol yn golygu bod cryn dipyn o ddata am ddefnyddwyr ar gael i gwmnïau, sy'n eu galluogi i wasanaethau defnyddwyr mewn ffyrdd soffistigedig iawn. Rydym am sicrhau bod y marchnadoedd hyn yn gweithio i bawb – i ddefnyddwyr, busnesau a chymdeithas yn gyffredinol. Rydym am sicrhau bod marchnadoedd y dyfodol wedi'u cynllunio i annog cystadlu ac arloesi ac, ar yr un pryd, sicrhau y caiff defnyddwyr eu trin yn deg, y caiff eu data eu dal yn ddiogel a'u defnyddio'n briodol ac y caiff eu preifatrwydd ei barchu.

Rydym yn ymgynghori ar y materion hyn drwy Bapur Gwyrdd y Defnyddwyr fel rhan o waith ehangach i sicrhau bod ein hamgylchedd rheoleiddiol yn cyfrif am y cyfleoedd a'r heriau sy'n gysylltiedig ag economi gynyddol ddigidol.

## Hysbysebu ar-lein

Mae hysbysebu ar-lein yn rhan hanfodol o'r economi ddigidol - mae'n ffynhonnell bwysig o refeniw ar gyfer llwyfannau technoleg a chrewyr cynnwys mawr (gan gynnwys y cyfryngau a'r diwydiannau creadigol). Ac mae'n effeithio ar gymdeithas yn ehangach, er enghraifft pan gaiff ei ddefnyddio i ddylanwadu ar farn wleidyddol.

Mae nifer o wahaniaethau rhwng hysbysebu ar-lein a'i ragflaenwyr traddodiadol. Yn bwysicaf oll, defnyddir data personol mewn ffyrdd mwyfwy soffistigedig i dargedu hysbysebion at ddemograffeg benodol iawn.

Mae'r **Awdurdod Safonau Hysbysebu** yn rheoleiddio cyfryngau ar-lein yn ogystal â chyfryngau traddodiadol. Mae ei gylch gwaith a'i godau wedi datblygu er mwyn ystyried technolegau sy'n newid a llwyfannau newydd sydd wedi rhoi ffyrdd newydd o hyrwyddo eu cynnyrch a'u gwasanaethau i hysbysebwr. Er enghraifft, mae wedi cadarnhau cwynion ynghylch Alpro (UK) Ltd lle nad oedd yn amlwg bod Trydariat o gyfrif Twitter y cyflwynydd teledu AJ Odudu, a oedd yn hyrwyddo un o gynhyrchion Alpro, mewn gwirionedd yn hysbyseb, a Diamond Whites lle yr hysbysebodd y seren teledu realiti, Marnie Simpson gynyrrch gwynnu dannedd i'w dilynwyr ar Snapchat heb amlygu'r ffaith ei bod yn hysbyseb.

At hynny, mae'r Pwyllgor Arfer Hysbysebu hefyd wedi cyhoeddi canllawiau newydd sy'n ymwneud yn benodol â hysbysebion i blant a hysbysebion â chyfyngiad oedran ar-lein. Mae'r canllawiau hyn yn nodi y dylai hysbysebwr ddefnyddio amrywiaeth o ffactorau targedu diddordeb i ategu data oedran hunangofnodedig a mynd i'r afael â rhai o'r diffygion sy'n gysylltiedig â data o'r fath. Drwy wneud hynny, mae hysbysebwr cynnyrch â chyfyngiad oedran mewn sefyllfa well i gyrraedd eu cynulleidfa darged, wrth eithrio plant a phobl ifanc sy'n destun mesurau diogelwch penodol o dan reolau presennol.

Fel rhan o raglen waith y Siarter Ddigidol, bydd y Llywodraeth yn gweithio gyda rheoleiddwyr, llwyfannau a chwmnïau hysbysebu er mwyn sicrhau bod yr egwyddorion sy'n rheoli hysbysebu mewn cyfryngau traddodiadol - megis atal cwmnïau rhag targedu hysbysebion anaddas at blant - hefyd yn gymwys ac yn cael eu gorfodi ar-lein.<sup>18</sup> Rydym hefyd yn gwneud gwaith pellach er mwyn deall yr effeithiau y gall hysbysebion wedi'u targedu eu cael ar unigolion a chymdeithas yn gyffredinol.

Mae'r diwydiant hysbysebu yn helpu i ariannu **Media Smart**, sef sefydliad nid er elw sy'n llunio deunyddiau addysgol am ddim i ysgolion a sefydliadau ieuencid, athrawon, rhieni a gwarcheidwaid, er mwyn helpu pobl ifanc i werthuso'r hysbysebion y dônt ar eu traws yn eu bywyd bob dydd. Ymhlith y 22 o bartneriaid ategol mae Facebook, Google/YouTube, Sky, Viacom, ITV a Channel 4. Ers iddi gael ei hail-lansio yn 2015, mae'r rhaglen wedi canolbwyntio'n gryf ar adeiladu cadernid digidol ymhlith plant a phobl ifanc 7-16 oed drwy lunio adnoddau cyfryngau cymdeithasol ac adnoddau digidol sy'n eu helpu i ddeall y gwahanol ddulliau a ddefnyddir i hysbysebu cynnyrch a gwasanaethau ar-lein. Mae gwaith diweddar gyda Swyddfa Cydraddoldebau'r Llywodraeth, Cymdeithas Addysg Bersonol, Cymdeithasol ac Iechyd, yr NSPCC a Childline wedi mynd â hyn gam ymhellach drwy edrych ar y ffordd y mae'r cynnwys y mae pobl ifanc yn ei weld ar-lein yn effeithio ar ddelwedd eu corff. Mae ymgyrch fwyaf diweddar Media Smart, sef y 'Boys' Biggest Conversation', yn canolbwyntio ar ddynion ifanc, delwedd eu corff a'r effaith a gaiff ar eu lles meddyliol. Mae adnoddau Media Smart wedi'i lawrlwytho 30,000 o weithiau ers 2015, ac mae adnoddau ar ladrad digidol sydd i'w cyhoeddi yn y dyfodol wrthi'n cael eu trafod.

Yn ystod y misoedd diwethaf, rydym wedi gweld hysbysebwr yn tynnu'n ôl o lwyfannau y maent o'r farn nad ydynt yn diogelu eu brand yn ddigonol pan fydd y llwyfannau hyn yn gosod hysbysebion wrth ochr cynnwys niweidiol. Gobeithio y bydd y cam hwn a gymerwyd gan hysbysebwr yn annog llwyfannau i ymgorffori ystyriaethau diogelwch ar bob lefel o'u busnes. Byddwn yn edrych ar ffyrdd y gallwn annog llwyfannau i roi sicrwydd priodol i'r busnesau sy'n hysbysebu gyda nhw, gan ddechrau gyda chyfres o gyfarfodydd bord gron ar lefel DCMS â brandiau mawr er mwyn nodi'r ffordd orau o ddatblygu'r gwaith hwn.

Mae'r diwydiant wedi datblygu menter hunanreoleiddiol i'r diwydiant cyfan, sef y **Grŵp**

<sup>18</sup> Mae'r Gymdeithas Hysbysebu wedi cyhoeddi'r cynigion dilynol ynglŷn â gwaith y Llywodraeth o dan y Siarter Ddigidol: [https://www.adassoc.org.uk/wp-content/uploads/2017/12/AA\\_Digital\\_Charter\\_2017\\_SinglePages\\_15.11.17.pdf](https://www.adassoc.org.uk/wp-content/uploads/2017/12/AA_Digital_Charter_2017_SinglePages_15.11.17.pdf)

**Safonau Masnach Digidol (DTSG)** a lywodraethir gan Gydbwyllgor y Diwydiant ar Safonau'r We yn y DU ac Iwerddon (JICWEBS). Mae'r DTSG wedi datblygu adnoddau er mwyn sicrhau tryloywder a galluogi prynwyr i reoli ymgyrchoedd yn weithredol a lleihau'r risg y caiff hysbyseb ei gosod yn y lle anghywir ac wedi cyhoeddi egwyddorion arfer da ar gyfer pob model busnes sy'n ymwneud â phrynu, gwerthu a hwyluso hysbysebion a arddangosir yn ddigidol. Ar hyn o bryd mae mwy na 60 o lofnodwyr sy'n cwmpasu cyfran sylweddol o'r farchnad. Er mwyn lleihau'r risg y bydd hysbysebion yn ariannu cynnwys sy'n torri hawliau eiddo deallusol, er enghraifft, mae'r diwydiant wedi gweithio gydag Uned Troseddau Eiddo Deallusol Heddlu Llundain (PIPCU) i ddatblygu'r 'Infringing Website List' (IWL), sy'n gweithredu fel 'rhestr ddu' o wefannau y mae'r Heddlu wedi cadarnhau eu bod yn torri hawlfraint, a'i rhoi ar waith. Mae'r rhestr hon yn galluogi'r diwydiant i darfu ar y referniw y mae gwefannau o'r fath yn ei gael o hysbysebion. Mae'r DTSG yn darparu fframwaith ar gyfer yr IWL i'w ddefnyddio gan y diwydiant.

## *Adolygiad Comisiwn y Gyfraith*

Ym mis Chwefror 2018, cadarnhaodd Prif Weinidog y DU y câi adolygiad gan Gomisiwn y Gyfraith o negeseuon difriol ar-lein ei lansio. Gan nad oedd llwyfannau cyfryngau cymdeithasol yn bodoli pan gafodd llawer o'r deddfau perthnasol eu pasio, mae'n bwysig adolygu'r gyfraith bresennol er mwyn sicrhau bod cyfraith trosedd yn parhau i fod yn addas at y diben wrth ymdrin â throseddau.

Cynhelir yr adolygiad mewn dwy ran a bydd y naill a'r llall yn para chwe mis. Dechreuodd y rhan gyntaf ym mis Ebrill 2018 a bydd angen i Gomisiwn y Gyfraith ddadansoddi'r fframwaith o ddeddfwriaeth ynglŷn â negeseuon difriol fel y bo'n gymwys i gyfathrebu ar-lein. Bydd ei adroddiad yn nodi effaith unrhyw ddiffygion a nodwyd yn y fframwaith cyfreithiol cyfredol. Mae hyn yn cynnwys asesu p'un a yw'r gyfraith bresennol yn effeithiol wrth sicrhau bod yr hyn sy'n anghyfreithlon all-lein hefyd yn anghyfreithlon ar-lein. Bydd yr adolygiad yn ystyried yr holl waith sy'n cael ei wneud ym mhob rhan o'r Llywodraeth mewn perthynas â'r pwnc hwn. Yn benodol, bydd yn adeiladu ar fentrau'r Swyddfa Gartref sy'n ymwneud â throseddau casineb ar-lein a gwaith Swyddfa Cydraddoldebau'r Llywodraeth ym maes casineb at wragedd ar-lein.

Ym mis Awst 2017, cyhoeddodd **Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS)** ddatganiadau cyhoeddus diwygiedig ar bob llinyn o droseddau casineb, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus llawn a barodd 13 wythnos, ochr yn ochr â chanllawiau cyfreithiol diwygiedig ar droseddau casineb. Mae'r CPS yn ymrwymedig i drin troseddau ar-lein yn yr un modd â throseddau all-lein. Mae hefyd wedi cyhoeddi canllawiau ar erlyn achosion sy'n ymwneud â negeseuon a anfonir gan ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a diwygiwyd y canllawiau hyn ym mis Hydref 2016 yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus.

Ar hyn o bryd mae'r CPS yn diwygio ei ganllawiau cyfreithiol a'i ddatganiad cyhoeddus ar Droseddau yn erbyn Pobl Hŷn ac yn gweithio gyda'r Swyddfa Gartref ar hyn.

## *Adroddiad y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus ar ymddygiad bygythiol mewn bywyd cyhoeddus*

Ym mis Rhagfyr, cyhoeddodd y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus ei adroddiad ar ymddygiad bygythiol mewn bywyd cyhoeddus.<sup>19</sup> Tynnodd yr adroddiad sylw at y gamdriniaeth y gall ymgeiswyr seneddol ei phrofi ar-lein a'r effaith andwyol y gall hyn ei chael ar ein democratiaeth ryddfrydol.

Croesawodd Prif Weinidog y DU argymhellion y Pwyllgor ac mae'r Llywodraeth wedi nodi sut y bydd yn gweithredu arnynt.

Mae DCMS ac adrannau eraill o'r Llywodraeth yn datblygu gwaith sy'n ymwneud â diogelwch ar y rhyngrwyd a'r camau gweithredu ar gyfer cwmnïau cyfryngau cymdeithasol gan gynnwys:

- Meddwl yn ofalus am ba lefel o atebolrwydd cyfreithiol a ddylai fod gan gwmnïau cyfryngau cymdeithasol am gynnwys ar eu gwefannau;
- Cyflwyno cod ymarfer ac adroddiadau tryloywder ar gyfer cyfryngau cymdeithasol;
- Sicrhau bod cwmnïau cyfryngau cymdeithasol yn cynnig cymorth penodol yn ystod ymgyrchoedd etholiadol er mwyn sicrhau y gellir ymdrin â chynnwys camdriniol yn gyflym a'u bod yn rhoi cyngor ac arweiniad i ymgeiswyr Seneddol ar sut i gadw'n ddiogel ar-lein.

Rydym yn cynnal trafodaethau rheolaidd â chwmnïau technoleg ynghylch datblygu'r mentrau hyn ac rydym yn ddiolchgar i Facebook, Google a Twitter am eu cyfraniad hyd yma. Rydym yn glir bod yn rhaid i lwyfannau cyfryngau cymdeithasol gymryd camau yn erbyn cynnwys neu ymddygiad sy'n cynnwys cam-drin ymgeiswyr seneddol a/neu dorri cyfraith etholiadol. Yn ystodau cyfnodau etholiadol, mae'n arbennig o bwysig bod achosion o gam-drin y rhoddir gwybod amdanynt yn cael eu hadolygu'n gyflym. Ceir rhagor o wybodaeth am y cymorth a fydd ar gael i ymgeiswyr seneddol cyn etholiadau yn y dyfodol yn ein Papur Gwyn.

Nododd ymateb y Llywodraeth i adroddiad y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus hefyd nifer o gamau gweithredu eraill mewn perthynas ag ymddygiad bygythiol mewn bywyd cyhoeddus, gan gynnwys:

- Ymgynghori ynghylch y posibilrwydd o gyflwyno trosedd newydd o dan gyfraith etholiadol, sef bygwth ymgeiswyr Seneddol ac ymgyrchwyr pleidiau. Bydd y Llywodraeth yn lansio ymgynghoriad yn yr haf.
- Dileu'r gofyniad i gyfeiriadau cartref ymgeiswyr mewn etholiadau cynghorau lleol gael eu cyhoeddi ar y papur pleidleisio. Bydd y Llywodraeth yn ceisio cyflwyno is-ddeddfwriaeth pan fydd yn gyfleus gwneud hynny.
- Ymgysylltu rhyngwladol - mae'r Llywodraeth yn parhau i weithio gyda phartneriaid rhyngwladol er mwyn mynd i'r afael â throseddau casineb ar-lein.

---

<sup>19</sup> <https://www.gov.uk/government/publications/intimidation-in-public-life-a-review-by-the-committee-on-standards-in-public-life>

- Mae'r Coleg Plismona yn darparu hyfforddiant sy'n dwyn y teitl Ymchwilio Adnabod Orlhain Unigolion a Ddrwgdybir Electronig, sy'n galluogi swyddogion i gasglu gwybodaeth a chudd-wybodaeth yn ddiogel ac yn gyfreithlon ar y Rhyngrywyd ac orlhain ac adnabod unigolion a ddrwgdybir ar-lein. Bydd Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu yn parhau i weithio gyda'r Coleg Plismona er mwyn sicrhau bod cyd-destun y cwrs yn gyfredol, yn unol â datblygiadau technolegol.
- Mae'r Coleg Plismona wedi ymrwymo i adolygu Arfer Proffesiynol Awdurdodedig ar gyfer etholiadau, drwy ei grŵp camymddwyn etholiadol, er mwyn sicrhau ei fod yn gyfredol ac yn pennu safon glir ar gyfer swyddogion yr heddlu sy'n adlewyrchu'r cyd-destun modern, gan gynnwys troseddau sy'n ymwneud ag ymddygiad bygythiol a'r rhai a gyflawnir gan ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol.
- Mae arweinwyr yr heddlu yn gweithio er mwyn sicrhau bod cyngor clir ar gael i ymgeiswyr Seneddol. Mae Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu wedi penodi arweinydd ar gyfer Etholiadau sy'n sicrhau y caiff cyngor ei rannu ymhlith ASau ac ymgeiswyr Seneddol ac sy'n ymgysylltu â Phencadlysoedd Pleidiau.

## *Bil Diogelu Data*

Cyflwynwyd y Bil Diogelu Data gerbron y Senedd ym mis Medi 2017.<sup>20</sup> Bydd yn gwneud y canlynol:

- Sicrhau bod ein deddfau diogelu data yn addas ar gyfer yr oes ddigidol lle mae mwy a mwy o ddata yn cael eu prosesu;
- Grymuso pobl i reoli eu data;
- Cynorthwyo busnesau a sefydliadau yn y DU drwy'r newid;
- Sicrhau bod y DU yn barod ar gyfer y dyfodol ar ôl inni adael yr UE.

Ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol, bydd y Bil yn diddymu Deddf Diogelu Data 1998 ac, yn ei lle, bydd yn cyflwyno deddf newydd sy'n darparu fframwaith cynhwysfawr a modern ar gyfer diogelu data yn y DU, gyda chosbau llymach am gamymddwyn. Bydd yn pennu safonau newydd ar gyfer diogelu data cyffredinol, yn unol â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR), gan roi mwy o reolaeth i bobl dros y defnydd a wneir o'u data a rhoi hawliau newydd iddynt symud neu ddileu data personol. At hynny, bydd yn cadw esemptiadau penodol presennol sydd wedi gweithio'n dda yn Neddf 1998, gan eu trosglwyddo i'r ddeddf newydd er mwyn sicrhau y gall busnesau a sefydliadau yn y DU barhau i gynnal gwaith ymchwil, gwasanaethau ariannol, newyddiaduraeth a gwasanaethau cyfreithiol o'r radd flaenaf. Bydd hefyd yn darparu fframwaith pwrpasol wedi'i deilwra at anghenion ein hasiantaethau cyfiawnder troseddol a'r gwasanaethau cudd-wybodaeth, er mwyn diogelu hawliau dioddefwyr, tystion ac unigolion a ddrwgdybir wrth sicrhau y gallwn fynd i'r afael â natur newidiol y bygythiadau byd-eang y mae'r DU yn eu hwynebu.

Mae'r Bil yn pennu'r oedran pan nad oes angen cael caniatâd rhieni i brosesu data ar-lein mwyach ar 13 oed, sy'n adlewyrchu barn y Llywodraeth bod llwyfannau ar-lein yn cynnig cyfleoedd a manteision sylweddol i blant. Fodd bynnag, mae'r Bil hefyd yn cydnabod bod angen mesurau diogelwch ychwanegol ar blant mewn perthynas â'u data ar-lein a dyna pam

<sup>20</sup> <https://services.parliament.uk/bills/2017-19/dataprotection.html>

rydym hefyd wedi cyflwyno gofyniad newydd i'r Comisiynydd Gwybodaeth Iunio cod dylunio sy'n addas i'r oedran statudol ar gyfer gwasanaethau ar-lein sy'n debygol o gael eu defnyddio gan blant. Bydd y cod hwn yn helpu i sicrhau y gall plant yn y DU ddefnyddio gwasanaethau ar-lein mewn ffordd sy'n diwallu eu hanghenion o ran oedran a datblygiad. Bydd yn sicrhau bod gwefannau a chymwysiaid yn cael eu llunio mewn ffordd sy'n nodi'n glir pa ddata sy'n cael eu casglu ar blant, sut mae'r data hyn yn cael eu defnyddio a sut y gall plant a rhieni gadw rheolaeth dros y data hyn. Bydd y cod hefyd yn cynnwys gofynion ar gyfer gwefannau a llunwyr apiau mewn perthynas â phreifatrwydd ar gyfer plant.

Wrth ddatblygu'r cod, bydd y Comisiynydd Gwybodaeth yn ymgynghori ag amrywiaeth eang o randdeiliaid gan gynnwys plant, rhieni, eiriolwyr plant, arbenigwyr ym maes datblygiad plant yn ogystal â chymdeithasau masnach. Rhaid i'r Comisiynydd hefyd ystyried rhwymedigaethau'r DU o dan Gonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a rhaid iddo dalu sylw agos i'r ffaith bod gan blant wahanol anghenion ar wahanol oeddrannau. Rydym yn ymgynghori'n agos â'r Comisiynydd, yn ogystal â'r Farwnes Kidron sydd wedi chwarae rhan allweddol yn y gwaith o ddatblygu'r cod, er mwyn sicrhau bod y cod hwn yn gadarn ac yn ymarferol a'i fod yn diwallu anghenion plant o ran casglu, rhannu a storio eu data a'u troi'n nwydd. Bydd yn ofynnol i'r Comisiynydd gwblhau'r cod o fewn 18 mis ar ôl i'r Bil ddod i rym.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd hawliau a lles plant wrth iddynt chwilio'r rhyngwyd a'u hanghenion penodol. Cyhoeddodd **5Rights** adroddiad yn ddiweddar, sef '**Digital childhood: addressing childhood development milestones in the digital environment**' sy'n ystyried sut mae tyfu i fyny yn yr amgylchedd digidol yn effeithio'n uniongyrchol ar ddatblygiad plentyn.<sup>21</sup>

## *Gemau fideo ar-lein*

Nododd Papur Gwyrdd y Strategaeth Diogelwch ar y Rhyngwyd y broses reoleiddio statudol ar gyfer gemau fideo a gyflenwir mewn fformatau ffisegol – y systemau dosbarthu (dosbarthiadau oedran Gwybodaeth am Gemau Pan-Ewropeaidd (PEGI)) a labelu a'r cyfyngiadau ar werthu sy'n gymwys o dan Ddeddf Recordiau Fideo 1984. Nododd hefyd y dull hunanreoleiddio a fabwysiadwyd gan y diwydiant ar gyfer gemau ar-lein, mewn perthynas â darparu rheolaethau rheini ar ddyfeisiau, cynnig cyngor ar chwarae gemau'n ddiogel i ddefnyddwyr, yn enwedig y rhai sy'n gofalu am blant a chyflwyno menter y Cynghrair Dosbarthiadau Oedran Rhyngwladol (IARC) sy'n sicrhau bod dosbarthiadau oedran PEGI wedi'u rhoi i apiau a gemau sydd ar gael o lawer o flaenau siopau ar-lein a symudol.

Ymatebodd Adloniant Rhyngweithiol y DU (Ukie), sef y corff masnach ar gyfer y diwydiant gemau ac adloniant rhyngweithiol yn y DU, i'n hymgynghoriad gan nodi'r camau y mae'r

<sup>21</sup> <https://d1qmdf3vop2l07.cloudfront.net/eggplant-cherry.cloudvent.net/compressed/01972a9579924cbba7943c849bf159b3.pdf>



diwydiant eisoes yn eu cymryd i wella diogelwch. Rydym yn gweithio gyda'r diwydiant gemau fideo wrth iddo geisio gwella'r hyn a gynigir ganddo o ran diogelwch yn barhaus, gan gynnwys:

- Ail-lansio a diweddarau adnodd AskAboutGames, y bartneriaeth rhwng y Cyngor Safonau Fideo (VSC) ac Ukie.<sup>22</sup> Yn ystod tri mis cyntaf 2018, cafodd y wefan wedi'i hail-lansio 43,000 o ymweliadau.
- Ymrwymiad gan y diwydiant i: gynyddu ymwybyddiaeth o Fwrdd Dosbarthu VSC a'i rôl fel y corff dynodedig ar gyfer dosbarthu gemau fideo yn y DU o dan system PEGI; creu mwy o gynnwys, deunydd hyrwyddo a gwe-draffig cysylltiedig â dosbarthiadau oedran; sicrhau mwy o ymgysylltu ag ysgolion a sefydliadau partner; trefnu manau penodol lle y darperir gwybodaeth am ddiogelwch ar-lein mewn sioeau gemau cenedlaethol; sefydlu mwy o stondinau codi mewn siopau, ymgyrchoedd cymdeithasol a chynnwys wedi'i hyrwyddo sy'n ymwneud ag AskAboutGames.
- Ailwampio gwefan Bwrdd Dosbarthu VSC, gan gynnwys gwell gwybodaeth am gemau a'u dosbarthiadau PEGI, gyda'r nodau o gysylltu'r wefan hon â gwefannau manwerthwyr gemau mawr a datblygu ap i ddefnyddwyr.
- Sicrhau bod Nintendo, Microsoft a Sony yn parhau i ddatblygu'r rheolaethau rhieni ar gonsolau eu gemau, er enghraifft mae nodweddion mwy diweddar yn cynnwys sicrhau bod rhieni yn gallu trefnu amser chwarae a chyfyngu arno a chael crynodebau wythnosol o weithgarwch.
- Trafodaethau parhaus a arweinir gan y diwydiant ynghylch tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg, problemau ac arfer gorau wrth nodi ymddygiad mewn gemau ar-lein sy'n achosi pryder ac ymdrin ag ef. Mae trafodaethau hefyd wedi cynnwys ystyried ymateb y diwydiant i benderfyniad Sefydliad Iechyd y Byd i restru "anhwylder chwarae gemau" fel cyflwr iechyd, o bosibl.
- Hyrwyddo ystyried diogelwch chwaraewyr wrth lunio gemau a datblygu busnesau, i'r rhai sy'n gweithio gyda busnesau gemau fideo newydd ac unigolion talentog sy'n datblygu gemau newydd. Er enghraifft, mae DCMS yn gweithio gyda Chronfa Gemau'r DU er mwyn sicrhau bod rhannu gwybodaeth berthnasol yn rhan o'r cymorth y mae'n ei roi i'w chymuned o fusnesau a graddedigion datblygu gemau ar gam cynnar.<sup>23</sup>
- Ystyried sut y gellir defnyddio cynnwys rhyngweithiol i gael effaith gadarnhaol ar broblemau cymdeithasol megis teimlo'n unig a sut y gall feithrin hyder a helpu i wella llythrennedd digidol. Er enghraifft, mentrau megis y 'Digital School House'.<sup>24</sup>

<sup>22</sup> <http://www.askaboutgames.com/>

<sup>23</sup> <https://ukgamesfund.com/>

<sup>24</sup> <http://www.digitalschoolhouse.org.uk/>

Yn y misoedd i ddod, Byddwn yn gweithio gydag Ukie ac yn defnyddio arbenigedd aelodau eraill o UKCCIS i wneud y canlynol:

- Mynd i'r afael â phroblemau parhaus megis rhywiaeth a meithrin ein dealltwriaeth a'r ffordd fwyaf effeithiol o fynd i'r afael â'r broblem hon.
- Ystyried materion sy'n dod i'r amlwg sy'n ymwneud â realiti estynedig a mathau newydd eraill o gemau;
- Ystyried y dystiolaeth am y ffordd y gall cynnwys rhyngweithiol hyrwyddo lles a chadernid.

### **Astudiaeth achos Runescape**

*“Mae Jagex yn geffyl blaen yn y sector o ran mentrau diogelwch ar-lein. Mae ei ymrwymiad i ddiogelwch ei gymuned chwarae gemau yn amlwg. Mae'n gweithredu portffolio mor fawr o nodweddion diogelwch fel ein bod wedi gofyn i Jagex siarad ag aelodau eraill o IWF er mwyn rhannu ei wybodaeth yn y maes hwn” - IWF*

Cydnabyddir cwmni gemau Jagex, a leolir yng Nghaergrawnt, gan IWF am nodweddion diogelwch ei Gêm Chwarae Rôl Ar-lein Aml-Chwaraewr hynod boblogaidd, Runescape. Mae gan Runescape 250 miliwn o gyfrifon chwaraewr ledled y byd a mwy na 2 filiwn o ddefnyddwyr misol. Mae tua thraen o'r rhain yn y DU. Er mwyn diogelu chwaraewyr Runescape, mae Jagex wedi datblygu dull gweithredu sy'n cynnwys isafswm oedran gofynnol, system monitro yn ystod gemau sy'n cynnig cymorth byw 24 awr i gwsmeriaid, gweithdrefnau cadarn ar gyfer nodi mathau penodol o ymddygiad, rhoi gwybod amdanynt a'u huwchgyfeirio a nifer o sancsiynau. Ymhlith y sefydliadau y mae'n gweithio gyda nhw mae IWF, CEOP a heddluoedd lleol.

Rhaid i chwaraewyr fod yn 13 oed o leiaf. Er mwyn cael mynediad i'r gêm mae angen ateb cwestiwn am eich dyddiad geni a chrëir rhwystrau eraill gan yr angen i gofrestru gan ddefnyddio cerdyn credyd er mwyn manteisio'n llawn ar nodweddion y gêm. Mae Jagex yn monitro sgwrsio yn ystod gemau er mwyn nodi chwaraewyr a all fod yn rhy ifanc i chwarae. Dros flwyddyn mae hyn yn cyfateb i tua 4.8 biliwn o linellau o sgwrsio. At hynny, mae meddalwedd berchenogol yn monitro i weld a oes unrhyw ymddygiad anarferol neu unrhyw eiriau neu ymadroddion sy'n amhriodol neu sy'n peri gofid. Mae tîm gwasanaethau cwsmeriaid yn gweithredu 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn ac mae grŵp gwirfoddol o chwaraewyr Runescape sydd â hanes o gyflwyno adroddiadau cywir mewn modd cyfrifol yn gweithredu fel cymedrolwyr gemau byw ychwanegol. Ymhlith y mathau o ymddygiad a gaiff eu huwchgyfeirio drwy'r broses gymedroli ac yr ymdrinnir â nhw mae: iaith casineb, bwlio neu aflonyddu, sgamio, gwefannau amhriodol, trafod gwyredd rhywiol, iaith y bwriedir iddi dramgwyddo pobl neu drolio, trafod cyffuriau hamdden a gweithgarwch terfysgol eithafol posibl.

Defnyddir geiriau allweddol IWF a gwybodaeth hanesyddol Jagex hefyd i sganio adroddiadau i weld a oes unrhyw gynnwys sy'n codi pryderon ynghylch perygl i fywyd - er enghraifft lle mae'r rhain yn ymwneud â hunanladdiad, hunan-niwed, perygl gwirioneddol i fywyd neu iselder. Ymdrinnir ag achosion o'r fath yn gyflym a chânt eu huwchgyfeirio at

asiantaethau gorfodi'r gyfraith neu gyrff eraill lle y bo angen. Caiff pob sgwrs ei hadolygu er mwyn nodi ymddygiad risg uchel sy'n ymwneud ag achosion posibl o gam-drin plant a bydd Jagex yn uwchgyfeirio unrhyw fater os bydd o'r farn bod risg sy'n gysylltiedig, er enghraifft, â sgysiau rhywiol am blant dan oed, ymddygiad sy'n gyfystyr â meithrin perthynas amhriodol â phlentyn neu drafodaeth ynghylch cyfryngau cam-drin plant neu ddsbarthu cyfryngau o'r fath.

Yn ogystal â rhoi gwybod i asiantaethau gorfodi'r gyfraith am achosion difrifol, mae sancsiynau yn erbyn chwaraewyr sy'n ymddwyn yn amhriodol wrth chwarae Runescape yn gynnwys atal eu swyddogaeth sgwrsio dros dro, cloi eu cyfrifon, atal eu IP ar gyfer mynediad cyfredol a mynediad yn y dyfodol neu waharddiad llwyr.

Wedi 17 flynedd o weithredu yn y farchnad gemau ar-lein, mae Jagex yn ymwybodol o ochr negyddol ymddygiad ar y rhyngrwyd ac mae'n credu bod ganddo gyfrifoldeb i'w chwaraewyr i nodi unrhyw ymddygiad niweidiol gan leiafrif bach a mynd i'r afael ag ef.

## *Gamblo ar-lein*

Cododd ymatebion i'n hymgyngoriad nifer o bryderon ynghylch gamblo a materion cysylltiedig, gan gynnwys gemau dull gamblo y gellir eu chwarae am ddim, gemau neu apiau a all hyrwyddo ymddygiad tebyg i gamblo, gamblo 'skins'<sup>25</sup> a hysbysebion ar gyfryngau cymdeithasol.

Yn ddiweddar cyhoeddodd y Llywodraeth yr adolygiad o beiriannau hapchwarae a mesurau cyfrifoldeb cymdeithasol ym mhob rhan o'r diwydiant gamblo.<sup>26</sup> Roedd hyn yn cynnwys mesurau y bwriedir iddynt atgyfnerthu mesurau diogelu chwaraewyr sy'n ymwneud â chynhyrchion a hysbysebion gamblo ar-lein.

Mae mesurau diogelu cadarn eisoes ar waith er mwyn atal plant dan oed rhag gamblo a diogelu pobl sy'n agored i niwed rhag niwed sy'n gysylltiedig â gamblo. Mae'n ofynnol i bob cwmni gamblo ar-lein â chwsmeriaid yn y DU, waeth ble maent wedi'u lleoli, gael trwydded gan y Comisiwn Gamblo a rhaid iddo gydymffurfio ag amodau'r drwydded a'r codau ymarfer a bennwyd gan y Comisiwn.

Ym mis Mawrth 2018, cyhoeddodd y Comisiwn Gamblo gynigion newydd i wneud gamblo ar-lein yn fwy diogel.<sup>27</sup> Mae'r cynigion yn cynnwys cyflymu prosesau cadarnhau oedran a'u gwneud yn fwy effeithiol - fel bod yn rhaid cwblhau'r broses cadarnhau oedran cyn i gwsmer allu adneuo arian a gamblo (yn hytrach nag o fewn cyfnod o 72 awr) - ac atgyfnerthu

<sup>25</sup> Gamblo ar-lein ag eitemau rhithwir sy'n deillio o gemau fideo.

<sup>26</sup> <https://www.gov.uk/government/consultations/consultation-on-proposals-for-changes-to-gaming-machines-and-social-responsibility-measures>

<sup>27</sup> <http://www.gamblingcommission.gov.uk/news-action-and-statistics/news/2018/Gambling-Commission-makes-online-gambling-safer.aspx>

gofynion i ryngweithio â defnyddwyr a all fod yn profi niwed sy'n gysylltiedig â gamblo neu sydd mewn perygl o'i brofi.

Nododd **Adroddiad blynyddol y Comisiwn Gamblo ar Bobl Ifanc a Gamblo**,<sup>28</sup> a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2017, fod lefelau cyfranogiad plant mewn mathau traddodiadol o gamblo yn parhau i ostwng, gyda 12% o bobl ifanc 11-16 oed wedi gamblo yn ystod yr wythnos flaenorol, o gymharu ag 16% yn 2016. Y gweithgareddau mwyaf cyffredin oedd gamblo ar beiriannau ffrwythau (roedd 4% wedi gwario arian arnynt yn ystod yr wythnos flaenorol), betiau preifat â ffrindiau (3%) a chardiau craffu'r Loteri Genedlaethol (3%).

Roedd lefelau cyfranogiad plant mewn gamblo ar-lein yn sefydlog, fwy neu lai, o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Roedd 1% o bobl ifanc 11-16 oed wedi gwario eu harian eu hunain ar gamblo ar-lein dros yr wythnos flaenorol, tra bod 3% o bobl ifanc 11-16 oed wedi gwario eu harian eu hunain ar gamblo ar-lein o leiaf unwaith neu ddwywaith y flwyddyn (o gymharu â 3% yn y flwyddyn flaenorol). Roedd cyfran fawr (7%) wedi gamblo ar-lein gan ddefnyddio cyfrifon eu rhieni (gyda'u caniatâd neu hebdo) - y math mwyaf cyffredin oedd gemau'r Loteri Genedlaethol (5%).

Mae'r codau ymarfer hysbysebu yn gymwys i bob llwyfan hysbysebu, gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol ac ar-lein, a'u nod yw sicrhau nad yw hysbysebion gamblo wedi'u targedu at blant na phobl ifanc ac nad yw'n camfanteisio ar bobl sy'n agored i niwed.<sup>29</sup> Ystyriwyd hysbysebion gamblo fel rhan o'r Adolygiad o Gamblo, a chyflwynwyd pecyn o fesurau y bwriedir iddynt atgyfnerthu mesurau diogelu sy'n ymwneud â hysbysebu, gan gynnwys ar-lein ac ar y cyfryngau cymdeithasol.

Fel rhan o hyn, ymgynghorodd y Comisiwn Gamblo<sup>30</sup> ynghylch cynigion i atgyfnerthu'r gofynion ar gyfer marchnata a hysbysebu cynhyrchion a gwasanaethau gamblo, gan gynnwys sancsiynau llymach am dorri Cod Hysbysebion nas Darlledir a Marchnata Uniongyrchol a Hyrwyddol y DU (cod CAP) a Chod Hysbysebion a Ddarlledir y DU (cod BCAP), a'r gofyniad i weithredwyr beidio â chysylltu â defnyddwyr gyda deunydd e-farchnata uniongyrchol heb eu caniatâd.

Bydd y Comisiwn yn parhau â'i waith i annog cwmnïau cyfryngau cymdeithasol i ddatblygu canllawiau hawdd eu deall a fydd yn esbonio sut y gall defnyddwyr, drwy ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael ar y llwyfannau, gyfyngu ar eu hamlygiad i hysbysebion gamblo.

Mae DCMS, fel yr adran sy'n gyfrifol am yr agenda ddigidol ac ar-lein, yn cydnabod y rôl bwysig y mae'n ei chwarae wrth gyfuno gwaith o bob rhan o'r Llywodraeth â mentrau'r diwydiant. Bydd y Gweinidog dros Chwaraeon a Chymdeithas Sifil yn cydgadeirio cyfarfod

<sup>28</sup> <http://www.gamblingcommission.gov.uk/PDF/survey-data/Young-People-and-Gambling-2017-Report.pdf>

<sup>29</sup> Gellir gweld y codau hysbysebu sy'n cwmpasu hysbysebion gamblo nas darlledir yn [https://www.asa.org.uk/type/non\\_broadcast/code\\_section/16.html](https://www.asa.org.uk/type/non_broadcast/code_section/16.html)

<sup>30</sup> <http://www.gamblingcommission.gov.uk/news-action-and-statistics/Consultations/Closed-consultations-awaiting-response/Proposed-changes-to-LCCP-fair-and-open.aspx>

bord gron â'r Gweinidog dros Faterion Digidol a'r Diwydiannau Creadigol, er mwyn dwyn rhanddeiliaid o'r sector gamblo a'r sector technoleg ynghyd a symud tuag at gyflwyno arfer gorau yn ehangach. Bydd hyn yn cynnwys helpu i feithrin dealltwriaeth o weithgarwch hysbysebu a marchnata ar-lein ac arfer gorau sy'n gysylltiedig ag ef.

Mae gemau ar-lein yn debyg i gemau gamblo go iawn ond gellir eu chwarae am ddim ac nid ydynt yn cynnig unrhyw wobrau, sy'n golygu nad ydynt yn gynhyrchion gamblo. Ym mis Mawrth 2018, cyhoeddodd y Comisiwn Gamblo gynigion i atgyfnerthu'r mesurau diogelu sydd ar waith drwy wahardd gweithredwyr gamblo rhag darparu gemau sy'n debyg i gamblo y gellir eu chwarae am ddim nes i oedran defnyddiwr gael ei gadarnhau.

O ran gamblo 'skins' didrwydded,<sup>31</sup> mae'r Comisiwn Gamblo wedi dangos y bydd yn cymryd camau ac yn erlyn gamblo didrwydded ag eitemau o fewn gemau.<sup>32</sup> Yn ogystal â defnyddio ei bwerau gorfodi yn erbyn y gwefannau hyn, mae'r Comisiwn yn ceisio gweithio gyda'r diwydiant gemau fideo i ddatblygu dull o godi ymwybyddiaeth ar y cyd ac ystyried atebion i'r broblem hon.

Nodwn bryderon y gallai cynhyrchion adloniant, megis rhai gemau fideo, annog ymddygiad tebyg i gamblo a byddwn yn parhau i edrych yn ofalus ar unrhyw dystiolaeth ynglŷn â'r mater hwn. Mae'r microdraffodion o fewn apiau a gemau fideo yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth diogelu, gan gynnwys gofynion ar fusnesau i beidio â gorfodi unrhyw un i fod yn destun arferion marchnata camarweiniol nac ymosodol. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, anogaeth uniongyrchol i brynu cynhyrchion, megis cynnwys o fewn gêm neu o fewn ap.

Mae disgrifyddion cynnwys pictograffig yn ategu dosbarthiadau oedran PEGI ar gemau fideo ac mae disgrifydd ar gyfer cynhyrchion sy'n cynnwys elfennau a all annog pobl i gamblo. Mae gan gemau â'r math hwn o gynnwys ddsbarth oedran 12, 16 neu 18 o dan PEGI. Mae Bwrdd Dosbarthu VSC yn gweithio gyda PEGI er mwyn asesu camau pellach i roi gwybod i ddefnyddwyr am brynu cynhyrchion o fewn gemau.

At hynny, mae'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd yn rhoi arweiniad<sup>33</sup> a chynghor i rieni a gofawyr, mewn perthynas â defnydd o gemau ar-lein. Mae'r cynghor yn cynnwys gwybodaeth am gadarnhau bod gosodiadau dyfeisiau yn atal plant rhag prynu cynhyrchion o fewn gemau, yn ogystal â chanllawiau ar ddisgrifyddion gemau.

## Llyfrgelloedd

Mae llyfrgelloedd yn cynnig ffynhonnell wybodaeth ddibynadwy, ar-lein ac all-lein, i lawer o bobl. Mae'r sector, yn ei hanfod, yn un amrywiol ei natur gyda phob llyfrgell yn rhydd i

<sup>31</sup> Mae 'skins' yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio gamblo ar-lein lle y defnyddir eitemau rhithwir o gemau fideo fel arian betio neu wobrau. Fel arfer cynigir y math hwn o gamblo gan wefannau trydydd parti yn groes i delerau ac amodau'r llwyfannau gemau fideo y mae'r eitemau rhithwir yn deillio ohonynt.

<sup>32</sup> <http://www.gamblingcommission.gov.uk/news-action-and-statistics/news/2017/Two-men-convicted-after-offering-illegal-gambling-parasitic-upon-popular-FIFA-computer-game.aspx>

<sup>33</sup> <https://www.gov.uk/government/publications/buying-features-in-online-games-advice-for-parents-and-carers/childrens-app-and-online-games-advice-for-parents-and-carers>

ddatblygu ei gynnig ei hun. Ymatebodd sawl llyfrgell a sefydliad llyfrgellwyr i'r ymgynghoriad ar y Strategaeth Diogelwch ar y Rhyngwyd. Nododd yr ymatebion lefel uchel o weithgarwch yn y maes hwn gyda llyfrgellwyr yn awyddus i uwchsgilio mewn amrywiaeth o feysydd digidol a meysydd diogelwch ar-lein.

Rydym yn gweithio gyda Chymdeithas y Prif Lyfrgellwyr a Chymdeithas yr Uwch Lyfrgellwyr Plant ac Addysg er mwyn ystyried y posibilrwydd o rannu arfer gorau a'r ffordd y caiff diogelwch ar-lein ei integreiddio yn y canlynol:

- Addysgu plant/gofalwyr, oedolion a phlant a phobl ifanc;
- Hyfforddiant i staff llyfrgelloedd;
- Cynnyrch a gwasanaethau llyfrgell sy'n bodoli eisoes;
- Gwaith newydd pwrpasol.

Ym mis Hydref 2017, lansiodd **Cymdeithas y Prif Lyfrgellwyr** y gyntaf mewn cyfres o sioeau teithio dysgu i deuluoedd a digidol. Cynlluniwyd y sesiynau gyda chymorth grŵp o unigolion a oedd â diddordeb mawr yn y maes digidol o bob rhan o'r wlad a wirfoddolodd. Roedd pob digwyddiad yn cynnwys dau weithdy Dysgu i Deuluoedd (a ganolbwyntiodd ar becyn gweithgareddau a phecyn cymorth gwerthuso newydd), ynghyd ag arddangosiadau ymarferol o'r dechnoleg ddiweddaraf wedi'u hanelu at staff rheng flaen a allai – gydag ychydig o hyfforddiant – gynnal digwyddiadau blasu digidol yn eu hardaloedd eu hunain. Nododd gwerthusiad yn dilyn y sioeau teithio fod 87% o'r 200 a mwy o gynadleddwyr wedi dweud bod y gweithdai digidol yn 'ddefnyddiol iawn', gydag 82% yn dweud eu bod yn mynd i ffordd i ddefnyddio'r adnoddau a'r hyn roeddent wedi'i ddysgu o'r sesiynau digidol o fewn eu gwasanaethau llyfrgell eu hunain (gyda'r gweddill yn dweud eu bod yn bwriadu defnyddio rhywfaint o hyn).

## *Strategaeth Unigrwydd*

Mae mwy na miliwn o bobl yn y DU yn dioddef o unigrwydd ac ynysu cymdeithasol; yn enwedig yr henoed, y rhai ag anableddau, gofalwyr a rhieni ifanc. Gwyddom y gall cymunedau ar-lein gynnig cymorth hanfodol i lawer o grwpiau.

Roedd Comisiwn Jo Cox ar Unigrwydd yn bartneriaeth o 13 o elusennau a busnesau ag arbenigedd, dirnadaeth a'r gallu i gyrraedd rhai o'r cymunedau y mae unigrwydd yn effeithio arnynt fwyaf yn y DU. Ym mis Rhagfyr 2017 cyhoeddodd y Comisiwn adroddiad ar ei ganfyddiadau a'i argymhellion ynglŷn â sut y gall y Llywodraeth a'r gymuned ehangach gyfrannu at fynd i'r afael ag unigrwydd. Derbyniodd y Llywodraeth y rhan fwyaf o'r argymhellion, gan gynnwys penodi Tracey Crouch AS yn arweinydd gweinidogol ar gyfer gwaith trawslywodraethol ar unigrwydd.

Mae DCMS yn cynnal tîm trawslywodraethol, sydd ag amrywiaeth o waith a gynlluniwyd, gan gynnwys datblygu Strategaeth ar unigrwydd yn Lloegr, a gyhoeddir yn ddiweddarach eleni. Bydd hyn yn dwyn ynghyd y Llywodraeth, llywodraeth leol, gwasanaethau cyhoeddus, y sector gwirfoddol a chymunedol a busnesau er mwyn nodi cyfleoedd i fynd i'r afael ag unigrwydd a chreu cymunedau mwy integredig a chydnerth. Byddwn yn sicrhau y caiff

unrhyw gysylltiadau rhwng y Strategaeth Diogelwch ar y Rhyngrwyd ac unigrwydd eu hatgyfnerthu'n briodol.

## *Gwasanaeth Dinasyddion Cenedlaethol*

Bydd y Gwasanaeth Dinasyddion Cenedlaethol (NCS) yn gweithio gyda'r Llywodraeth i rymuso pobl ifanc i gadw'n ddiogel ar-lein. Mae Adroddiad Ieuenctid blynyddol yr NCS yn darparu gwybodaeth werthfawr am y defnydd y mae pobl ifanc yn eu harddegau yn ei wneud o'r rhyngrwyd a'r problemau sy'n gysylltiedig â hyn o safbwynt addysg a diogelwch. Nododd adroddiad 2017 y byddai 46% o'r bobl ifanc yn eu harddegau a arolygwyd a oedd yn lesbaidd, yn hoyw, yn ddeurywiol neu'n drawsrywiol (LGBT) yn mynd i ystafell sgwrsio ar-lein i gael cymorth gydag iechyd meddwl, o gymharu â 18% o'r bobl ifanc yn eu harddegau nad oeddent yn lesbaidd, yn hoyw, yn ddeurywiol nac yn drawsrywiol. Bydd yr NCS yn gweithio gyda'r Llywodraeth a rhanddeiliaid mewn cymdeithas sifil i gyfleu'r wybodaeth hon. Mae'r NCS yn ystyried sut y gellir defnyddio ei "Hwb Cyfleoedd", sydd ar gael i'r 400,000 o raddedigion sy'n dilyn y rhaglen, er mwyn cyfeirio pobl ifanc at gymorth gyda phroblemau, gan gynnwys y rhai a brofir ar-lein. Bydd yr NCS yn ystyried sut y gellir mynd i'r afael â heriau y mae pobl ifanc yn eu hwynebu ar-lein, yn ogystal â'r manteision, drwy ei waith rhaglennol.

## 6. Ymateb y Llywodraeth i niwed ar-lein

### *Swyddfa Cydraddoldebau'r Llywodraeth*

Mae Swyddfa Cydraddoldebau'r Llywodraeth (GEO) yn parhau i gefnogi'r Llinell Gymorth Pornograffi Dial sy'n cynnig cymorth hanfodol i'r rhai y mae'r drosedd hon yn effeithio arnynt. Mae'r llinell gymorth hon wedi cael mwy na 10,000 o alwadau ers iddi agor ym mis Chwefror.

Mae'r GEO hefyd yn datblygu gwaith ar ddelwedd gadarnhaol y corff. Bydd y prosiectau hyn yn adeiladu ar yr ymrwymadau a wnaed mewn ymateb i adroddiad diweddar y Pwyllgor Dethol ar leuentid a nododd y gall treulio mwy o amser ar-lein arwain at fwy o amlygiad i luniau o harddwch anwireddadwy ac afrealistig.<sup>34</sup>

Mae'r GEO hefyd yn datblygu pecyn o waith er mwyn mynd i'r afael â normau rhyw niweidiol a all godi ar-lein ac all-lein. Bydd hyn yn cynnwys gwaith gyda'r diwydiant hysbysebu i annog defnyddio hysbysebion nad ydynt yn cynnwys stereoteipiau.

#### **Ystadegau o Arollygon Agweddau Merched 2016 a 2017 a gynhyrchwyd gan**

##### **Girlguiding:**

- Yn arolwg 2016: dywedodd 25% o'r merched 11-16 oed fod yr ofn y bydd pobl yn beirniadu eu corff yn eu hatal rhag defnyddio cyfryngau cymdeithasol a dywedodd 40% o'r merched 17-21 oed fod ffotograff ohonynt, a oedd yn ddigon i godi embaras arnynt, wedi'i rannu heb eu caniatâd ar-lein.<sup>35</sup>
- Dangosodd arolwg 2017 fod merched 11-16 yn ymagweddu fwyaf at YouTubers ac mai nhw sydd fwyaf tebygol o'u hystyried yn fodolau rôl. Mae'r grŵp hynaf (pobl ifanc 17-21 oed) yn fwy sinigaidd ac yn fwy ymwybodol o frandiau hysbysebu YouTubers neu'r ffaith y gallent gael effaith negyddol, o bosib, ar wylwyr.<sup>36</sup>

### *Y Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol*

#### **Troseddau casineb ac iaith casineb ar-lein**

Mae'r ymatebion i'r arolwg ar gyfer yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyrdd wedi ein helpu i ddeall mwy am gam-drin ar-lein a phwy sy'n cael ei dargedu. Defnyddir yr arolwg a'r

<sup>34</sup> <http://www.byc.org.uk/wp-content/uploads/2018/03/2017-Youth-Select-Committee-Government-Response.pdf>

<sup>35</sup> <https://www.girlguiding.org.uk/globalassets/docs-and-resources/research-and-campaigns/girls-attitudes-survey-2016.pdf>

<sup>36</sup> <https://www.girlguiding.org.uk/globalassets/docs-and-resources/research-and-campaigns/girls-attitudes-survey-2017.pdf>



ymatebion ysgrifenedig er mwyn helpu i lywio'r gwaith o ddiweddarau'r Cynllun Gweithredu ar Droseddau Casineb yn ddiweddarach yn 2018.

Tynnodd ymateb y **Grŵp Hollbleidiol Seneddol yn erbyn Gwrth-Semitiath a'r Ymddiriedolaeth Polisi Gwrth-Semitiath** i'n hymgyngoriad sylw at y gwaith sy'n cael ei wneud yn rhyngwladol er mwyn mynd i'r afael â throseddau casineb, sy'n fater y mae'r DU eisoes wedi chwarae rôl arwain mewn perthynas ag ef. Byddwn yn parhau i gydweithio gyda'r Cynghrair Rhyngseneddol ar gyfer Mynd i'r Afael â Gwrth-Semitiath a Menter Comisiwn yr UE i ddileu iaith casineb anghyfreithlon o fewn 24 awr wrth inni ddatblygu ein gwaith yn y maes hwn.

Ar 8 Hydref 2017, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Cartref y byddai'r Swyddfa Gartref yn rhoi £200,000 ar gyfer canolfan heddlu genedlaethol newydd i fynd i'r afael â bygythiad troseddau casineb ar-lein sy'n dod i'r amlwg. Bydd y ganolfan, a redir drwy True Vision gan Heddlu Manceinion Fwyaf ar ran Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu, yn gweithio er mwyn sicrhau y caiff achosion ar-lein eu rheoli'n fwy effeithiol ac effeithlon. Bydd hefyd yn helpu i roi gwell cymorth i ddioddefwyr a symleiddio'r broses ar gyfer swyddogion rheng flaen. Daeth y ganolfan yn weithredol ym mis Ionawr 2018.

Mae nifer o'r ymatebion ysgrifenedig i'n hymgyngoriad yn cyfeirio at y ganolfan troseddau casineb ar-lein genedlaethol. Rydym yn falch bod cefnogaeth i hyn a byddwn yn sicrhau y caiff adborth ymgynghoreion ei drosglwyddo i dîm canolfan ar-lein yr heddlu.

Mae'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol wedi rhoi £50,000 i Stop Hate UK yn 2017-18 er mwyn helpu i ariannu ei hyfforddiant Gwrth-Naratif i bobl ifanc er mwyn mynd i'r afael â chasineb ar-lein gan gynnwys seminar i nodi arfer gorau. Mae'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol hefyd wedi helpu Cymdeithas y Golygyddion i lunio canllaw i gymedroli cynnwys casineb ar-lein.

## *Y Swyddfa Gartref*

### **Defnydd plant o wefannau caru i oedolion**

Dengys canfyddiadau'r ymgynghoriad fod angen i'r diwydiant gymryd mwy o berchenogaeth o'r gweithgareddau ar eu llwyfannau a gwneud mwy i fynd i'r afael â phroblem plant sy'n defnyddio gwefannau caru i oedolion.

Roedd pryder cyffredinol ynghylch diffyg perchenogaeth gwefannau caru wrth atal unigolion rhag camfanteisio'n rhywiol ar blant, gyda dim ond 27% (100 o ymatebwyr) yn cytuno bod gwefannau caru yn gwneud popeth o fewn eu gallu i atal plant rhag cael eu cam-drin. Dim ond 30% o'r ymatebwyr a oedd o'r farn mai cyfrifoldeb asiantaethau gorfodi'r gyfraith oedd cymedroli'r defnydd o wefannau caru i oedolion gan blant. Roedd 68% o'r ymatebwyr o'r farn y dylai cwmnïau gymedroli'r defnydd o wefannau o'r fath yn well ac roedd 60% o'r ymatebwyr o'r farn ei bod yn briodol iddynt derfynu cyfrifon plant.

Roedd 86% o'r ymatebwyr o'r farn mai rhieni a ddylai fod yn gyfrifol am sicrhau nad oedd eu plant yn cael mynediad i wefannau caru i oedolion.

Nododd 71% o'r ymatebwyr y dylid pennu dosbarthiad oedran gofynnol ar gyfer defnyddwyr gwefannau caru i oedolion a nododd 51% o'r ymatebwyr y dylid pennu'r oedran gofynnol yn 18 oed. Roedd 79% o'r ymatebwyr o'r farn bod y broses cadarnhau oedran yn ddull defnyddiol o atal pobl ifanc rhag defnyddio gwefannau caru i oedolion. Roedd pryder cyffredinol hefyd ynghylch y diffyg cymedroli gan gwmnïau ar hyn o bryd mewn perthynas â phlant sy'n defnyddio eu gwefannau. Gall y defnydd o wefannau caru gan blant dan oed arwain at gamdriniaeth gyswllt ac, felly, mae'n bwysig ein bod yn cymryd camau i fynd i'r afael â hyn. Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr yn awyddus i weld mwy o fuddsoddiad gan gwmnïau caru a defnydd helaethach o dechnoleg newydd i ddiogelu defnyddwyr a chadarnhau manylion personol defnyddwyr.

Bydd y Llywodraeth yn ymgysylltu â gwefannau caru i oedolion, asiantaethau gorfodi'r gyfraith a phartion eraill â diddordeb drwy gynnal trafodaethau bord gron ynghylch y ffordd orau ymlaen. Bydd y Llywodraeth yn gweithio gyda'r diwydiant i ystyried opsiynau gwirfoddol gan gynnwys negeseuon ataliol ar wefannau.

## Twyll

Mae'r Tasglu Twyll ar y Cyd yn gymharol newydd o hyd, ond mae'n gwneud cynnydd da. Dros y 18 mis nesaf, bydd y Tasglu Twyll ar y Cyd yn datblygu ac yn gweithredu strategaethau a fydd, ochr yn ochr â'r Safonau Technegol Rheoleiddiol a bennwyd yn derfynol yn ddiweddar ar lefel yr UE, yn arwain at leihad sylweddol yn nifer yr achosion o dwyll 'lle nad yw'r cerdyn yn bresennol' yn ogystal â gweithio er mwyn sicrhau bod banciau yn mabwysiadu egwyddorion y Cod Ymarfer ar gyfer dioddefwyr camdriniaeth ariannol o ganlyniad i dwyll.

Nododd **Cifas**, sef sefydliad nid er elw sy'n gweithio i atal twyll yn y DU, yn ei ymateb i'n hymgyngoriad fod 88% o ddioddefwyr twyll hunaniaeth y rhoddwyd gwybod i Cifas amdanynt yn ystod 10 mis cyntaf 2017 o dan 65 oed. Tynnodd sylw at y ffaith mai pobl ifanc o dan 21 oed yw'r grŵp oedran sy'n tyfu gyflymaf ar gyfer dioddefwyr twyll hunaniaeth. Byddwn yn ystyried beth arall y gallwn ei wneud er mwyn codi ymwybyddiaeth o faterion sy'n gysylltiedig â thwyll hunaniaeth ymhlith grwpiau oedran iau.

At hynny, ar hyn o bryd mae'r CPS yn diwygio ei ganllawiau cyfreithiol a'i ddatganiad cyhoeddus ar Droseddau yn erbyn Pobl Hŷn ac yn parhau i weithio gyda'r Swyddfa Gartref ar hyn.

## Cam-drin domestig

Ar 8 Mawrth 2018, lansiodd yr Ysgrifennydd Cartref a'r Ysgrifennydd Cyfiawnder yr ymgynghoriad cyhoeddus ar gam-drin domestig. Mae'r ymgynghoriad yn ceisio barn ar fesurau i'w cynnwys mewn Bil Cam-drin Domestig yn y dyfodol, yn ogystal ag opsiynau anneddfwriaethol i godi ymwybyddiaeth, cefnogi dioddefwyr a sicrhau y caiff troseddwyr eu hatal.<sup>37</sup> Bydd yr ymgynghoriad hwn yn meithrin ein dealltwriaeth o fygythiadau ar-lein a rôl technoleg o ran cam-drin pobl, yn ogystal ag ystyried sut y gallwn ddefnyddio technoleg mewn modd arloesol er mwyn mynd i'r afael â cham-drin domestig a rhoi cymorth i ddiodesfwyr.

Mae **CHAYN** yn brosiect ffynhonnell-agored sy'n defnyddio technoleg i rymuso merched i wrthsefyll trais a gorthrwm er mwyn iddynt gall byw bywydau hapusach ac iachach. Dechreuodd Chayn ym mis Mai 2013, pan oedd Hera Hussain am greu llwyfan er mwyn rhoi gwybodaeth i ferched a oedd yn dioddef trais domestig ym Mhacistan. Mae'n dal i gael ei redeg gan wirfoddolwyr ac yn cynnig cyfle i gael deunyddiau am ddim megis "Do it yourself online safety".

Mae'r Gronfa Treth Tamponau wedi rhoi £1.4m i Rape Crisis England and Wales gynnal Prosiect Trawsnewid Digidol ym mhob un o'i 45 o safleoedd i feithrin gallu digidol er mwyn cefnogi goroeswyr trais rhywiol, cyrraedd menywod a merched wedi'u hymyleiddio, gweithio gyda chymunedau er mwyn mynd i'r afael â gweithgarwch meithrin perthynas amhriodol at ddibenion rhyw a chamfanteisio'n rhywiol ar-lein ac atal trais rhywiol.

## Strategaeth Trais Difrifol

Mae'r Strategaeth Trais Difrifol, a gyhoeddwyd ar 9 Ebrill 2018, yn cynnwys ymrwymiad i barhau i weithio gyda'r heddlu er mwyn cefnogi camau gweithredu rhagweithiol i fynd i'r afael â deunydd anghyfreithlon a gyhoeddir a throseddau a gyflawnir ar-lein a chymryd camau yn eu herbyn.<sup>38</sup> Er enghraifft, mae'r Heddlu Metropolitan wedi bod yn arwain camau gweithredu drwy Ymgyrch 'Domain' a ddechreuodd ym mis Medi 2015 er mwyn mynd i'r afael â fideos sy'n gysylltiedig â gangiau sy'n annog trais.

## Y Comisiwn ar gyfer Gwrthsefyll Eithafiaeth

Ym mis Hydref 2015, gwnaethom gyhoeddi'r Strategaeth Gwrtheithafiaeth gyntaf erioed i ddiogelu cymunedau rhag y niwed cymdeithasol a achosir gan eithafiaeth. Mae'r Llywodraeth wedi mabwysiadu dull cynhwysfawr o fynd i'r afael ag ideoleg ddrwg eithafiaeth - p'un a yw'n dreisgar neu'n ddi-drais, yn eithafiaeth Islamaidd neu'n eithafiaeth adain dde bell neu eithafol. Mae i'r Strategaeth Gwrtheithafiaeth bedair colofn, sef: gwrthsefyll ideoleg eithafol yn gadarn – gan wneud yn siŵr bod pob rhan o'r Llywodraeth yn cymryd camau yn ei herbyn; mynd ati i gefnogi lleisiau prif ffrwd - yn enwedig yn ein cymunedau ffydd ac mewn cymdeithas sifil; tarfu ar yr eithafwyr mwyaf niweidiol - gan ddefnyddio'r holl adnoddau sydd

<sup>37</sup> <https://www.gov.uk/government/consultations/domestic-abuse-bill-consultation>

<sup>38</sup> <https://www.gov.uk/government/publications/serious-violence-strategy>

ar gael; a chreu cymunedau mwy cydlynol - drwy fynd i'r afael ag arwahanu a'r ymdeimlad o ddieithrwch a all gynnig tir ffrwythlon i negeseuon eithafwyr.

Ym mis Mawrth 2018, er mwyn dwysáu'r frwydr yn erbyn eithafwyr, lansiodd y Llywodraeth y Comisiwn ar gyfer Gwrthsefyll Eithafiaeth yn ffurfiol a chadarnhaodd mai Ms Sara Khan oedd y Prif Gomisiynydd. Mae gan y Comisiwn gylch gwaith clir i nodi ideoleg eithafol o bob math a mynd i'r afael â hi. Bydd yn gwneud hyn ym mhob rhan o gymdeithas ac ar-lein, gan ddod ag egni newydd a syniadaeth arloesol i'n holl ymdrechion i fynd i'r afael ag eithafiaeth.

## Swyddfa'r Twrnai Cyffredinol

Tua diwedd y llynedd, lansiodd y Twrnai Cyffredinol Gais am Dystiolaeth am effaith y cyfryngau cymdeithasol ar y ffordd y caiff cyfiawnder mewn treialon troseddol ei weinyddu. Mae'r materion a godwyd yn y dystiolaeth a gafwyd yn cael eu hystyried ar hyn o bryd a chyhoeddir ymateb yn ddiweddarach eleni.

Yn gynharach eleni, cyhoeddodd **Doteveryone** ei adroddiad, '**People, power and technology: the 2018 digital attitudes report**'.<sup>39</sup> Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at bryderon nad yw'r Rhyngwyd wedi bod yn fuddiol i gymdeithas yn gyffredinol; bwlch o ran dealltwriaeth o dechnolegau, y ffordd y caiff data eu defnyddio a sut mae cwmnïau yn gwneud arian; a'r galw gan y cyhoedd am fwy o atebolrwydd gan gwmnïau technoleg.

## Ymchwil bellach

Rydym wedi comisiynu asesiad cyflym o dystiolaeth sy'n ystyried pa mor gyffredin yw trolio ar-lein a'i effaith. Cyhoeddir yr adroddiad maes o law, ond mae'r canfyddiadau cychwynnol yn nodi bod angen gwneud mwy o ymchwil er mwyn meithrin dealltwriaeth gliriach o beth yw trolio, sut mae'n effeithio ar gymdeithas y DU a'r hyn sydd angen ei wneud er mwyn gwrthsefyll ei effeithiau negyddol yn effeithiol.

Felly, yn y flwyddyn sydd i ddod, byddwn yn rhoi blaenoriaeth i ariannu ymchwil newydd i niwed a achosir i oedolion ac yn defnyddio gwybodaeth sydd ar gael am strategaethau effeithiol ar gyfer mynd i'r afael â hyn o holl waith y Swyddfa Gartref ar niwed anghyfreithlon a'n gwaith ehangach ar y Siarter Ddigidol. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid megis y 'Behavioural Insights Team' er mwyn ystyried ffyrdd y gall y Llywodraeth, cwmnïau ac elusennau annog defnyddwyr i wella eu hymddygiad ar-lein. At hynny, byddwn yn canolbwyntio ar ymchwil newydd i fynd i'r afael â'r bylchau presennol mewn tystiolaeth a nodwyd gan adolygiad Grŵp Tystiolaeth UKCCIS o lenyddiaeth mewn perthynas â gweithgareddau a diogelwch plant a'r risgiau y maent yn eu hwynebu ar-lein.<sup>40</sup>

<sup>39</sup> <http://attitudes.doteveryone.org.uk/>

<sup>40</sup> [https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/650933/Literature\\_Review\\_Final\\_October\\_2017.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/650933/Literature_Review_Final_October_2017.pdf)

Nododd ymchwil gan y **Comisiynydd Plant** i effaith y cyfryngau cymdeithasol ar fywydau plant 8-12 oed nad yw plant wedi'u paratoi'n ddigonol ar gyfer bywyd ar-lein, yn enwedig ar yr adeg hanfodol bwysig pan fyddant yn trosglwyddo i'r ysgol uwchradd. Ym mis Ionawr 2018, cyhoeddodd **'Life in "likes"**, a oedd yn cynnwys gwaith dadansoddi o gyfres o grwpiau ffocws gyda phlant. Ystyriodd y ffordd y maent yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, sut mae'n dylanwadu ar eu perthnasoedd â ffrindiau a'u teulu a sut mae'n effeithio ar eu lles cyffredinol.

Nododd yr adroddiad fod plant yn arbrofi ag amrywiaeth o lwyfannau cyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys llawer a oedd yn 'rhy ifanc' yn ffurfiol i'w defnyddio. Dywedodd plant eu bod yn drysu ynghylch pa mor hen mae angen i chi fod er mwyn defnyddio cyfryngau cymdeithasol.

Nododd yr adroddiad fanteision y cyfryngau cymdeithasol, gan fod plant iau yn arbennig wedi dweud eu bod yn gwneud iddynt deimlo'n hapus a braf. Fodd bynnag, nododd hefyd nad yw plant wedi'u paratoi'n ddigonol ar gyfer effeithiau emosiynol a chymdeithasol defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a rhybuddiodd am 'ymyl clogwyn' wrth i blant drosglwyddo i'r ysgol uwchradd ac wrth i'w cylchoedd cymdeithasol, all-lein ac ar-lein, ehangu'n gyflym.

## Atodiad A – Gweithgareddau Ymgynghori

---

Hoffem ddiolch i'r ysgolion canlynol am gymryd rhan yn ein grwpiau ffocws a'n trafodaethau bord gron.

Oasis Academy Lister Park  
Academi Plant Iau Cheam Common  
Ysgol Fabanod Parklands  
Ysgol Gynradd Coppice  
Ysgol Gynradd Marlborough  
Ysgol Gynradd Rydd Earls Court  
Ysgol Gynradd The Cedars  
Ysgol Gynradd Chadwell  
Ysgol Plant Iau Gilmour  
Ysgol Gynradd LIPA  
Ysgol Gynradd Fazakerley  
Ysgol Gynradd Our Lady Immaculate  
Ysgol Gynradd St Patrick  
Ysgol Gynradd Whitefield  
Ysgol Gynradd Knotty Ash  
Ysgol Plant Iau Gatholig St Francis de Sales  
Ffederasiwn St Sebastian a St Cuthbert  
Ysgol Gynradd Barlows  
The Innovation Centre, Bradford  
Ysgol Southfield (SEND), Bradford  
Ysgol Ramadeg Bingley

### *Ymatebion i arolwg yr ymgynghoriad*

Lluniwyd dwy fersiwn o'n harolwg ymgynghori ar-lein - un i unigolion ac un i sefydliadau. Roedd yr arolwg i unigolion yn cynnwys cwestiynau am brofiadau personol ar-lein a'n cynigion polisi, tra bod yr arolwg i sefydliadau ond yn cynnwys cwestiynau am ein cynigion polisi. Ymatebodd 528 o unigolion a 62 sefydliadau i'n harolwg. Lle rydym wedi darparu ffigurau ar gyfer canlyniadau'r ymgynghoriad yn y ddogfen hon, rydym wedi nodi p'un a yw'r canlyniadau yn ymwneud ag ymatebion gan unigolion neu sefydliadau.

Wrth i unigolion a sefydliadau gwblhau ein harolwg, gallent ddewis cyflwyno eu hymatebion heb ateb pob un o'r cwestiynau. Felly, mae nifer yr ymatebwyr yn amrywio ar gyfer pob cwestiwn. Mae canrannau'r canlyniadau a roddir yn y ddogfen hon wedi'u cyfrifo ar sail nifer yr ymatebwyr a atebodd y cwestiwn penodol hwnnw.

#### Er enghraifft:

Ymatebodd cyfanswm o 528 o unigolion i'r arolwg.

Cwestiwn X - ymatebodd 360 o unigolion. Dewisodd 240 o unigolion 'oes' a dewisodd 120 o unigolion 'nac oes'. Cyfrifir canran yr unigolion a ymatebodd drwy ddewis 'oes' fel a ganlyn:  
 $(240/360) \times 100 = 67\%$

# Atodiad B – Cod ymarfer drafft i ddarparwyr llwyfannau cyfryngau cymdeithasol ar-lein.

---

Mae'r cod hwn yn rhoi canllawiau fel sy'n ofynnol gan adran 103 o Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017. Mae hefyd yn rhoi canllawiau ychwanegol, nad ydynt yn ofynnol o dan y Ddeddf.

[Cod ymarfer o dan adran 103]

Mae'r cod ymarfer hwn yn gymwys i ymddygiad -

- a. gan unigolion ar-lein;
- b. sydd wedi'i anelu at unigolyn; ac
- c. sy'n cynnwys bwlio neu sarhau, neu ymddygiad arall sy'n debygol o fygwth, neu fychanu'r unigolyn (y cyfeirir ato fel 'cam-drin' am weddill y ddogfen hon).

Nid yw'r cod hwn yn effeithio ar y ffordd yr ymdrinnir ag ymddygiad anghyfreithlon.

Gellir diwygio'r cod ymarfer o bryd i'w gilydd.

1. Dylai "Darparwyr Cyfryngau Cymdeithasol" gynnal **proses gofnodi glir a thryloyw** er mwyn galluogi unigolion i roi gwybod i ddarparwyr bod eu llwyfannau yn cael eu defnyddio ar gyfer yr ymddygiad a nodwyd uchod. Dylai hyn gynnwys:
  - Y gallu i ddefnyddwyr roi gwybod am gynnwys neu ymddygiad sy'n torri telerau ac amodau'r gwasanaeth;
  - Y gallu i ddefnyddwyr roi gwybod am achosion o gam-drin sy'n targedu rhyw, hunaniaeth drawsrywiol, anabledd, hil, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd a barn wleidyddol;
  - Canllawiau i ddefnyddwyr ar sut i roi gwybod i'r awdurdodau perthnasol am gynnwys neu ymddygiad a allai dorri cyfraith y DU.
  - Y gallu i drin achosion y rhoddir gwybod amdanynt gan ddefnyddwyr sy'n nodi eu bod o dan 18 oed yn briodol;
  - Rhoi prosesau ar gyfer edrych ar luniau, fideos, testun a chynnwys neu ymddygiad arall y rhoddir gwybod amdano/amdanynt gan ddefnyddwyr ar waith;
  - Darparu gwybodaeth am weithdrefnau cofnodi ac adolygu ar gyfer defnyddwyr a sicrhau y gallant weld y wybodaeth honno;
  - Adnoddau i atal y defnyddiwr sydd wedi lanlwytho cynnwys camdriniol neu ei wneud yn fud, fel na all weld eitemau a gyhoeddir na sgwrsio â'r dioddefwr mwyach;
  - Prosesau cymedroli y darperir adnoddau ar eu cyfer sy'n cyd-fynd â sail defnyddwyr y llwyfan;
  - Dolenni i opsiynau cofnodi mewn manau priodol ar y llwyfan fel eu bod yn cael eu gweld yn rheolaidd gan y defnyddiwr;
  - Canllawiau clir ar oedran, gan gynnwys o leiaf system i ddefnyddwyr roi gwybod am ddefnydd gan blant dan oed os ydynt yn amau bod hynny'n digwydd;
  - Cyfle i brofi a gwella systemau cofnodi yn seiliedig ar adborth defnyddwyr ac wrth i gynhyrchion/nodweddion newydd gael eu datblygu;

- Dolenni er mwyn galluogi defnyddwyr i gael cymorth priodol oddi ar y llwyfan ar gyfer amrywiaeth o broblemau: trosedd, bwlio, iechyd meddwl a lles meddyliol ac iechyd a lles corfforol, hunanladdiad a hunan-niwed.
- Sicrhau bod hyfforddiant a chymorth iechyd meddwl a lles priodol ar gael i bob cymedrolwr.

Enghreifftiau arfer gorau o'r egwyddor:

- System brysbennu i ymdrin â chynnwys y rhoddir gwybod amdano;
- Y gallu i roi gwybod am sawl achos o gam-drin;
- Y gallu i unigolion nad ydynt yn ddefnyddwyr roi gwybod am gynnwys/ymddygiad camdriniol a chynnwys a allai fod yn niweidiol, er enghraifft galluogi rhieni ac athrawon i roi gwybod am gynnwys/ymddygiad o'r fath ar ran pobl ifanc;
- Yr opsiwn i roi gwybod am gynnwys/ymddygiad 'mewn-lein': botymau cofnodi ar y cynnwys/ymddygiad ei hun y mae'n bosibl y bydd y defnyddiwr am roi gwybod amdano;
- Ffrydiau cofnodi ar gyfer cwynion lle mae camdriniaeth yn targedu un neu fwy o'r nodweddion gwarchoddedig a nodir yn Neddff Cydraddoldeb 2010;
- Blaenoriaethu achosion y rhoddir gwybod amdanynt sy'n ymwneud â'r canlynol: cynnwys neu ymddygiad sy'n ymwneud â hunanladdiad neu hunan-niwed, bygythiadau credadwy a diogelwch plant (defnyddwyr o dan 18 oed);
- Cyfeirio defnyddwyr at wefannau neu adnoddau cyfeirio cyhoeddus i roi gwybod am gynnwys neu ymddygiad a allai dorri cyfraith y DU er mwyn i asiantaethau gorfodi'r gyfraith a'r diwydiant gymryd camau priodol. Mae'r rhain yn cynnwys Uned Gyfeirio'r Rhyngwyd ar gyfer Gwrthderfysgaeth, gwefan cofnodi troseddau casineb True Vision a Sefydliad Gwyllo'r Rhyngwyd (IWF);
- Defnyddio cymysgedd o systemau cymedroli gan bobl a pheiriannau gyda safonau hyfforddi gofynnol a chanllawiau i gymedrolwyr ar gynnwys ar-lein;
- Sefydlu pwyntiau cyswllt unigol effeithiol o fewn y cwmni ar gyfer asiantaethau gorfodi'r gyfraith;
- Adnoddau i ddadgofrestru o gyfrifon sy'n cynhyrchu neu'n rhannu deunydd tramgwyddus neu roi'r gorau i'w dilyn.
- Cynnwys gweithwyr proffesiynol a defnyddwyr perthnasol wrth lunio polisiau diogelwch newydd;
- Defnyddio adnoddau technolegol sy'n atal defnyddwyr sydd wedi'u blocio o'r llwyfannau rhag ceisio dychwelyd.

## 2. Dylai "Darparwyr Cyfryngau Cymdeithasol" gynnal prosesau ar gyfer ymdrin â hysbysiadau gan ddefnyddwyr. Dylai hyn gynnwys:

- Darparu gwybodaeth am y ffordd yr ymdrinnir ag achosion y rhoddir gwybod amdanynt a sut y rhoddir gwybod am y canlyniad, gan gynnwys yr amserlen ddisgwyliedig;
- Dileu cynnwys y rhoddir gwybod amdano ar sail 'cydymffurfio neu esbonio' - dylai prosesau hysbysu defnyddwyr am ganlyniad achos y rhoddir gwybod amdano, pan fydd camau wedi'u cymryd, os oes angen rhagor o wybodaeth a phan na fydd unrhyw ohebiaeth bellach yn cael ei hanfon;



- Anfon cydnabyddiaeth at ddefnyddwyr fod eu hysbysiad wedi'i dderbyn yn llwyddiannus o fewn 24 awr. Dylai'r gydnabyddiaeth roi rhagor o wybodaeth am y broses gofnodi gan gynnwys: ymrwymiad i weithredu mewn perthynas ag achosion o gam-drin y rhoddir gwybod amdanynt o fewn nifer benodol oriau a'r amserlenni disgwylidig ar gyfer eu datrys.
- Hyrwyddo gwybodaeth sy'n hygyrch ac mewn un man i ddefnyddwyr, e.e. mewn 'canolfan ddiogelwch' (neu rywle cyfatebol).

Enghreifftiau arfer gorau o'r egwyddor:

- Mae darparwyr yn ystyried y ffordd fwyaf effeithiol o gyfathrebu â defnyddwyr am yr achosion y maent wedi rhoi gwybod amdanynt - gall hyn gynnwys defnyddio sianeli cyfathrebu gwahanol neu addasu'r iaith a ddefnyddir ar gyfer defnyddwyr iau;
- Mae darparwyr yn gweithio'n effeithiol gyda hysbyswyr y gellir ymddiried ynddynt gan gynnwys elusennau a sefydliadau cymorth defnyddwyr eraill megis llinell gymorth Pornograffi Dial.
- Defnyddir cymorth ychwanegol gan gynnwys cyfeirio at ffynonellau eraill o arweiniad er mwyn helpu defnyddwyr â phroblemau cymhleth, gan gynnwys pryderon ynghylch iechyd meddwl.
- Tynnu sylw defnyddwyr at opsiynau preifatrwydd fel rhan o'r broses gofnodi;
- Cynnig proses apelio i ddefnyddwyr sy'n anghytuno â phenderfyniadau llwyfannau ynghylch dileu cynnwys;
- Y gallu i unigolion nad ydynt yn ddefnyddwyr roi gwybod am gynnwys/ymddygiad camdriniol, er enghraifft galluogi rhieni ac athrawon i roi gwybod am gynnwys/ymddygiad o'r fath ar ran pobl ifanc;
- Mae darparwyr yn rhagweld pryd y gallai fod cynnydd yn nifer yr achoson y rhoddir gwybod amdanynt, megis yn ystod cyfnodau etholiadol, a sicrhau bod adnoddau priodol ar gael i ymdrin ag adroddiadau mewn modd amserol.

### 3. Dylai "Darparwyr Cyfryngau Cymdeithasol" gynnwys **darpariaethau ynghylch y materion uchod yn eu telerau ac amodau.**<sup>41</sup> Dylai telerau ac amodau:

- Gael eu hategu gan yr egwyddor bod yr hyn sy'n annerbyniol all-lein hefyd yn annerbyniol ar-lein, gyda'r gallu i droi at gyfraith y DU;
- Cael eu hysgrifennu'n glir a bod yn hawdd i'w deall;
- Cynnwys y canlyniadau i ddefnyddwyr os byddant yn torri'r telerau ac amodau;
- Cynnwys gwybodaeth am y canlynol neu ddarparu dolenni iddynt:
  - Enghreifftiau o gynnwys ac ymddygiad derbyniol gan ddefnyddwyr;
  - Darpariaeth i fynd i'r afael ag ymddygiad camdriniol;
  - Parchu hawliau pobl eraill;
  - Y camau a gymerir i fynd i'r afael ag achosion o gam-drin yn ddiennw;
  - Y camau a gymerir yn erbyn cynnwys a ddilëwyd ac a ail-lanlwythwyd;
  - Darpariaeth i derfynu cyfrifon a ddefnyddir i gam-drin eraill;
  - Lle y gall ymddygiad fod yn gyfystyr â throsedd;
  - Cyfeirio at/darparu dolen i esboniad o'r ffordd y caiff canllawiau cymuned eu datblygu, eu gorfodi a'u hadolygu gan gynnwys gwybodaeth am fetrigau perfformiad ar gyfer dileu cynnwys;

<sup>41</sup> Cyfeirir atynt hefyd fel 'Telerau Defnydd' gan rai darparwyr.

- Darpariaeth ar gyfer gosodiadau preifatrwydd defnyddwyr gan gynnwys y gallu i sicrhau na all y cyhoedd weld proffil.

Enghreifftiau arfer gorau o'r egwyddor:

- Mynegir polisïau, gan gynnwys y telerau ac amodau, mewn iaith syml a gall defnyddwyr o bob oedran eu deall;
- Mae polisïau am gynnwys ac ymddygiad derbynol gan ddefnyddwyr yn hawdd eu deall a gellir eu hatgynhyrchu ar wahân i brif delerau ac amodau llwyfan, er enghraifft fel rhan o safonau cymuned;
- Dylid cyflwyno negeseuon atgoffa rheolaidd am y polisïau mewn fformatau diddorol ar draws teithiau defnyddwyr nodweddiadol gwahanol.

#### 4. Dylai “Darparwyr Cyfryngau Cymdeithasol” roi **esboniadau clir i'r cyhoedd ynglŷn â'r camau a gymerir yn erbyn y cynnwys a nodwyd uchod:**

- Dylid hysbysu defnyddwyr am y trefniadau ar gyfer atal a nodi ymddygiad sy'n groes i bolisïau'r llwyfan ac am ganlyniadau ymddygiad o'r fath. Dylai hyn gynnwys strategaethau ar gyfer defnyddwyr sy'n cam-drin unigolion eraill yn barhaus neu sy'n ymddwyn mewn ffordd a allai hyrwyddo ymddygiad llawn risg a pheryglus neu hunan-niwed bwriadol neu niweidio iechyd meddwl a lles defnyddwyr eraill;
- Dylai llwyfannau roi esboniadau i ddefnyddwyr ar sail ‘cydymffurfio neu esbonio’ os bydd cynnwys wedi'i ddileu ar ôl iddynt roi gwybod amdano;
- Dylai llwyfannau orfodi canlyniadau camymddwyn, fel y'u nodir yn eu polisïau, yn gyson.

Enghreifftiau arfer gorau o'r egwyddor:

- Mae llwyfannau yn darparu addysg ar ymddygiad priodol ar-lein i bob defnyddiwr, yn enwedig y rhai sy'n torri polisïau'r llwyfan;
- Ymgorfforir gwybodaeth am ganlyniadau camddefnydd yn y negeseuon atgoffa rheolaidd am bolisïau'r llwyfan.

[Nid oes angen Canllawiau Ychwanegol o dan adran 103]

Mae'r cod ymarfer uchod hefyd yn gymwys i ymddygiad sydd wedi'i anelu at grwpiau a busnesau. Mae enghreifftiau o ‘grwpiau’ yn cynnwys cefnogwyr tîm pêl-droed, disgyblion ysgol, pobl o dref benodol, cefnogwyr plaid wleidyddol benodol.

Yn ogystal â'r mathau o gamdriniaeth a nodwyd uchod, mae'r cod hefyd yn gymwys i ymddygiad sy'n amharu ar iechyd meddwl a lles. Bydd y cod ymarfer yn annog defnyddio technoleg i nodi cynnwys ac ymddygiad ar-lein a allai fod yn niweidiol.

Yn ogystal â'r cod hwn, mae canllawiau eraill sy'n berthnasol i “ddarparwyr cyfryngau cymdeithasol” yn cynnwys:

- canllawiau presennol y Comisiynydd Gwybodaeth ac unrhyw ganllawiau a gyhoeddir ganddo yn y dyfodol, gan gynnwys y Cod Dylunio sy'n Addas i'r Oedran sydd ar fin cael ei gyhoeddi;
- *Child Safety Online - A practical guide for providers of social media and interactive services*, a gyhoeddir gan Gyngor y DU ar Ddiogelwch Plant ar y Rhyngwyd.

# Atodiad C – Templed drafft ar gyfer adroddiadau tryloywder

<b>TEMPLED ADRODDIAD TRYLOYWDER</b>	
Data yn ymwneud â'r cyfnod rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2018	
<b>Gwybodaeth am y cwmni</b>	
Enw'r cwmni	
Cyfeiriad pencadlys y cwmni	
Cyfeiriad y pencadlys yn y DU (os yw'n gymwys)	
Cyfanswm y defnyddwyr yn y DU	
Cyfanswm yr eitemau/darnau o gynnwys a gyhoeddwyd yn y DU	
<b>Gwybodaeth am brosesau</b>	
Gwybodaeth yn nhelerau ac amodau'r DU a chanllawiau'r gymuned am ba gynnwys ac ymddygiad sy'n dderbyniol/annderbyniol ar y llwyfan	Mae'r telerau ac amodau yn nodi:  Mae canllawiau'r gymuned yn nodi:
Gwybodaeth yn nhelerau ac amodau'r DU a chanllawiau'r gymuned am y broses gofnodi	Mae'r telerau ac amodau yn nodi:  Mae canllawiau'r gymuned yn nodi:
Nifer y cyflogeion sy'n edrych ar <u>bob</u> math o achos y rhoddir gwybod amdano yn y DU	
Nifer y cyflogeion sy'n edrych yn benodol ar <u>achosion o gam-drin</u> y rhoddir gwybod amdanynt yn y DU	
Nifer y cyflogeion <u>hynny</u> sydd â hyfforddiant iechyd meddwl (naill ai hyfforddiant proffesiynol neu hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar ymwybyddiaeth)	

Manylion y cymorth y gall defnyddwyr gael eu cyfeirio ato ar ôl rhoi gwybod am bryderon, er enghraifft llinell gymorth atal hunanladdiad.	
Nifer y defnyddwyr a gaiff eu cyfeirio at gymorth	
Trothwy ar gyfer terfynu cyfrif defnyddiwr yn derfynol	
<b>Gwybodaeth am achosion y rhoddwyd gwybod amdanynt</b>	
<u>Prif ffigurau</u>	
Cyfanswm yr eitemau o gynnwys y rhoddwyd gwybod amdanynt gan ddefnyddwyr yn y DU	
Nifer y defnyddwyr yn y DU a roddodd wybod am unrhyw fath o achos	
Cyfanswm yr achosion y rhoddwyd gwybod amdanynt gan ddefnyddwyr yn y DU	
Canran yr achosion y rhoddwyd gwybod amdanynt gan ddefnyddwyr yn y DU a arweiniodd at gymryd camau e.e. dilëwyd cynnwys, ataliwyd y defnyddiwr, ac ati	
Yr amser a gymerir, ar gyfartaledd, i edrych ar bob math o achos y rhoddir gwybod amdano (h.y. o'r adeg y mae'r defnyddiwr yn rhoi gwybod am yr achos i'r adeg y caiff yr achos ei gau)	
Yr amser at gyfartaledd rhwng creu cynnwys a'i ddileu	
Manylion hysbyswyr y gellir ymddiried ynddynt sy'n cyfrannu at broses gofnodi, os yw'n briodol	
Nifer y darnau o gynnwys y rhoddir gwybod amdanynt gan hysbyswyr y gellir ymddiried ynddynt a chanran y cynnwys a ddilëir wedyn	
Canran y defnyddwyr sy'n rhoi gwybod am gynnwys ac yn cael adborth	
Canran yr hysbyswyr y gellir ymddiried ynddynt sy'n rhoi gwybod am gynnwys ac yn cael adborth	
Yr amser a gymerir, ar gyfartaledd, i anfon penderfyniad ynghylch achos y rhoddwyd gwybod amdano at ddefnyddwyr	

Ffigurau manwl	
Nifer y defnyddwyr sy'n rhoi gwybod am gynnwys ac sy'n cael eu cyfeirio wedyn at gymorth iechyd meddwl	
Nifer y defnyddwyr sy'n rhoi gwybod am gynnwys ac sy'n cael eu cyfeirio wedyn at fathau eraill o gymorth	
Nifer yr achosion y rhoddir gwybod amdanynt sy'n ymwneud â chynnwys sydd wedi'i ddileu ac wedi'i ail-lanwytho wedyn	
Nifer cyfrifon defnyddwyr dan oed sydd wedi'u dileu	

Categoriâu o gwynion	Nifer yr eitemau o gynnwys a ddilëwyd yn rhagweithiol (h.y. nid ar sail hysbysiadau gan ddefnyddwyr)	Nifer yr eitemau o gynnwys y rhoddirwyd gwybod amdanynt gan ddefnyddwyr yn y DU	Nifer y defnyddwyr yn y DU a roddodd wybod am achos o gynnwys/ymddygiad annerbyniol	Nifer yr achosion y rhoddirwyd gwybod amdanynt gan ddefnyddwyr yn y DU	Canran yr achosion y rhoddirwyd gwybod amdanynt gan ddefnyddwyr yn y DU a arweiniodd at gymryd camau	Nifer cyfrifon defnyddwyr a ataliwyd ar ôl cael gwybod am achosion o gynnwys/ymddygiad annerbyniol	Yr amser a gymerir, ar gyfartaledd, i edrych ar achosion y rhoddirwyd gwybod amdanynt
Cam-drin							
Cynnwys treisgar neu graffig							
Cynnwys niweidiol neu beryglus - cynnwys a allai beri i ddefnyddwyr niweidio eu hunain neu bobl eraill							
Noethni neu gynnwys rhywiol							
Sbam, data camarweiniol, sgamiau, newyddion ffug							
Hawlfraint							
Dynwared rhywun arall							

Arall							
-------	--	--	--	--	--	--	--

Achosion y rhoddir gwybod amdanynt sy'n ymwneud â cham-drin	
Canran yr achosion y rhoddir gwybod amdanynt ar ran rhywun arall	
Canran yr achosion y rhoddir gwybod amdanynt sy'n ymwneud â chyfrifon dienw	
Canran yr achosion y rhoddir gwybod amdanynt lle mae'r hysbyswr yn adnabod yr unigolyn y mae'n rhoi gwybod amdano	

	Nifer y defnyddwyr	Cyfanswm yr achosion o gam-drin y rhoddir gwybod amdanynt	Canran yr achosion o gam-drin sy'n arwain at ddileu cynnwys
Defnyddwyr o dan 13 oed yn y DU			
Defnyddwyr 13-15 oed yn y DU			
Defnyddwyr 16-18 oed yn y DU			
Defnyddwyr 19-25 oed yn y DU			
Defnyddwyr 26-35 oed yn y DU			
Defnyddwyr 36-45 oed yn y DU			
Defnyddwyr 46-55 oed yn y DU			
Defnyddwyr 56-65 oed yn y DU			
Defnyddwyr dros 65 oed yn y DU			
Defnyddwyr yn y DU - ni chofnodwyd			

oedran			
--------	--	--	--

<b>Categoriâu o gwynion ynghylch camdriniaeth<sup>42</sup></b>	<b>Nifer yr achosion o gam-drin y rhoddir gwybod amdanynt</b>
Yn ymwneud â rhyw	
Yn ymwneud â hunaniaeth drawsrywiol	
Yn ymwneud ag anabledd	
Yn ymwneud â hil	
Yn ymwneud â chyfeiriadedd rhywiol	
Yn ymwneud â chrefydd neu greddo	
Yn ymwneud â barn wleidyddol	

**Cyfle i:**

- **dynnu sylw at unrhyw dueddiadau neu wybodaeth sylweddol sy'n ymwneud ag unrhyw ddata uchod;**
- **darparu rhagor o wybodaeth am ddull y cwmnïau o roi gwybod am achosion ac unrhyw gynlluniau i wella prosesau cofnodi**

<sup>42</sup> Gall achosion y rhoddir gwybod amdanynt ymwneud â sawl categori o gamdriniaeth ac, felly, gellir eu cofnodi o dan fwy nag un categori.

© Hawlfraint y Goron 2018 Gallwch aildefnyddio'r wybodaeth hon (heb gynnwys logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored..

Er mwyn gweld y drwydded hon, ewch i [www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/](http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/) neu ysgrifennwch at yr Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu anfonwch neges e-bost i: [psi@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk).



HM Government